- (a) goleddf y tir, yn enwedig os yw'r goleddf yn fwy na 12°,
- (b) unrhyw orchudd tir,
- (c) pa mor agos yw'r tir at ddŵr wyneb,
- (d) yr amodau tywydd,
- (e) y math o bridd, ac
- (f) presenoldeb draeniau tir.

(3) Ni chaiff unrhyw berson daenu gwartaith nitrogen os yw'r pridd yn ddyfrlawn, dan ddŵr, wedi ei orchuddio ag eira, wedi rhewi neu os oedd y pridd wedi rhewi am fwy na 12 awr yn ystod y 24 awr flaenorol.

Taenu gwartaith nitrogen a weithgynhyrchwyd ger dŵr wyneb

13. Ni chaiff unrhyw berson daenu gwartaith nitrogen a weithgynhyrchwyd o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb.

Taenu tail organig ger dŵr wyneb, tyllau turio, ffynhonnau neu bydewau

14.—(1) Ni chaiff unrhyw berson daenu tail organig o fewn 10 metr i ddŵr wyneb oni ddefnyddir cyfarpar taenu manwl, ac yn yr achos hwnnw ni chaiff unrhyw berson daenu tail organig o fewn 6 metr i ddŵr wyneb.

(2) Ond caniateir taenu tail da byw yno (ac eithrio slyri a thail dofednod)—

- (a) os taenir ef ar dir a reolir ar gyfer bridio adar hirgoes neu fel glaswelltir lled-naturiol cyfoethog ei rywogaethau ac os yw'r tir—
 - (i) yn dir yr hysbyswyd ei fod yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(1), neu
 - (ii) yn ddarostyngedig i ymrwymiad amaeth-amgylcheddol a wnaed o dan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005(2), neu Reoliad (EU) 1305/2013(3),
- (b) os taenir ef rhwng 1 Mehefin a 31 Hydref yn gynwysedig,
- (c) os na thaenir ef yn uniongyrchol ar ddŵr wyneb, a
- (d) os nad yw'r cyfanswm blynyddol yn fwy na 12.5 tonnall yr hecтар.

(3) Ni chaiff unrhyw berson daenu tail organig o fewn 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn diffinnir “cyfarpar taenu manwl” fel system gwadnau llusg, bar diferion neu chwistrellydd.

Rheoli'r modd y taenir gwartaith nitrogen

15.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i unrhyw berson sy'n taenu slyri ddefnyddio cyfarpar

(1) 1981 p. 69.
 (2) EUR 1698/2005.
 (3) EUR 1305/2013, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/748 a 764.

taenu sydd â thafllwybr taenu isel, sef is na 4 metr o'r ddaear.

(2) Caniateir defnyddio cyfarpar taenu sydd â thafllwybr taenu sy'n fwy na 4 metr o'r ddaear ar dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel pan fydd cyfarpar o'r fath yn gallu cyflawni cyfartaledd cyflymder dodi slyri heb fod yn fwy na 2 mm yr awr pan fydd wrthi'n gweithredu'n ddi-dor.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n taenu gwrtaith nitrogen ei daenu mor fanwl gywir ag y bo modd.

Corffori tail organig yn y ddaear

16.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n dodi tail organig ar wyneb pridd moel neu sofl (ac eithrio pridd sydd wedi ei hau) sicrhau y corfforir y tail yn y pridd yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid corffori tail dofednod cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac o fewn 24 awr fan hwyrhaf.

(3) Rhaid corffori slyri a hylif slwtsh carthion treuliedig (hynny yw, hylif sy'n dod o drin slwtsh carthion drwy dreulio anerobig) cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac o fewn 24 awr fan hwyrhaf, oni ddodwyd y slyri a'r hylif gan ddefnyddio cyfarpar o fath a ddisgrifir yn rheoliad 14(4).

(4) Rhaid corffori unrhyw dail organig arall (ac eithrio tail organig a daenir fel tomwellt ar bridd tywodlyd) yn y pridd cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac o fewn 24 awr fan hwyrhaf, os yw'r tir o fewn 50 metr i ddŵr wyneb ac yn goleddfu mewn modd a allai achosi goferu i'r dŵr hwnnw.

RHAN 5

Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith nitrogen

Ystyr “tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd”

17. Yn y Rhan hon, ystyr “tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd” yw tail organig y mae mwy na 30 % o gyfanswm y nitrogen sydd ynddo ar gael i'r cnwd ar yr adeg y taenir y tail.

Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd

18. Yn ddarostyngedig i reoliadau 19 ac 20, ni chaiff unrhyw berson daenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar dir rhwng y dyddiadau canlynol, sydd bob un ohonynt yn ddyddiadau cynwysedig (“y cyfnod gwaharddedig”)—

Y cyfnod gwaharddedig

<i>Math o Bridd</i>	<i>Glaswelltir</i>	<i>Tir tro</i>
Pridd tywodlyd neu denau	1 Medi i 31 Rhagfyr	1 Awst i 31 Rhagfyr
Pob math arall o bridd	15 Hydref i 15 Ionawr	1 Hydref i 31 Ionawr

Esemptiadau: cnydau a heuir cyn 15 Medi

19. Caniateir taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar dir tro lle mae'r pridd yn dywodlyd neu'n denau rhwng 1 Awst a 15 Medi yn gynwysedig, ar yr amod yr heuir y cnwd ar neu cyn 15 Medi.

Esemptiadau ar gyfer daliadau organig

20. Caiff meddiannydd daliad sydd wedi cyflwyno ei ymgymriad i'r system reoli y cyfeirir ati yn Erthygl 27 o Reoliad y Cyngor (EC) 834/2007(1) daenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar unrhyw adeg—

- (a) ar gnydau a restrir yn y tabl yn Atodlen 4 (cnydau a ganiateir am y cyfnod gwaharddedig), neu
- (b) ar gnydau eraill yn unol â chyngor ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau(2),

ar yr amod na fydd pob hectar y mae tail organig yn cael ei daenu arno yn cael mwy na chyfanswm o 150 kg o nitrogen rhwng dechrau'r cyfnod gwaharddedig a diwedd Chwefror.

Cyfyngiadau ar ôl y cyfnod gwaharddedig

21. O ddiwedd y cyfnod gwaharddedig tan ddiwedd Chwefror—

- (a) 30 metr ciwbig yr hectar yw'r uchafswm o slyri y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg ac 8 tonnelli yr hectar yw'r uchafswm o dail dofednod y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg, a
- (b) rhaid bod o leiaf dair wythnos rhwng pob taeniad.

Adegau pan waherddir taenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd

22.—(1) Ni chaiff unrhyw berson daenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd ar dir yn ystod y

(1) EUR 834/2007, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/693 a 831.
 (2) Gweinyddir y cynllun gan Basis Registration Ltd, a gellir cael rhestr o bersonau cymwysedig drwy wneud cais i'r cwmni, neu ar ei wefan, www.basis-reg.com.

cyfnodau canlynol (mae pob dyddiad yn gynwysedig)—

- (a) yn achos glaswelltir, o 15 Medi i 15 Ionawr, neu
- (b) yn achos tir tro, o 1 Medi i 15 Ionawr.

(2) Caniateir taenu gwrtaith yn ystod y cyfnodau hyn ar y cnydau a bennir yn y Tabl yn Atodlen 4, ar yr amod nad eir dros ben y gyfradd uchaf yng ngholofn 2.

(3) Caniateir taenu yn ystod y cyfnodau hyn ar gnydau nad ydynt yn Atodlen 4 ar sail cyngor ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wreithiau.

RHAN 6

Storio tail organig a silwair

Storio tail organig

23. Rhaid i feddiannydd daliad sy'n storio unrhyw dail organig (ac eithrio slyri), neu unrhyw sarn sydd wedi ei halogi ag unrhyw dail organig, ei storio—

- (a) mewn llestr,
- (b) mewn adeilad dan do,
- (c) ar wyneb anhydraid, neu
- (d) yn achos tail solet y gellir ei bentyrru'n domen ar ei phen ei hun, ac nad oes hylif yn draenio o'r deunydd, ar safle dros dro mewn cae.

Gwneud neu storio silwair

24.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i berson sydd â silwair sy'n cael ei wneud neu ei storio dan ei ofal neu ei reolaeth sicrhau—

- (a) bod y silwair yn cael ei gadw mewn seilo sy'n bodloni gofynion Atodlen 5, neu
- (b) bod y silwair yn cael ei gywasgu i fynau—
 - (i) sydd wedi eu lapio a'u selio mewn pilennau anhydraid, neu wedi eu cau mewn bagiau anhydraid, a
 - (ii) sydd wedi eu storio o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai elifiant sy'n dianc o'r byrnau fynd i mewn iddynt, neu
- (c) os mai cnwd yw'r silwair sy'n cael ei wneud yn silwair maes (hynny yw, silwair sy'n cael ei wneud ar dir agored drwy ddull gwahanol i'r dull byrnau y cyfeirir ato yn is-baragraff (b)), neu os mai silwair sy'n cael ei storio ar dir agored ydyw—

- (i) bod CANC yn cael ei hysbysu o'r man lle bydd y silwair yn cael ei wneud neu ei storio o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn defnyddio'r fan honno at y diben hwnnw am y tro cyntaf, a
- (ii) bod y fan honno o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol, ac o leiaf 50 metr oddi wrth fan tynnu dŵr perthnasol agosaf unrhyw ffynhonnell cyflenwi dŵr warchoddedig y gallai elifiant silwair fynd i mewn iddynt pe bai'n dianc.

(2) At ddibenion paragraff (1)(c)(ii), mae ffynhonnell cyflenwi dŵr yn ffynhonnell cyflenwi dŵr warchoddedig—

- (a) os oes unrhyw dynnu dŵr perthnasol o'r ffynhonnell wedi ei drwyddedu o dan Ran 2 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(1), neu
- (b) os yw'r person sy'n gwneud neu'n storio'r silwair yn ymwybodol o leoliad y ffynhonnell—
 - (i) cyn dechrau ar wneud y silwair, neu
 - (ii) os gwnaed y silwair mewn man arall, cyn ei storio ar y tir dan sylw.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i silwair tra ei fod yn cael ei storio dros dro mewn cynhwysydd, ôl-gerbyd neu gerbyd mewn cysylltiad â'i gludo o gwmpas y fferm neu fan arall.

(4) Ni chaiff person sydd â bwrn silwair dan ei ofal neu ei reolaeth agor na symud ymaith yr hyn sy'n lapio'r bwrn o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair, o ganlyniad, fynd i mewn iddynt.

(5) Yn y rheoliad hwn—

- (a) ystyr “tynnu dŵr perthnasol” yw tynnu dŵr ar gyfer ei ddefnyddio—
 - (i) i'w yfed gan bobl, neu
 - (ii) at ddibenion domestig (o fewn yr ystyr a roddir i “*domestic purposes*” gan adran 218 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(2)) heblaw at ei yfed gan bobl, neu
 - (iii) i weithgynhyrchu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w yfed gan bobl, a
- (b) ystyr “ffynhonnell cyflenwi dŵr” yw dyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd daear y tynnir dŵr perthnasol ohonynt neu y trwyddedir tynnu dŵr perthnasol ohonynt.

(1) 1991 p. 57.
 (2) 1991 p. 56.

Storio slyri

25.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i berson sydd â slyri dan ei ofal neu ei reolaeth feddu ar system storio slyri sy'n bodloni gofynion Atodlen 6, a rhaid storio'r slyri yn y system honno.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i slyri tra bo'n cael ei storio dros dro mewn tancer sy'n cael ei ddefnyddio i gludo slyri ar ffyrdd neu o gwmpas fferm.

Esemptiadau i'r gofynion storioq

26.—(1) Nid yw rheoliadau 24(1) a 25(1) yn gymwys i seilo neu system storio slyri—

- (a) a ddefnyddid, cyn 1 Mawrth 1991, at y diben o wneud silwair neu storio slyri,
- (b) onis defnyddid cyn 1 Mawrth 1991 at y diben hwnnw, a adeiladwyd cyn y dyddiad hwnnw ar gyfer y defnydd hwnnw, neu
- (c) yr oedd, mewn perthynas ag ef neu hi—
 - (i) contract wedi ei wneud cyn 1 Mawrth 1991 i adeiladu, ehangu'n sylweddol neu ailadeiladu'n sylweddol y seilo neu'r system storio slyri, a
 - (ii) gwaith o'r fath wedi cychwyn cyn y dyddiad hwnnw, ac
 yn y naill achos neu'r llall fod y gwaith wedi ei gwblhau cyn 1 Medi 1991.

Safleoedd dros dro mewn caeau

27.—(1) Ni chaiff safle dros dro mewn cae bod—

- (a) mewn cae sy'n agored i lifogydd neu fynd yn ddyfrlawn,
- (b) o fewn 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew neu o fewn 10 metr i ddŵr wyneb neu ddraen tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi ei selio),
- (c) mewn unrhyw un lleoliad am fwy na 12 mis yn olynol, neu
- (d) yn yr un man ag un cynharach a adeiladwyd o fewn y ddwy flynedd diwethaf.

(2) Rhaid i unrhyw dail dofednod solet, nad oes sarn yn gymysg ag ef ac sy'n cael ei storio ar safle dros dro mewn cae, gael ei orchuddio â deunydd anhydraidd.

(3) Yn ychwanegol—

- (a) ni chaniateir symud uwchbridd o'r tir lle y bwriedir adeiladu safle dros dro mewn cae,
- (b) ni chaiff safle dros dro mewn cae bod o fewn 30 metr i gwrs dŵr ar dir y nodir ar y map risg fod ei oledf yn fwy na 12°, ac

- (c) rhaid cadw arwyneb unrhyw safle dros dro mewn cae mor fach ag y bo'n rhesymol ymarferol, er mwyn lleihau effeithiau trwytholchi gan ddŵr glaw.

Gwahanu slyri

28. Rhaid i'r broses o wahanu slyri i'w ffracsiynau solet a hylifol gael ei chyflawni'n fecanyddol neu ar wyneb anhydraiddd lle mae'r ffracsiwn hylifol yn draenio i mewn i gynhwysydd addas.

Gofod ar gyfer storio

29.—(1) Rhaid i feddiannydd daliad sy'n cadw unrhyw un o'r anifeiliaid a bennir yn Atodlen 1 ddarparu digon o ofod i storio'r holl slyri a gynhyrchir ar y daliad yn ystod y cyfnod storio, a'r holl dail dofednod a gynhyrchir mewn buarth neu adeilad ar y daliad yn ystod y cyfnod storio.

(2) Rhaid cyfrifo cyfaint y tail a gynhyrchir gan yr anifeiliaid ar y daliad yn unol ag Atodlen 1.

(3) Rhaid bod gan storfa slyri y gofod i storio, yn ychwanegol at y tail, unrhyw ddŵr glaw, golchion neu hylif arall sy'n dod i mewn i'r llestr (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn ystod y cyfnod storio.

(4) Nid yw cyfleusterau storio'n angenrheidiol ar gyfer slyri na thail dofednod—

- (a) a anfonir oddi ar y daliad, neu
- (b) a daenir ar dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel (ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud yn unol â'r cyfyngiadau ar daenu yn y Rheoliadau hyn); ond yn yr achos hwn rhaid darparu cyfleusterau storio ar gyfer gwerth wythnos ychwanegol o dail fel mesur wrth gefn pe na bai'n bosibl taenu ar rai dyddiadau.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn y "cyfnod storio" (mae pob dyddiad yn gynwysedig) yw—

- (a) y cyfnod rhwng 1 Hydref ac 1 Ebrill ar gyfer moch a dofednod;
- (b) y cyfnod rhwng 1 Hydref ac 1 Mawrth ym mhob achos arall.

Hysbysiad yn gwneud gwaith etc. yn ofynnol

30.—(1) Caiff CANC, o dan amgylchiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad rheoliad 30") i berson sydd â silwair neu slyri dan ei ofal neu ei reolaeth, neu sydd yn gyfrifol am y seilo, neu'r system storio slyri, yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw wneud gwaith, neu gymryd rhagofalon neu gamau eraill, a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i'r gwaith, y rhagofalon neu'r camau eraill fod, ym marn CANC, yn briodol, o ystyried gofynion y Rheoliadau hyn, er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd a reolir.

(3) Rhaid i'r hysbysiad—

- (a) pennu neu ddisgrifio'r gwaith y mae'n ofynnol i'r person ei wneud neu'r rhagofalon neu'r camau eraill y mae'n ofynnol iddo eu cymryd,
- (b) datgan y cyfnod y mae rhaid cydymffurfio ag unrhyw ofyniad o'r fath o'i fewn, ac
- (c) hysbysu'r person am effaith rheoliad 31.

(4) Y cyfnod i gydymffurfio a ddatgenir yn yr hysbysiad yw—

- (a) 28 niwrnod, neu
- (b) unrhyw gyfnod hwy sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau.

(5) Rhaid i berson y cyflwynwyd iddo hysbysiad rheoliad 30 gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad hwnnw.

(6) Caiff CANC ar unrhyw adeg (gan gynnwys adeg ar ôl i'r cyfnod i gydymffurfio ddod i ben)—

- (a) tynnu'r hysbysiad yn ei ôl,
- (b) estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad, neu
- (c) gyda chydysyniad y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo, addasu gofynion yr hysbysiad.

(7) Rhaid i CANC dynnu'r hysbysiad yn ei ôl, estyn y cyfnod i gydymffurfio, neu addasu gofynion yr hysbysiad os cyfarwyddir ef i wneud hynny gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 31(5).

Apelau yn erbyn hysbysadau rheoliad 30

31.—(1) Caiff person y cyflwynwyd iddo hysbysiad rheoliad 30, o fewn cyfnod o 28 niwrnod sy'n dechrau drannoeth y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo (neu unrhyw gyfnod hwy a ganiateir gan Weinidogion Cymru), apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i apêl o dan y rheoliad hwn gael ei gwneud drwy i'r apelydd gyflwyno hysbysiad i Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys datganiad o sail yr apêl neu rhaid i ddatganiad o'r fath ddod gydag ef.

(4) Cyn penderfynu ar apêl o dan y rheoliad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru, os gofyn yr apelydd neu CANC iddynt wneud hynny, roi cyfle i'r apelydd neu CANC ymddangos ger eu bron a chael gwrandawriad gan berson a benodwyd gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw.

(5) Wrth benderfynu ar apêl o dan y rheoliad hwn, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo CANC—

- (a) i dynnu'r hysbysiad rheoliad 30 yn ei ôl,
- (b) i addasu unrhyw un neu ragor o'i ofynion,
- (c) i estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad, neu
- (d) i wrthod yr apêl.

(6) Estynnir y cyfnod i gydymffurfio â hysbysiad rheoliad 30 y gwnaed apêl yn ei erbyn, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan baragraff (5), fel ei fod yn dod i ben ar y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu'n derfynol ar yr apêl neu, os tynnir yr apêl yn ei hôl, ar ddyddiad ei thynnu'n ôl.

Hysbysiad o adeiladu etc.

32.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw seilo neu system storio slyri y mae ei adeiladu neu ei hadeiladu i ddechrau ar neu ar ôl 28 Ebrill 2021 (“storfa newydd neu storfa wedi ei gwella”).

(2) Rhaid i berson sy'n bwriadu cael silwair neu slyri dan ei ofal neu ei reolaeth, a hwnnw i gael ei gadw mewn storfa newydd neu storfa wedi ei gwella, roi i CANC hysbysiad yn pennu'r math o seilo neu system storio a'i leoliad neu ei lleoliad, o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn y mae gwaith adeiladu'r storfa newydd neu storfa wedi ei gwella, i ddechrau.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae “adeiladu” yn cynnwys ehangu'n sylweddol ac ailadeiladu'n sylweddol.

RHAN 7

Cyfrifiadau a chofnodion

Cofnodi maint y daliad

33.—(1) Rhaid i feddiannydd daliad gynnal cofnod o faint cyfan y daliad wedi ei gyfrifo'n unol â rheoliad 4(3).

(2) Os bydd maint y daliad yn newid, rhaid diweddarur'r cofnod hwn o fewn un mis.

Cofnodion ynglŷn â storio tail yn ystod y cyfnod storio

34.—(1) Rhaid i feddiannydd daliad sydd â da byw gynnal cofnod o'r canlynol—

- (a) maint y tail y bydd y nifer disgwylidig o anifeiliaid yn ei gynhyrchu, a gedwir mewn adeilad neu ar lawr caled yn ystod y cyfnod storio y cyfeiriwyd ato yn rheoliad 29, gan ddefnyddio'r ffigurau yn Atodlen 1;

- (b) maint y gofod storio (llestri slyri a lloriau caled) y mae ei angen i'w gwneud yn bosibl cydymffurfio â rheoliad 29, gan gymryd i ystyriaeth—
 - (i) maint y tail y bwriedir ei allforio o'r daliad,
 - (ii) maint y tail y bwriedir ei daenu ar dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel, a
 - (iii) yn achos llestr i ddal slyri, maint yr hylif ac eithrio slyri sy'n debygol o fynd i mewn i'r llestr;
- (c) maint cyfredol y gofod storio ar y daliad.

(2) Rhaid i feddiannydd sy'n dod ag anifeiliaid i ddaliad am y tro cyntaf gydymffurfio â pharagraff (1) o fewn mis ar ôl dod â'r anifeiliaid yno.

(3) Os yw maint y gofod storio yn newid, rhaid i'r meddiannydd gofnodi'r newid o fewn wythnos.

Cofnodion blynyddol ynglŷn â storio

35.—(1) Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn rhaid i feddiannydd daliad sydd â da byw gofnodi, am y cyfnod storio blaenorol y cyfeirir ato yn rheoliad 29, nifer a chategori'r anifeiliaid mewn adeilad neu ar lawr caled yn ystod y cyfnod storio.

(2) Rhaid i'r meddiannydd gofnodi hefyd y safleoedd a ddefnyddiwyd ar gyfer tomenni mewn caeau a dyddiadau eu defnyddio.

Cofnod o'r nitrogen a gynhyrchwyd gan anifeiliaid ar y daliad

36.—(1) Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn rhaid i'r meddiannydd wneud cofnod o'r canlynol—

- (a) nifer a chategori (yn unol â'r categorïau yn Atodlen 1) yr anifeiliaid ar y daliad yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol, a
- (b) nifer y diwrnodau a dreuliodd pob anifail ar y daliad.

(2) Rhaid i'r meddiannydd gyfrifo wedyn faint y nitrogen sydd yn y tail a gynhyrchwyd gan yr anifeiliaid ar y daliad yn ystod y flwyddyn honno gan ddefnyddio'r Tabl yn Atodlen 1.

(3) Fel arall, yn achos moch neu ddofednod a letyir yn barhaol, caiff y meddiannydd ddefnyddio—

- (a) meddalwedd a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru, neu
- (b) yn achos system cadw da byw sy'n cynhyrchu tail solet yn unig, dulliau samplu a dadansoddi yn unol â Rhan 2 o Atodlen 3.

(4) Rhaid i'r meddiannydd wneud cofnod o'r cyfrifiadau a'r modd y cyrhaeddwyd at y ffigurau terfynol.

(5) Rhaid i feddiannydd a ddefnyddiodd feddalwedd a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru gadw allbrint o'r canlyniad.

Tail da byw a ddygwyd i'r daliad neu a anfonwyd ohono

37.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i feddiannydd sy'n dod â thail da byw i'r daliad gofnodi, o fewn un wythnos—

- (a) math a maint y tail da byw,
- (b) y dyddiad y daethpwyd â'r tail da byw i'r daliad,
- (c) maint y nitrogen sydd ynddo, a
- (d) os yw'n hysbys, enw a chyfeiriad y cyflenwr.

(2) Rhaid i feddiannydd sy'n anfon tail da byw o ddaliad gofnodi o fewn un wythnos—

- (a) math a maint y tail da byw,
- (b) y dyddiad y'i hanfonwyd o'r daliad,
- (c) maint y nitrogen sydd ynddo,
- (d) enw a chyfeiriad y derbynnydd, ac
- (e) manylion cynllun wrth gefn sydd i'w ddefnyddio pe bai cytundeb i berson dderbyn y tail da byw yn methu.

(3) Os nad yw maint y nitrogen sydd yn y tail da byw a ddygir i'r daliad yn hysbys, rhaid i'r meddiannydd ganfod y maint hwnnw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi i'r tail gyrraedd, a'i gofnodi o fewn un wythnos o'i ganfod.

(4) Rhaid canfod maint cyfan y nitrogen sydd yn y tail da byw drwy ddefnyddio naill ai'r ffigurau safonol yn Rhan 1 o Atodlen 3 neu drwy samplu a dadansoddi yn y modd a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen honno.

Samplu a dadansoddi

38. Rhaid i unrhyw berson sy'n defnyddio samplu a dadansoddi i ganfod maint y nitrogen mewn tail organig gadw'r adroddiad gwreiddiol gan y labordy.

Cofnodion o'r cnydau a heuwyd

39. Rhaid i feddiannydd sy'n bwriadu taenu gwrtaith nitrogen gofnodi, o fewn wythnos i hau cnwd—

- (a) y cnwd a heuir, a
- (b) dyddiad ei hau.

Cofnodion o daenu gwrtaith nitrogen

40.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), o fewn un wythnos i daenu tail organig rhaid i'r meddiannydd gofnodi—

- (a) y rhan y taenwyd y tail organig arni;
- (b) faint o dail organig a daenwyd;
- (c) y dyddiad neu'r dyddiadau;
- (d) y dulliau o'i daenu;
- (e) y math o dail organig;
- (f) cyfanswm y nitrogen sydd ynddo;
- (g) maint y nitrogen oedd ar gael i'r cnwd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), o fewn un wythnos i daenu gwrrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd rhaid i'r meddiannydd gofnodi—

- (a) dyddiad ei daenu, a
- (b) maint y nitrogen a daenwyd.

(3) Nid yw paragraffau (1) a (2) yn gymwys i feddiannydd daliad mewn unrhyw flwyddyn galendr pan fo 80 % o arwynebedd amaethyddol y daliad wedi ei hau â phorfa, ac—

- (a) nad yw cyfanswm y nitrogen mewn tail organig a ddodir ar y daliad, boed yn uniongyrchol gan anifeiliaid neu o ganlyniad i daenu, yn fwy na 100 kg yr hecтар,
- (b) nad yw cyfanswm y nitrogen mewn gwrrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd a ddodir ar y daliad yn fwy na 90 kg yr hecтар, ac
- (c) nad yw'r meddiannydd yn dod ag unrhyw dail organig i'r daliad.

Cofnodion dilynol

41.—(1) Rhaid i feddiannydd sydd wedi defnyddio gwrrtaith nitrogen gofnodi'r cynnyrch a gafwyd o gnwd â'r o fewn wythnos i ganfod y cynnyrch hwnnw.

(2) Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn rhaid i feddiannydd gofnodi sut y cafodd unrhyw laswelltir ei reoli yn y flwyddyn galendr flaenorol.

Cadw cyngor

42. Rhaid i feddiannydd gadw copi o unrhyw gyngor gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cyngorwyr am Wrteithiau, ac y dibynnwyd arno at unrhyw ddiben o dan y Rheoliadau hyn, am bum mlynedd.

Dal gafael ar gofnodion

43. Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo wneud cofnod o dan y Rheoliadau hyn gadw'r cofnod hwnnw am bum mlynedd.

RHAN 8

Monitro ac adolygu

Monitro ac adolygu

44.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu rhaglen fonitro i asesu effeithiolrwydd y mesurau a osodir gan y Rheoliadau hyn fel modd i leihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol.

(2) O leiaf bob pedair blynedd, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd y mesurau a osodir gan y Rheoliadau hyn fel modd i leihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol ac, os yw'n angenrheidiol, eu diwygio.

(3) Wrth gynnal adolygiad o dan baragraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru ystyried—

- (a) y data gwyddonol a thechnegol sydd ar gael, gan gyfeirio'n benodol at y priod gyfraniadau nitrogen sy'n dod o ffynonellau amaethyddol a ffynonellau eraill, a
- (b) amodau amgylcheddol rhanbarthol.

Mesurau amgen

45.—(1) Os ceir cynigion ar gyfer cyfres amgen o fesurau i sicrhau'r canlyniadau yn rheoliad 44(1) o fewn 18 mis i ddyfodiad i rym y Rheoliadau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a fyddai'r mesurau hynny'n sicrhau'r canlyniadau yn fwy effeithiol na'r mesurau a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y byddai cynigion a gyflwynwyd o dan baragraff (1) yn fwy effeithiol i sicrhau'r canlyniadau yn rheoliad 44(1), rhaid iddynt gyhoeddi datganiad o fewn dwy flynedd i ddyfodiad i rym y Rheoliadau hyn, gan esbonio pa gamau a gymerir.

RHAN 9

Gorfodi

Troseddau a chosbau

46.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae unrhyw berson sy'n torri unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn yn euog o drosedd ac yn agored o'i euogfarnu'n ddiannod, neu o'i euogfarnu ar ddiad, i ddirwy.

(2) Mae person sy'n torri rheoliad 32 yn euog o drosedd a bydd yn agored o'i euogfarnu'n ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), pan fo corff corfforedig yn euog o drosedd o dan y Rheoliadau hyn,

ac os profir bod y drosedd honno wedi ei chyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson arall tebyg yn y corff corfforedig, neu
- (b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth o'r fath,

bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforedig, yn euog o'r drosedd a bydd yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(4) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i unrhyw doriadau o dan reoliadau 24(1), 24(4), 25(1), 30(5) neu 32.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "cyfarwyddwr", mewn perthynas â chorff corfforedig y rheolir ei faterion gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforedig.

Gorfodi

47. Gorfodir y Rheoliadau hyn gan CANC.

RHAN 10

Amrywiol

Dirymu

48.—(1) Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010⁽¹⁾ wedi eu dirymu fel a ganlyn—

- (a) mewn perthynas â daliad neu ran o ddaliad a oedd wedi ei leoli neu wedi ei lleoli mewn parth perygl nitradau fel a ddangosir ar y map perthnasol o'r enw "Parthau Perygl Nitradau Map Mynegai 2013"⁽²⁾, ar 1 Ebrill 2021;
- (b) mewn perthynas â phob daliad arall—
 - (i) rheoliadau 3 a 9 ar 1 Ebrill 2021;
 - (ii) pob darpariaeth sy'n weddill ar 1 Awst 2024.

(2) Mae'r canlynol wedi eu dirymu—

- (a) Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013;

⁽¹⁾ O.S. 2010/1493 (Cy. 136).

⁽²⁾ O dan reoliad 7(3) o Reoliadau Atal Llygredd Nitradau (O.S. 2013/2506) (Cy. 245) yr oedd yn ofynnol i fap o'r fath gael ei adneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

- (b) Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2015(1);
- (c) Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2019(2).

Diwygiadau canlyniadol

49.—(1) Yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016(3), yn Atodlen 2, ym mharagraff 17(2)(b), yn lle “the Nitrate Pollution Prevention (Wales) Regulations 2013” rhodder “the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021”.

(2) Yn Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017(4), yn Rhan 2 o Atodlen 2—

- (a) yn lle paragraff 21 rhodder—

“**21.** The Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021.”;

- (b) yn lle paragraff 24 rhodder—

“**24.** The Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021.”

(3) Yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Cymru a Lloegr) 2017(5), yn rheoliad 104, hepgorer paragraff (1)(b) a'r “neu” o'i flaen.

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru

21 Ionawr 2021

(1) O.S. 2015/2020 (Cy. 308).
(2) O.S. 2019/863 (Cy. 155).
(3) O.S. 2016/1154.
(4) O.S. 2017/407.
(5) O.S. 2017/1012.

ATODLEN 1

Rheoliadau 3, 4, 29, 34 a 36

Meintiau o dail, nitrogen a ffosffad a gynhyrchir gan dda byw sy'n pori a da byw nad ydynt yn pori

Tabl 1

Da byw sy'n pori

<i>Categori</i>	<i>Tail a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (litrau)</i>	<i>Nitrogen a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (gramau)</i>	<i>Ffosffad a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (gramau)</i>
Gwartheg			
Lloi (pob categori ac eithrio lloi cig llo) hyd at 3 mis:	7	23	12.7
Buchod godro—			
O 3 mis ymlaen ac o dan 13 mis:			
O 3 mis ymlaen ac o dan 13 mis:	20	95	34
O 13 mis ymlaen tan y llo cyntaf:			
Ar ôl y llo cyntaf â'r—			
cynnyrch llaeth blynyddol yn fwy na 9000 litr:			
cynnyrch llaeth blynyddol rhwng 6000 a 9000 litr:	53	276	121
cynnyrch llaeth blynyddol yn llai na 6000 litr:			
Buchod neu fustych eidion ^(a) —	42	211	93

O 3 mis ymlaen ac o dan 13 mis:	20	91	33
O 13 mis ymlaen ac o dan 25 mis:	26	137	43
O 25 mis ymlaen— gwartheg benyw neu fustych i'w cigyddda: gwartheg benyw ar gyfer bridio— sy'n pwyso 500 kg neu lai:	31	137	60
sy'n pwyso mwy na 500 kg:	32	167	65
Teirw nad ydynt ar gyfer bridio, ac sy'n 3 mis a throsodd:	45	227	86
Bridio— o 3 mis ymlaen ac o dan 25 mis:	26	148	24
o 25 mis ymlaen:	26	132	60
Defaid			
O 6 mis ymlaen hyd at 9 mis oed:	1.8	5.5	0.76
O 9 mis hyd at wyna am y tro cyntaf, hwrdda am y tro cyntaf, neu gigydda: Ar ôl wyna neu hwrdda ^(b)	1.8	3.9	2.1
— yn pwyso llai na 60	3.3	21	8.8

kg: yn pwyso o 60 kg i fyny:	5	3	10.0
Geifr, ceirw a cheffylau			
Geifr:	3.5	41	18.8
Ceirw—			
bridio:	5	42	17.6
eraill:	3.5	33	11.7
Ceffylau:	24	58	56

^(a) Anifail gwryw wedi ei ysbaddu.

^(b) Yn achos mamog, mae'r ffigur hwn yn cynnwys un neu ragor o'i hŵyn sugno tan fod yr ŵyn yn chwe mis oed.

Tabl 2

Da byw nad ydynt yn pori

<i>Categori</i>	<i>Tail a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (litrau)</i>	<i>Nitrogen a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (gramau)</i>	<i>Ffosffad a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (gramau)</i>
Gwartheg			
Lloi cig llo:	7	23	12.7
Dofednod^(a)			
Ieir a ddefnyddir i gynhyrchu wyau ar gyfer eu bwyta gan bobl—			
o dan 17 wythnos:	0.04	0.64	0.47
o 17 wythnos ymlaen (mewn caets):	0.12	1.13	1.0
o 17 wythnos ymlaen (nid mewn caets):	0.12	1.5	1.1
Ieir a fegir ar gyfer cig:	0.06	1.06	0.72
Ieir a fegir ar gyfer bridio—			

o dan 25 wythnos:	0.04	0.86	0.78
o 25 wythnos ymlaen:	0.12	2.02	1.5
Tyrcwn— gwryw:	0.16	3.74	3.1
benyw:	0.12	2.83	2.3
Hwyaid:	0.10	2.48	2.4
Estrysiaid:	1.6	3.83	18.5
Moch			
Yn pwyso o 7 kg i fyny ac yn llai na 13 kg:	1.3	4.1	1.3
Yn pwyso o 13 kg i fyny ac yn llai na 31 kg:	2	14.2	6.0
Yn pwyso o 31 kg i fyny ac yn llai na 66 kg— porthir â bwyd sych:	3.7	24	12.1
porthir â hylifau:	7.1	24	12.1
Yn pwyso o 66 kg i fyny ac— A fwriedir i'w cigydda— porthir â bwyd sych:	5.1	33	17.9
porthir â hylifau:	10	33	17.9
hychod a fwriedir ar gyfer bridio ond nad ydynt eto wedi cael eu torllwyth cyntaf:	5.6	38	20
hychod (gan gynnwys eu torllwythi yn pwyso hyd at 7 kg	10.9	44	37

pob porchell) a borthwyd ar ddeiet gydag ychwanegi- adau o asidau amino synthetig: hychod	10.9	49	37
(gan gynnwys eu torllwythi yn pwyso hyd at 7 kg pob porchell) a borthwyd ar ddeiet heb ychwanegi- adau o asidau amino synthetig: baeddod	5.1	33	17.9
bridio o 66 kg hyd at 150 kg: baeddod	8.7	48	28
bridio o 150 kg			

^(a) Sylwer: mae pob ffigur ar gyfer dofednod yn cynnwys sarn.

ATODLEN 2 Rheoliad 5

Rhywogaethau o ffrwythau

<i>Enw Botanegol</i>	<i>Enw Cyffredin</i>
Cydonia oblonga	Cwins
Malus domestica	Afalau
Mespilus germanica	Afalau tindwll
Morus spp.	Mwyar Mair
Prunus armenaica	Bricyll
Prunus avium	Ceirios melys
Prunus cerasus	Ceirios duon (coginio)
Prunus ceracifera	Eirin myrobalan
Prunus domestica	Eirin
Prunus domestica subsp. insititia	Eirin hirion
Prunus persica	Eirin gwlanog
Prunus persica var. nectarina	Nectarinau
Prunus x gondouinii	Ceirios y Dug
Prunus spinosa	Eirin duon bach
Pyrus communis	Gellyg
Pyrus pyrifolia	Gellyg Asia

ATODLEN 3

Rheoliadau 9, 36 a 37

Cyfrifo'r nitrogen sydd mewn tail organig

RHAN 1

Y Tabl Safonol

Cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw

<i>Tail ac eithrio slyri</i>	<i>Cyfanswm y nitrogen ym mhob tunnell (kg)</i>
Tail ac eithrio slyri o'r anifeiliaid a ganlyn—	
gwartheg:	6
moch:	7
defaid:	7
hwyaid:	6.5
ceffylau:	7
geifr:	6
Tail o ieir dodwy:	19
Tail o dyrwyn neu ieir brwylio:	10

<i>Slyri</i>	<i>Cyfanswm y nitrogen ym mhob metr ciwbig (kg)</i>
gwartheg:	2.6
moch:	3.6
Slyri gwartheg a wahanwyd (ffracsiwn hylifol)—	
blwch hidlo:	1.5
wal hidlo:	2
hidl fecanyddol:	3
Slyri gwartheg a wahanwyd (ffracsiwn solet):	4
Slyri moch a wahanwyd (ffracsiwn hylifol):	3.6
Slyri moch a wahanwyd (ffracsiwn solet):	5
Dŵr budr:	0.5

RHAN 2

Samplu a dadansoddi tail organig

Slyri a thail organig hylifol a lled-hylifol arall

1.—(1) O ran slyri a thail organig hylifol a lled-hylifol arall, rhaid cymryd o leiaf bum sampl, pob un ohonynt yn 2 litr.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid cymryd y pum sampl allan o lestr, ac—

(a) os yw'n rhesymol ymarferol, rhaid cymysgu'r slyri'n drwyadl cyn cymryd y samplau, a

(b) rhaid cymryd pob sampl o le gwahanol.

(3) Os defnyddir tancer sydd â falf addas arno ar gyfer taenu, caniateir i'r samplau gael eu cymryd wrth daenu, a rhaid cymryd pob sampl fesul ysbaid yn ystod y taenu.

(4) Pa un a gymerwyd y samplau fel y disgrifir yn is-baragraff (2) neu (3), rhaid arllwys y pum sampl i mewn i gynhwysydd mwy, eu troi'n drwyadl, a rhaid cymryd sampl 2 litr allan o'r cynhwysydd hwnnw ac arllwys y sampl honno i gynhwysydd glân, llai o faint.

(5) Yna, rhaid anfon y sampl 2 litr a baratowyd yn unol ag is-baragraff (4) i'w dadansoddi.

Tail solet

2.—(1) O ran tail solet, rhaid cymryd y samplau allan o domen dail.

(2) Rhaid cymryd o leiaf ddeg sampl 1 kg yr un, a phob un ohonynt o fan gwahanol mewn tomen.

(3) Rhaid cymryd pob un o'r is-samplau 0.5 metr, o leiaf, o wyneb y domen.

(4) Os cesglir y samplau i gyfrifo i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r terfyn fferm gyfan ar gyfer moch a dofednod, rhaid cymryd pedair sampl i'w dadansoddi mewn blwyddyn galendr (gan gymryd un ym mhob chwarter) o domenni tail nad ydynt yn hŷn na 12 mis oed.

(5) Rhaid gosod yr is-samplau ar hambwrdd neu ddalen sy'n lân a sych.

(6) Rhaid i unrhyw dalpiau gael eu torri'n ddarnau mân, a rhaid cymysgu'r is-samplau yn drwyadl gyda'i gilydd.

(7) Yna, rhaid i sampl gynrychiadol, sy'n pwysu 2 kg o leiaf, gael ei hanfon i'w dadansoddi.

ATODLEN 4

Rheoliadau 20 a 22

Y cnydau a ganiateir am y cyfnod
gwaharddedig

<i>Y cnyd</i>	<i>Y gyfradd uchaf o nitrogen (kg/hectar)</i>
Rêp had olew, gaeaf ^(a)	30
Merllys	50
Bresych ^(b)	100
Porfa ^{(a)(c)}	80
Sgaliwns wedi eu gaeafu	40
Perllys	40
Bylbiau winwns	40

^(a) Ni chaniateir taenu nitrogen ar gnydau ar ôl 31 Hydref.

^(b) Caniateir taenu 50 kg ychwanegol o nitrogen yr hectar bob pedair wythnos yn ystod y cyfnod gwaharddedig hyd at ddiwedd y cynhaeaf.

^(c) Caniateir taenu uchafswm o 40 kg o nitrogen yr hectar ar unrhyw un adeg.

ATODLEN 5 Rheoliad 24

Y gofynion ar gyfer seilos

1. Y gofyniad sydd i'w fodloni mewn perthynas â seilo yw ei fod yn cydymffurfio â'r darpariaethau a ganlyn yn yr Atodlen hon.

2. Rhaid i sylfaen y seilo—

- (a) ymestyn y tu hwnt i unrhyw furiau sydd i'r seilo,
- (b) cael o'i hamgylch sianelau sydd wedi eu dylunio a'u hadeiladu fel eu bod yn casglu unrhyw elifiant silwair sy'n dianc o'r seilo, ac
- (c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer draenio'r elifiant hwnnw o'r sianelau hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

3. Ni chaiff tanc elifiant dal llai nag—

- (a) yn achos seilo sy'n dal llai na 1,500 o fetrau ciwbig, 20 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal, a
- (b) yn achos seilo sy'n dal 1,500 o fetrau ciwbig neu fwy, 30 o fetrau ciwbig ac yn ychwanegol 6.7 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal uwchlaw 1,500 o fetrau ciwbig.

4.—(1) Rhaid i sylfaen y seilo—

- (a) bod wedi ei dylunio yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dylunio strwythurau concrit i gadw hylifau dyfrllyd a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 8007: 1987(1), neu
- (b) bod wedi ei hadeiladu gan ddefnyddio asffalt wedi ei rolïo'n boeth yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dewis a defnyddio deunyddiau adeiladu a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 21: 1990(2).

(2) Rhaid i sylfaen y seilo, sylfaen a muriau ei danc elifiant a sianelau a muriau unrhyw bibellau fod yn anhydraidd.

5. Rhaid i sylfaen a muriau'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau a muriau unrhyw bibellau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, allu gwrthsefyll ymosodiad gan elifiant silwair.

6. Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r seilo, ei danc elifiant na'i sianelau nac unrhyw bibellau o fewn 10

(1) Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref 1987. ISBN 0-580-16134-X.

(2) Dyddiad cyhoeddi: 31 Rhagfyr 1990. ISBN 0-580-18348-3.

metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair fynd i mewn iddynt pe bai'n dianc.

7. Os oes gan y seilo furiau cynnal—

- (a) rhaid i'r muriau cynnal allu gwrthsefyll lleiafswm o lwythi mur sydd wedi eu cyfrifo ar y rhagdybiaethau ac yn y dull a ddangosir gan baragraff 15.6 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 22: 2003(1),
- (b) ni chaniateir i'r seilo bod wedi ei lwytho ar unrhyw adeg i ddyfnder sydd uwchlaw'r dyfnder eithaf sy'n gyson â'r rhagdybiaeth ddyluniol a wnaed o ran llwythi y muriau cynnal, ac
- (c) rhaid arddangos hysbysiadau ar y muriau cynnal yn unol â pharagraff 18 o'r cod ymarfer hwnnw.

8. Yn ddarostyngedig i baragraff 9, rhaid i'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau ac unrhyw bibellau fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu fel y'u bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 5 ac, os yw'n gymwys, paragraff 7(a) am o leiaf 20 mlynedd.

9. Os oes unrhyw ran o danc elifiant islaw wyneb y tir, rhaid i'r tanc fod wedi ei ddylunio a'i adeiladu fel ei fod yn debygol o barhau i fodloni gofynion paragraffau 4 a 5 am o leiaf 20 mlynedd heb waith cynnal a chadw.

(1) Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2003. ISBN 0-580-38654-6.

ATODLEN 6 Rheoliad 25

Y gofynion ar gyfer systemau storio slyri

1. Mae'r gofynion sydd i'w bodloni mewn perthynas â system storio slyri fel a ganlyn.

2. Rhaid i sylfaen y tanc storio slyri, sylfaen a muriau unrhyw danc elifiant, sianelau a phydew derbyn, a muriau unrhyw bibellau fod yn anhydraidd.

3. Rhaid i sylfaen a muriau'r tanc storio slyri, unrhyw danc elifiant, sianelau a phydew derbyn, a muriau unrhyw bibellau fod wedi eu diogelu rhag cyrydiad yn unol â pharagraff 7 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 50: 1993(1).

4. Rhaid i sylfaen a muriau'r tanc storio slyri ac unrhyw bydew derbyn allu gwrthsefyll llwythi nodweddiadol sydd wedi eu cyfrifo ar y rhagdybiaethau ac yn y dull a ddangosir gan baragraff 5 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 50: 1993.

5.—(1) Rhaid bod gan unrhyw gyfleusterau a ddefnyddir i storio slyri dros dro cyn iddo gael ei drosglwyddo i danc storio slyri ddigon o le i storio—

- (a) yr uchafswm o slyri (gan ddiystyru unrhyw slyri a fydd yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i danc storio slyri) sy'n debygol o gael ei gynhyrchu yn y fangre mewn unrhyw gyfnod o ddau ddiwrnod, neu
- (b) swm llai y mae CANC wedi cytuno'n ysgrifenedig ei fod yn ddigonol i osgoi unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd a reolir.

(2) Pan fo slyri yn llifo i mewn i sianel cyn cael ei ollwng i bydew derbyn a bod llif y slyri allan o'r sianel yn cael ei reoli gan lifddor, rhaid i'r hyn y gall y pydew derbyn ei ddal fod yn ddigonol i ddal yr uchafswm o slyri y gellir ei ollwng drwy agor y lifddor.

6. Yn achos tanciau storio slyri sydd â muriau wedi eu gwneud o bridd, rhaid i'r tanc fod ag o leiaf 750 mm o fwrdd rhydd, a 300 mm o fwrdd rhydd ym mhob achos arall.

7. Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r tanc storio slyri, nac unrhyw danc elifiant na sianelau na phydew

(1) Dyddiad cyhoeddi: 15 Ebrill 1993. ISBN 0-580-22053-2.

derbyn o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai slyri fynd i mewn iddynt pe bai'n dianc oni chymerir rhagofalon y mae CANC wedi cytuno'n ysgrifenedig eu bod yn ddigonol i osgoi unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd a reolir.

8. Rhaid i'r tanc storio slyri ac unrhyw danc elifiant, sianelau, pibellau a phydwed derbyn fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu fel y'u bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 4 am o leiaf 20 mlynedd.

9. Os nad yw muriau'r tanc storio slyri yn anhydraidd, rhaid i sylfaen y tanc—

- (a) ymestyn y tu hwnt i'r muriau;
- (b) cael o'i hamgylch sianelau sydd wedi eu dylunio a'u hadeiladu fel eu bod yn casglu unrhyw slyri sy'n dianc o'r tanc;
- (c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer draenio'r slyri o'r sianelau hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

10.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), os oes pibell ddraenio wedi ei gosod yn y tanc storio slyri neu yn unrhyw danc elifiant neu bydwed derbyn, rhaid bod dwy falf mewn cyfres ar y bibell a bod pellter o 1 metr o leiaf rhwng un falf a'r llall.

(2) Rhaid i bob falf allu cau llif y slyri drwy'r bibell a rhaid eu cadw wedi eu cau ac wedi eu cloi yn y safle hwnnw pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â thanc storio slyri sy'n draenio drwy'r bibell i danc storio slyri arall os yw'r tanc arall yn dal yr un faint neu fwy neu os yw topiau'r tanciau ar yr un lefel â'i gilydd.

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan adran yr Economi, Sgiliau, ac Adnoddau Naturiol ac fe'i rhoddir gerbron Senedd Cymru ynghyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Lesley Griffiths AS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni, a Materion Gwledig

27 Ionawr 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau yn sefydlu mesurau i ddiogelu'r amgylchedd rhag llygredd a achosir gan weithgareddau amaethyddol.

Mae'r Rheoliadau yn gosod terfynau ar faint y nitrogen o wrtheithiau y caniateir eu rhoi ar dir; gofyniad i ymgymryd â chynllunio rheoli maethynnau; rheolaethau ar ble, pryd, a sut y caiff maethynnau eu defnyddio; a sicrhau bod tail yn cael ei storio'n briodol fel bod modd ei ddefnyddio'n effeithlon. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaethau adolygu perthnasol, gan gynnwys adolygiad o gynigion (os cyflwynir rhai ohonynt o fewn 18 mis i'r Rheoliadau ddod i rym) ar gyfres o fesurau gwahanol i'r rhai a geir yn y Rheoliadau hyn, a fydd yn atal neu leihau llygredd a achosir gan amaethyddiaeth.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Dim

3. Cefndir Deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan adrannau 92 a 219(2) (d) i (f) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud darpariaeth yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 91/676/EEC sy'n ymwneud â diogelu dyfroedd rhag llygredd gan nitradau o ffynonellau amaethyddol (OJ Rhif L 375, 31.12.91, p.1) ac agweddau ar Gyfarwyddeb 2000/60/EC sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu Cymunedol ym maes polisi dŵr (OJ Rhif L 327, 22.12.2000, t.1).

Mae Adrannau 92 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 yn galluogi i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer atal a rheoli unrhyw ddeunyddiau gwenwynig, niweidiol, neu lygredig gyda'r bwriad o atal neu reoli gallu'r deunydd i gyrraedd unrhyw ddyfroedd a reolir.

Trosglwyddwyd rhai o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 92 ac adran 219 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. O ran adran 92, trosglwyddwyd swyddogaethau mewn perthynas â'r rhannau hynny o Gymru sydd y tu allan i ddalgylchoedd afonydd Dyfrdwy, Gwy, a Hafren. O ran y rhannau hynny o Gymru sydd o fewn y dalgylchoedd hynny, mae swyddogaethau o dan adran 92 yn ymarferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyddredol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau o dan adrannau 92 a 219 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol ag adran 219 (1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gweithgareddau amaethyddol yw un o brif achosion llygredd dŵr ac allyriadau amonia sy'n niweidio iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd, bioamrywiaeth, a'r economi. Er bod llawer o ffermydd Cymru yn gweithredu i safonau uchel, gan gydymffurfio â'r waelodlin reoleiddiol ac yn dilyn canllawiau arfer da, mae llawer nad sydd yn gwneud. Mae'r Rheoliadau'n targedu gweithgareddau amaethyddol sy'n peri risg o lygredd, a hynny er mwyn lleihau lefel y llygredd amgylcheddol a achosir gan arferion gwael.

Bydd y Rheoliadau'n diogelu dŵr (ac ansawdd yr aer) rhag arferion amaethyddol gwael drwy leihau'r llygredd a gollir o faethynnau ledled Cymru gyfan. Ar hyn o bryd, cyfyng yw'r rheoliadau ar gyfer diogelu'r amgylchedd rhag llygredd amaethyddol. Yn absenoldeb gwaelodlin rheoleiddio well, bydd effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, ar gydnerthedd ecosystemau - sy'n angenrheidiol i wella a diogelu bioamrywiaeth - ac ar iechyd y cyhoedd yn parhau i ddigwydd. Gall diwydiant amaethyddol Cymru gael ei niweidio hefyd os na chyflwynir y rheoliadau, yn enwedig os yw masnach yn ddibynnol ar gydymffurfio neu ar reoleiddiad cyfatebol. Bydd y rheoliadau'n ateb y gofynion presennol o dan y Gyfarwyddeb Nitradau a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr er mwyn lleihau'r risg hon.

Bydd y Rheoliadau'n galluogi defnydd mwy effeithlon o faethynnau, a'n galluogi'r diwydiant amaethyddol i arddangos safonau cynhyrchu gwell. Bydd y Rheoliadau hefyd yn gwarchod y ffermydd hynny sy'n cyrraedd safonau da neu uchel rhag niwed i enw da'r diwydiant o ganlyniad i arferion gwael gan eraill.

Disgwylir i'r mesurau yn y Rheoliadau atal oddeutu 2,038 o dunelli o lygryddion rhag cael eu gollwng i'r amgylchedd bob blwyddyn, budd amgylcheddol sy'n cyfateb i £304m.. Mae hyn yn cynnwys nitradau, ffosfforws, amonia, ac ocsid nitraidd. Priodolir yr effaith fwyaf ar golledion nitradau i gynyddu capasiti storfeydd slyri, y golled ffosfforws ac ocsid nitraidd i beidio â gwasgaru ar adegau risg uchel, a'r golled amonia o integreiddio gwasgariadau gwrtaith a thail. Oherwydd yr ystod eang o gostau amgylcheddol posibl sy'n gysylltiedig â'r llygryddion hyn, ni ellir bod yn sicr y bydd y manteision yn cydbwysu'r costau. Er mai bychan fydd effaith y mesurau ar y ffermydd sydd eisoes yn cydymffurfio â'r rheoliadau presennol ac sy'n dilyn canllawiau arfer da, y busnesau hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'r mesurau rheoleiddio presennol ac nad ydynt ddilyn argymhellion arfer da fydd â'r costau mwyaf. Yn hyn o beth, mae'r Rheoliadau wedi'u halinio i'r egwyddor o sicrhau mai'r llygrwr sy'n talu.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn asesiad o effaith ar gyfer newid polisi posibl a fyddai'n gweithredu mesurau sy'n mynd i'r afael â llygredd amaethyddol ar draws Cymru gyfan.

Mae adnoddau naturiol Cymru ymhlith ein hasedau mwyaf gwerthfawr. Maent yn darparu gwasanaethau hanfodol gan gynnwys bwyd, dŵr a thir. Mae'r rhain yr un mor sylfaenol i lwyddiant hirdymor ein heconomi ag y maent i ansawdd ein hamgylchedd naturiol a lles ein cymunedau. Mae'r adnoddau hyn dan bwysau oherwydd heriau, gan gynnwys llygredd amaethyddol.

Mae cyfran sylweddol o fewnbwn maethynnau Cymru i'r amgylchedd yn tarddu o lygredd gwasgareddig, ffynonellau llygredd bach unigol sydd ar y cyd yn achosi effaith sylweddol. Gweithgareddau amaethyddol yw un o brif achosion llygredd dŵr ac allyriadau amonia sy'n niweidiol i iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd, bioamrywiaeth a'r economi.

Mae digwyddiadau llygredd â tharddle penodol aciwt hefyd yn effeithio ar ansawdd dŵr a gallant achosi colledion sylweddol mewn bioamrywiaeth mewn rhannau helaeth o'r ecosystem ddyfrol. Gall gymryd blynyddoedd lawer i adferiad llawn gael ei gyflawni yn dilyn digwyddiadau ar raddfa fawr, os o gwbl.

Er mai prif fwriad y cynnig yw lleihau llygredd dŵr o amaethyddiaeth, ni ddylai'r dull fod yn niweidiol i nodau polisi'au eraill, megis llai o allyriadau atmosfferig. Mae'r mesurau arfaethedig wedi'u cynllunio i osgoi cyfnewid llygredd, i atal neu leihau colledion cynyddol o faethynnau i'r amgylchedd, gan gynnwys nwyon tŷ gwydr, ffosfforws ac amonia o ganlyniad i fesurau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar leihau colledion nitrogen.

Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried yr opsiynau polisi allweddol canlynol, gyda'r mesurau o dan bob opsiwn wedi'u rhestru yn Nhabl 1-1:

- **Opsiwn 1** – Gwneud dim -2.4% o Gymru yn parhau i fod wedi'i ddynodi'n Barthau Perygl Nitradau (PPN).

Ni fyddai unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol, Mae'r opsiwn hwn yn darparu'r llinell sylfaen ar gyfer asesu costau a buddion yr opsiynau canlynol.

- **Opsiwn 2** – Cymhwyso'r Mesurau i Gymru gyfan gyda chymal adolygu i ystyried cyflwyno ymreolaeth wedi'i hennill.
- **Opsiwn 3** - Dynodi ardaloedd ychwanegol fel PPN (8% o Gymru).
- **Opsiwn 4** - Cyflwyno rheoliadau ledled Cymru gyfan - 8% PPN, gwahanol fesurau mewn mannau eraill; gyda chymal adolygu ar gyfer ymreolaeth wedi'i hennill.

Tabl 1-1 Mesurau a chymhwysedd gofodol o dan y gwahanol opsiynau polisi

	Opsiw 2	Opsiw 3	Opsiw 4	
	Cymru Gyfan	Ardal PPN Arfaethe dig	Ardal PPN Arfaethe dig	Gweddill Cymru
Defnyddio system argymell gwrtaith	✓	✓	✓	✓
Integreiddio cyflenwad maethynnau gwrtaith a thail	✓	✓	✓	✓
Peidio â gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel	✓	✓	✓	
Osgoi gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel	✓	✓	✓	
Cynyddu capasiti storffeydd slyri fferm er mwyn gwella amseriad y gwasgariadau slyri (<i>gofyniad storio gwerth 5 mis</i>)	✓	✓	✓	
Cynyddu capasiti storffeydd slyri fferm er mwyn gwella amseriad y gwasgariadau slyri (<i>gofyniad storio gwerth 4 mis</i>)				✓
Peidio â gwasgaru tail ar ardaloedd risg uchel	✓	✓	✓	✓
Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel	✓	✓	✓	✓
Peidio â gwasgaru tail buarth ar gaeau ar adegau risg uchel	✓	✓	✓	✓

Ar gyfer pob un o'r opsiynau hyn, tybiwyd y byddai cydymffurfio â'r mesurau yn cynyddu o'r arfer presennol (a allai fod yn cydymffurfio â'r rheoliad presennol ac a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn) i gydymffurfio'n llawn â'r mesurau newydd.

Ystyriwyd hefyd effeithiau ychwanegu'r mesurau canlynol at opsiwn 4:

- Peidio â gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel
- Osgoi gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel (ni chaiff neb daenu gwrtaith nitrogen os yw'r pridd yn ddwrlawn, wedi llifo, wedi'i orchuddio ag eira, wedi'i rewi neu wedi'i rewi am fwy na 12 awr yn ystod y 24 awr flaenorol, a rhaid ystyried y tywydd – nid oes cyfnod gwahardd yn berthnasol).

Fodd bynnag, roedd y diffiniad o 'adegau risg uchel' ar gyfer defnyddio gwrtaith yn yr adroddiad hwn (gweler Adran 2.2.4) yn negyddu'r angen i fodlu'r mesurau hyn, gan fod opsiwn 4 gyda'r mesurau a gynhwyswyd yr un fath i bob pwrpas ag opsiwn 2.

Mae costau ac effeithiau amgylcheddol gweithredu'r mesur 'amseroedd risg uchel' ar gyfer defnyddio gwrtaith a weithgynhyrchwyd yn ansicr iawn gan y byddant yn

dibynnu'n bennaf ar gyflwr y pridd a'r tywydd ddechrau'r gwanwyn (h.y. Chwefror a Mawrth). Os caiff gwartaith ei ohirio tan ar ôl diwedd mis Mawrth, mae mwy o risg yr effeithir ar gynnyrch cynydu o ganlyniad i gyflenwad maetholion cynydu is-optimadd. Er mwyn asesu'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â gweithredu'r mesur 'amseroedd risg uchel', ystyriwyd dau opsiwn, ar gyfer pob senario lle'r oedd opsiwn 'a' yn osgoi defnyddio gwartaith rhwng mis Hydref a mis Mawrth ac opsiwn 'b' yn osgoi defnyddio gwartaith rhwng mis Hydref a mis Chwefror.

Mae'r opsiynau a ystyriwyd yn adlewyrchu gofynion Cyfarwyddbau Ewropeaidd, gan gynnwys y Gyfarwydddeb Nitradau a'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, yn ogystal â chyfraith yr UE a gadewir a'r ymatebion i ymgynghoriadau perthnasol a gyhoeddwyd. Yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Ardaloedd Dynodedig a'r Rhaglen Weithredu i fynd i'r afael â Llygredd Nitradau yng Nghymru oedd elfennau allweddol y broses o ddatblygu polisi. Cafodd ymatebion i ymgynghoriadau cysylltiedig eraill eu hystyried hefyd, gan gynnwys storio silwair a slyri a'r rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol.

Gellir gweld yr ymgynghoriadau y cyfeirir atynt drwy ddefnyddio'r dolenni canlynol:<https://llyw.cymru/parthau-perygl-nitradau-yng-nghymru>

<https://llyw.cymru/adolygu-rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-llygredd-silwair-slyri-ac-olew-tanwydd-amaethyddol-cymru>

<https://llyw.cymru/bwrw-ymlaen-rheoli-adnoddau-naturiol-cymru-yn-gynaliadwy>

Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid trwy gyfrwng is-grŵp Llygredd amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, yn ogystal â gyda rhanddeiliaid unigol. Mae hyn yn cynnwys unigolion a effeithir arnynt, ac ymgynghoriad mewnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau aliniad polisi.

Mae cofnodion y cyfarfodydd gydag is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn ogystal ag adroddiad cynnydd ar waith yr is-grŵp i'w cael trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/guidance-and-advice/business-sectors/farming/wales-land-management-forum-sub-group-on-agricultural-pollution/?lang=cy>

Bydd y rheoliadau a ddaw yn sgil hyn yn cael eu hadolygu bob pedair blynedd, gan ddibynnu ar ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd dros y misoedd a'r blyneddodod i ddod. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, fel rhan o'r broses adolygu.

1. Methodoleg a Rhagdybiaethau

1.1 Methodoleg

Defnyddiwyd dull modelu er mwyn amcangyfrif yr effeithiau posibl y gallai'r senarios polisi gwahanol eu cael ar lwythi llygryddion yn ogystal â chostau fferm. Roedd dwy brif ran i'r gwaith modelu:

- a) Defnyddio'r offeryn Farmscoper (Gooday et al., 2014) i ragfynegi effeithiau'r mesurau arfaethedig ar golledion llygrwyr yn ogystal ag ar gostau fferm fel sy'n berthnasol i bob opsiwn polisi.
- b) Defnyddio'r offeryn MANNER-NPK (Nicholson et al., 2013) i fodelu effeithiau osgoi amseroedd risg uchel ar gyfer tail N uchel sydd ar gael (slyri gwartheg, slyri moch, gwasarn brwyliaid a gwasarn ieir dodwy) yn unol â'r mesurau arfaethedig.

Ymgwymerwyd â thair cydran ychwanegol o waith i roi cyfrif llawn am gostau mesurau a moneteiddio'r gostyngiadau llygryddion amcangyfrifedig:

- a) Amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â chynyddu capasiti storio slyri
- b) Amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â chadw cofnodion a chynllunio'n ymwneud â thail a maethynnau
- c) Adolygu'r costau difrod sy'n gysylltiedig â'r gwahanol lygryddion

Rhodddwyd cyfrif am yr ystod o gostau gweithredu a difrod posibl gyda dadansoddiad sensitifrwydd. Cynhyrchwyd amcangyfrifon cost uchel, canolig ac isel ar gyfer rhai o'r mesurau allweddol (naill ai'r rheini â chostau sylweddol neu fwy o ansicrwydd yn y costau). Fe wnaeth yr adolygiad o gostau difrod hefyd gynhyrchu amcangyfrif canolog a ffiniau uchaf ac isaf ar gyfer pob llygrydd. Felly ystyriodd y dadansoddiad sensitifrwydd ganlyniadau defnyddio'r costau gweithredu uchel, canolig neu isel, a'r costau difrod amgylcheddol uchel, canolig ac isel.

Y llygryddion a ystyriwyd oedd nitrad, ffosforws, amonia ac ocsid nitraidd. Mae'r asesiad yn ystyried rheoli tail da byw yn unig ac nid deunyddiau organig eraill (e.e. biosolidau, gweddillion treulio a chompost).¹ Nid yw'r asesiad yn ystyried effeithiau'r mesurau ar ffermio organig yn benodol gan mai cyfran fach iawn o'r tir amaethyddol yng Nghymru yw hyn.

1.1.1 Farmscoper

Offeryn cefnogi penderfyniadau yw'r model Farmscoper, a gaiff ei ddefnyddio i asesu llwythi llygryddion amaethyddol gwasgaredig ar fferm, a meintioli effeithiau opsiynau

¹ Amcangyfrifir bod y llwyth nitrogen o ddeunyddiau organig eraill (e.e. biosolidau, gweddillion treulio a chompost) yn llai na 3% o gyfanswm mewnbynnau nitrogen (BSFP, 2018).

lliniaru llygredd fferm ar y colledion hynny. Fe'i datblygwyd gan ADAS gyda chyllid Defra ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac fe'i defnyddiwyd yn fewnol yn y sefydliadau hynny ac mewn nifer o brosiectau allanol sy'n edrych ar effeithiau rheoleiddio a chynlluniau amaeth-amgylchedd (ee Gooday et al., 2015; Collins a Zhang, 2016; Gooday a Whitworth 2017; Collins et al., 2018; Elliott et al., 2019).

Mae'r offeryn yn caniatáu ar gyfer creu systemau ffermio unigryw, yn seiliedig ar gyfuniadau gwahanol o ran rheolaeth da byw, cnydau, a thail, ynghyd ag asesiadau cost ac effaith un neu fwy o ddulliau lliniaru o lyfrgell o dros 100 o ddulliau sydd wedi'u cynnwys gyda'r offer, llawer ohonynt yn seiliedig ar y Canllaw Defnyddiwr Dull Lliniaru (*Mitigation Method User Guide*, Newell-Price et al., 2011). Gellir defnyddio'r offeryn i efelychu colledion o sawl system ffermio, i ganiatáu rhagfynegiadau ar raddfa dalgylch neu ar raddfa fwy. Cyflwynir disgrifiad manylach o'r model yn Atodiad 1.

Cafodd offeryn Farmscoper ei baramedru gan ddefnyddio data Arolwg Amaethyddol mis Mehefin o 2018 ar gyfer Cymru. Defnyddiwyd yr Arolwg i bennu cyfartaledd cnydau a da byw ar gyfer ffermydd o feintiau ac o fathau gwahanol. Y mathau o ffermydd a ystyriwyd oedd y 9 math fferm cadarn (RFT), gyda'r math o fferm Gwartheg a Defaid ALIFf wedi'i isrannu ymhellach yn Ddefaid Arbenigol, Eidion Arbenigol a Chymysg; roedd maint y ffermydd a ystyriwyd yn seiliedig ar y gofyniad safonol am lafur. Gwnaed ffermydd ar wahân ar gyfer tir y tu mewn a'r tu allan i'r ardal PPN arfaethedig. Dangosir cyfanswm nifer y ffermydd yng Nghymru, yn ôl math a maint, yn Nhabl 2-1. Cymerwyd gwybodaeth reoli ychwanegol ar gyfer y ffermydd hyn o arolygon haenedig cenedlaethol gan gynnwys Arolygon Ymarfer Fferm Cymru (yr un cyntaf, a'r ail un) (Anthony et al., 2011; Anthony et al., 2016), Arolygon Ymarfer Fferm Defra (*Defra Farm Practice Surveys*) ac Arolwg Arferion Gwrtaith Prydain (*British Survey of Fertiliser Practice*).

Tabl 2-1: Nifer y ffermydd yng Nghymru yn ôl math o fferm a maint fferm (yn seiliedig ar y gofyniad safonol am lafur)

	Hamdden	Bach	Canolig	Mawr	Cyfanswm
Ûd	304	62	25	29	420
Cnydau Cyffredinol	76	19	9	23	127
Garddwriaeth	769	27	9	25	830
Moch Arbenigol	220	2	2	1	225
Dofednod Arbenigol	981	32	28	52	1,093
Llaeth	188	205	307	914	1,614
ALIFf – Defaid Arbenigol	2,162	863	535	1,126	4,686
ALIFf – Eidion Arbenigol	816	138	24	31	1,009
ALIFf – Da Byw Cymysg	3,803	1,066	627	860	6,356
Gwartheg a Defaid yr Iseldir	1,750	403	156	191	2,500
Da Byw Cymysg	892	110	48	119	1,169
Arall	4,285	336	94	63	4,778
Cymysg	16,246	3,263	1,864	3,434	24,807

Cyfrifwyd colledion llygryddion ar gyfer pob un o'r gwahanol ffermydd hyn o dan bob un o'r parthau pridd a hinsawdd a gydnabuwyd gan Farmscoper, a mynegwyd y canlyniadau fel colledion fesul hectar. Yna mapiwyd y colledion hyn yn ôl i barseli tir y System Adnabod Parseli Tir (LPIS) (lle'r oedd pob parcel o dir wedi'i aseinio i fath fferm, maint, hinsawdd a math o bridd a naill ai y tu mewn neu'r tu allan i'r ardal PPN arfaethedig).

Roedd set ddata LPIS yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer 610,000 parcel o dir, yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd o 1.69m hectar. Ar gyfer 545,000 o'r parseli hyn, darparwyd ID fferm ar gyfer 23,470 o wahanol ffermydd. O'r ffermydd hyn, gallai 14,663 gael eu cysylltu'n uniongyrchol â ffermydd Arolwg Amaethyddol mis Mehefin (a oedd yn cyfrif am 1.20m hectar). Roedd 5,898 o ffermydd eraill (62,759 o gaeau; 0.18m hectar) yn gysylltiedig â ffermydd yr Arolwg trwy baru ardal LPIS fferm ag ardal yr Arolwg ar gyfer pob fferm heb ei chyfateb, gyda chyfatebiadau wedi'u cyfyngu gan yr Ardal Fach (dynodiad gofodol) wedi'i ddyrannu i bob fferm yr Arolwg a'r Dwyreiniad a'r Gogleddiad a ddarperir. Nid oedd cyfrif am gyfanswm o 4,246 o ffermydd yr Arolwg (allan o 24,807), a dosbarthwyd y rhain fel naill ai ffermydd 'eraill' neu ffermydd hamdden (a oedd yn cyfrif am dros 85% o'r ffermydd yr Arolwg heb eu paru) sydd â defnydd maethynnau isel ac

y chydig iawn o dda byw. Wrth greu'r ffermydd 'cyfartalog' a ddefnyddir wrth fodelu Farmscoper, graddiwyd y niferoedd da byw i sicrhau bod cyfanswm y da byw ledled Cymru (ac o fewn yr ardal PPN arfaethedig) sy'n weddill yn agos at gyfansymiau Arolwg Amaethyddol mis Mehefin wrth eu dosbarthu ar draws parseli'r System Adnabod Parseli Tir. Er bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cywirdeb mapio data'r fferm, cynlluniwyd y fethodoleg i gadw niferoedd da byw Arolwg Amaethyddol mis Mehefin ac ardaloedd tir y System Adnabod Parseli Tir. Gan fod canlyniadau'r adroddiad hwn yn cael eu crynhoi ar raddfa genedlaethol (neu PPN arfaethedig), mae'r ansicrwydd gofodol yn cael effaith gyfyngedig ar yr allbynnau cyffredinol wedi'u modelu.

Mae newidiadau mewn colledion llygryddion a ragfynegir gan Farmscoper oherwydd gweithredu mesur yn dibynnu ar (i) effeithiolrwydd y mesurau o ran lleihau llygredd a (ii) y nifer sy'n manteisio ar y mesurau ar hyn o bryd (ac yn y dyfodol). Mae paramedru'r gwerthoedd hyn yn seiliedig ar y system sgorio a ddangosir yn Nhabl 2-2, gyda gwerth canolog wedi'i ddewis sy'n cynrychioli'r ystod y mae disgwyl i'r effaith neu'n gweithredu fod oddi mewn iddi,² - disgrifir y gwerthoedd a ddewisir i baramedru'r gwahanol fesurau lliniaru yn yr is-adrannau canlynol. Mae Farmscoper yn defnyddio system cydlynu dosrannu fesul ffynhonnell, felly gellir targedu effaith mesur lliniaru at un (neu fwy) o'r cyfesurynnau - er enghraifft gall lleiniau clustogi leihau colledion 50% mewn dŵr ffo, ond ni chânt unrhyw effaith ar golledion mewn llif draeniau nac ar ddŵr daear.

Tabl 2-2 Ystodau hyder a gwerthoedd canolog a ddefnyddiwyd gan Farmscoper i amcangyfrif y broses bresennol o weithredu mesurau a photensial effaith

Categori	Gweithredu neu Effaith (%)	Ystod Ansicrwydd	Disgrifiad
A	-	-	Dim
B	2	0 to 10	Isel lawn
C	10	2 to 25	Isel
D	25	10 to 50	Cymedrol
E	50	25 to 80	Uchel
F	80	50 to 95	Uchel lawn
G	100	100	Cyfanswm

1.1.2 MANNER-NPK

Mae'r model MANNER-NPK (mae'r manylion i'w cael yn Atodiad 2) yn offeryn i gefnogi penderfyniadau a gynlluniwyd i ddangos effaith amseriadau a dulliau taenu gwahanol ar golledion nitradau, amonia, ac ocsid nitraidd (Nicholson et al., 2013). Defnyddiwyd MANNER-NPK i fodelu'r cyflwyniad o gyfnod gwahardd taenu tail sydd â chyfradd uchel o Nitrogren sydd ar gael yn rhwydd (slyri gwartheg, slyri moch, gwasarn brwyliaid, a

² Gallai hyn adlewyrchu, er enghraifft yr ansicrwydd yn data'r arolwg neu ei gymhwysedd, neu'r amrywiad yn y dystiolaeth i gael effaith. Mae defnyddio system sgorio yn caniatáu cymhariaeth hawdd rhwng y gwahanol lygryddion a dulliau lliniaru lluosog o fewn Farmscoper.

gwasarn ieir dodwy) ar draws Cymru gyfan neu PPN perthnasol. Mae offeryn i gefnogi penderfyniadau MANNER-NPK yn cael ei gydnabod fel offeryn safonol y diwydiant ar gyfer amcangyfrif cyflenwad maethynnau sydd ar gael i gnydau, trwytholchiad nitradau a cholledion anweddu amonia ar ôl taenu tail. Fe'i defnyddiwyd i ddeillio'r tablau 'amedrych' yng Nghanllaw Rheoli Maethynnau yr AHDB (AHDB, 2020) sy'n manylu ar gyflenwad Nitrogen sydd ar gael i gnydau o amseriadau a dulliau taenu tail cyferbyniol.

Dewiswyd is-set o 8 dull lliniaru i'w cynnwys yn Farmscoper, rhai a ystyrir yn debygol o gael eu derbyn gan ffermwyr yn seiliedig ar asesiad arbenigol o ofynion y mesurau arfaethedig. Amlinellir y mesurau a fodelwyd yn Nhabl 2-1 ac fel arfer maent yn gofyn am arferion gwrtaitaith a thail gwell. Ceir disgrifiadau trylwyr o'r wyth mesur a ddewiswyd yn Atodiad 3. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r effeithiau mwyaf (o ran costau a manteision) yn deillio o gynyddu'r storffeydd slyri er mwyn gwella amseriad wasgaru slyri.

1.2 Disgrifiad o'r mesurau

1.2.1 Defnyddio system argymell gwrtaitaith

Disgrifiad


Defnyddiwch system argymell gwrtaitaith gydnabyddedig (e.e. RB209, PLANET a chanllawiau atodol eraill) i gynllunio gwasgariad gwrtaitaith a weithgynhyrchwyd ar bob cnwd; peidiwch â mynd yn uwch na'r cyfraddau a argymhellir. Amserwch wasgaru gwrtaitaith i leihau'r risg o golli maethynnau (ee osgowch ddefnyddio Nitrogen yn yr hydref a rheolwch wasgaru cynnar y gwanwyn ar briddoedd wedi'u draenio). Defnyddiwch gynghorydd cymwysedig FACTS (Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr Gwrtaitaith) proffesiynol.

Mae systemau argymell gwrtaitaith yn ystyried y ffactorau canlynol: cyflenwad maethynnau pridd (yn seiliedig ar ddadansoddiad pridd), glawiad gaeaf, cnydau blaenorol a math o bridd, gofynion maethynnau cnwd ar gyfer pridd a hinsawdd benodol, gofyniad cnwd ar gyfer maethynnau ar wahanol gamau twf, faint o faethynnau a gyflenwir i'r cnwd gan dail organig ychwanegol a chan wasgariadau tail blaenorol, pH y pridd a'r angen am galch. Mae system argymell gwrtaitaith dda yn sicrhau bod y meintiau angenrheidiol o faethynnau ar gael pan fydd eu hangen ar gyfer y cnwd. Dim ond pan nad yw'r cyflenwad o faethynnau o'r holl ffynonellau eraill yn ddigonol i fodloni gofynion cnydau y rhoddir maethynnau. O ganlyniad, mae maint y maethynnau gormodol yn y pridd yn cael ei leihau i'r lleiafswm. Dylai defnyddio system argymell hefyd sicrhau bod y pridd mewn cyflwr digon ffrwythlon i wneud y defnydd gorau o faethynnau sydd eisoes yn y pridd, neu ei gyflenwi o ffynonellau eraill fel gwrteithwyr / tail organig. Mae cynnal cydbwysedd priodol rhwng gwahanol faethynnau (h.y. NPK) hefyd yn bwysig er mwyn manteisio i'r eithaf ar bob maethyn a lleihau colledion amgylcheddol cymaint â phosibl.

(i) Nitrogen


Mae'r rhan fwyaf o briddoedd amaethyddol yn gofyn am wasgaru nitrogen o wrtaitaith a / neu ddeunyddiau organig yn flynyddol i sicrhau'r twf cnwd gorau posibl. Mae'r rhan fwyaf o'r nitrogen mwynol yn y pridd yn bresennol fel nitrad, sy'n symudol yn y pridd. Mae cnydau'n annhebygol o gymryd unrhyw nitrad sy'n bresennol yn y pridd ar ddechrau'r

gaeaf wrth i dwf arafu oherwydd tymeredd oer a llai o ddwystr golau. Pan fydd gormod o law yn y gaeaf, a dŵr yn draenio trwy'r pridd, mae'r nitrad mewn perygl o gael ei golli o'r pridd trwy drwytholchi.




Ffigur 2-1: Effaith gwasgaru nitrogen gwrtaitth a weithgynhyrchir ar gynnyrch gwenith gaeaf a cholledion trwytholchi nitrad (Lord a Mitchell, 1998)

Bydd gwasgaru nitrogen ar gnydau â'r sy'n cyflenwi llai na'r optimwm economaidd yn arwain at gynnyrch ac ansawdd cnwd is-optimaaidd tra bydd gwasgaru sy'n fwy na'r gofyniad cnwd yn cynyddu'r risg o drwytholchi nitradau (Ffigur 2 2; Lord a Mitchell, 1998; Ffigur 2-2 Johnson et al., 2011).



Ffigur 2-2: Effaith defnyddio gwartaith nitrogen ar grynodiadau nitradau dŵr draenio a cholledion dail nitradau (Johnson et al., 2011)

Mae allyriadau ocsid nitraidd yn digwydd o briddoedd o ganlyniad i'r prosesau cyfryngu microbaidd o nitreiddiad a dadnitreiddiad. Ymhlith y ffactorau sy'n effeithio ar allyriadau ocsid nitraidd mae cynnwys lleithder y pridd, tymheredd a chynnwys nitrogen mwynol. Yn gyffredinol, mae allyriadau ocsid nitraidd yn gysylltiedig â mewnbynnau nitrogen o dail a gwrteithwyr ag allyriadau uchel lle mae'r cyflenwad nitrogen yn fwy na'r hyn sydd ei angen ar y cnwd (Ffigur 2-3; Cardenas et al., 2010).




Ffigur 2-3: Effaith cyfradd gwasgaru nitrogen gwartaith a weithgynhyrchir ar allyriadau ocsid nitraidd mewn 3 safle glaswelltir cyferbyniol (Cardenas et al., 2010).

(ii) Ffosfforws

Mae cyfran fawr o ffosfforws (P) mewn priddoedd wedi'u rhwymo mewn ffurfiau nad ydynt ar gael yn rhwydd i'r planhigyn neu sydd mewn perygl o drwytholchi i ddŵr (h.y. P sefydlog neu weddilliol), oherwydd yr affinedd cryf sydd gan rai sylweddau pridd (clai, haearn -Fe / alwminiwm-Al / calsiwm-Ca) i P (Holford, 1997). O ganlyniad, mae rheoli cyflenwad ffosfforws sydd ar gael i gnydau yn seiliedig ar gynnal nifer digonol yn y pridd ar gyfer anghenion cylchdroi cnydau yn hytrach na chnydau unigol.

Mae Canllaw Rheoli Maethynnau yr AHDB (RB209) yn defnyddio system mynegai P pridd (yn seiliedig ar lefelau P Olsen y gellir ei dynnu mewn uwchbridd) i ddarparu arweiniad ar gyflenwad P o wrteithwyr a weithgynhyrchir a deunyddiau organig. Ar gyfer glaswelltir a'r rhan fwyaf o gnydau â'r, mynegai P targed y pridd yw 2 (16-25 mg/l Olsen P). Ar gyfer priddoedd islaw'r mynegai targed argymhellir cymhwyso P ar gyfraddau sy'n fwy na'r cnwd er mwyn sicrhau'r cnwd gorau posibl ac i adeiladu cronfeydd pridd wrth

gefn. Lle mae priddoedd ar y mynegai targed, dylai cyfraddau gwrtaithe gyfateb i faint o gnydau sy'n cael eu cymryd i gynnal ffrwythlondeb y pridd ar y lefelau gorau posibl a lle mae lefelau P y pridd yn uwch na'r mynegai targed, ni argymhellir gwasgaru gwrtaithe P gan eu bod yn cynrychioli cost ddiangen ac yn cynyddu'r risg o golledion P i ddŵr (Ffigur 2 4; Poulton et al., 2013, Heckrath et al., 1995 Withers et al., 2017).




Ffigur 2-4: Effaith lefelau P Olsen y gellir eu tynnu ar gynnyrch cnydau a cholledion P hydawdd i ddŵr (Poulton et al., 2013, Heckrath et al., 1995). Graff wedi'i gymryd o Withers et al., (2017).


Bydd y graddau y mae pridd yn dirlawn â P yn dylanwadu ar y risg o golledion P i ddŵr. Mae gallu dirlawnder y pridd yn dibynnu ar faint a ffurfiau Fe, Al a Ca sy'n bresennol yn y pridd ac mae P wedi'i rwymo'n gryfach yn y drefn Fe > Al > Ca (Withers, 2011). Adroddwyd bod risgiau colli P i ddŵr yn cynyddu'n fawr unwaith y bydd dirlawnder P yn uwch na throthwy o 20-30% (Heckrath et al., 1999, Kleinman et al., 2000; Nair et al., 2004). Mae trothwy dirlawnder P yn cyfateb yn fras i fynegeion P pridd Olsen o 3, 4 a 5 ar gyfer priddoedd tywod, lôm a chlai, yn y drefn honno. O ganlyniad, mae priddoedd sydd â mynegeion P uwchlaw'r lefelau hyn yn cynrychioli risg uwch o golledion P i ddŵr.

Ar lefel y fferm, bydd effaith cynlluniau argymell gwrtaithe ar gynyddu effeithlonrwydd defnyddio maethynnau a lleihau llygredd gwasgaredig yn amrywio yn dibynnu ar lefel gyfredol y defnydd o faethynnau. Mae data o Arolwg Arferion Gwrtaithe Prydain (2018) yn dangos bod 88% o dir â'r 52% o laswelltir yng Nghymru a Lloegr wedi cael ei wasgaru â nitrogen gwrtaithe wedi'i weithgynhyrchu yn 2017. Dim ond ar 44% o dir â'r 30% o laswelltir yng Nghymru a Lloegr y gwasgarwyd ffosffad gwrtaithe.


Mae data'r arolwg yn awgrymu bod y dull hwn yn debygol o gael effaith gyffredinol fach ar ddefnyddio gwrtaithe. Mae'r cyfraddau caeau cyfartalog ar gyfer nitrogen a adroddir yn BSFP yn debyg i'r rhai a argymhellir yn nodweddiadol yng Nghannllaw Rheoli Maethynnau yr AHDB (RB209) ar gyfer cnydau â'r ac mae'r cyfraddau gwasgaru ar laswelltir yn nodweddiadol is na'r rhai a argymhellir yn RB209 (Ffigur 2-5; Ffigur 2-6). Hefyd, mae data'n awgrymu bod gwasgaru gwrtaithe ffosffad a photash wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf (Ffigur 2 7) heb fawr o le i ostyngiadau pellach.



Ffigur 2-5: Cyfraddau gwrtaitn nitrogen cyfartalog wedi'u gwasgaru ar gnydau âr ledled Cymru a Lloegr (Wedi'i gymryd o Arolwg Arferion Gwrtaitn Prydain, 2018)



Ffigur 2-6: Cyfanswm y gwrtaitn nitrogen a ddefnyddiwyd ar draws tir âr a glaswelltir ym Mhrydain (Arolwg Arferion Gwrtaitn Prydain, 2019)



Ffigur 2-7: Cyfradd ffosffad a photash tir ar gyfartaledd ledled Cymru a Lloegr (Arolwg Arferion Gwrtaith Prydain, 2019)

Dywedodd Anthony et al (2012) fod y rhan fwyaf o ffermwyr yng Nghymru naill ai'n defnyddio eu gwybodaeth eu hunain (64%) neu wedi cymryd cyngor proffesiynol (35%) wrth amcangyfrif gofynion gwrtaith ac mai dim ond 4% a hawliodd i ddefnyddio RB209 neu unrhyw feddalwedd yn uniongyrchol eu hunain, gan ddatgelu lle i wella. Dywedodd Anthony et al (2016) fod 39-57% o ffermwyr a arolygwyd yng Nghymru yn defnyddio system argymhell gwrtaith.

Yn seiliedig ar wybodaeth arbenigol, ymatebion i ganlyniadau'r arolwg a modelu, penderfynwyd na fyddai defnyddio systemau argymhell gwrtaith yn arwain at unrhyw leihad mewn colledion ffosfforws a rhwng 5 – 10% o ostyngiad mewn colledion nitradau o systemau â'r a glaswelltir. Roedd y cyfrifiadau hyn yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- Ar gyfer ffosfforws wedi'i weithgynhyrchu dehonglwyd bod defnyddio system argymhellion gwrtaith yn sicrhau cydbwysedd o fewnbwn gwrtaith blynyddol ac alldynnu cynydu i gynnal mynegai ffosfforws pridd priodol.
- Ar gyfer nitrogen, tybiwyd y byddai defnyddio system argymhell yn galluogi gwelliant yng nghywirdeb ceisiadau yn hytrach na gostyngiad yn faint a ddefnyddiwyd. Yna defnyddiwyd modelau NITCAT a N-CYCLE (Lord, 1992; Scholefield et al., 1991) i gyfrifo effaith gostyngiad o 25% yn y gwall cyfartalog wrth amcangyfrif y nitrogen gorau posibl ar gyfer y cynydu ar bob un o'r mathau cynrychioliadol o ffermydd.

Ar ôl diystyru tail da byw, roedd balansau mewnbwn-alldynnu ffosfforws i gyd yn negyddol ac yn dangos na ellid lleihau'r defnydd o wrtaith yn absenoldeb tail. Felly, ni chafodd y dull lliniaru hwn unrhyw effaith uniongyrchol ar ddefnyddio gwrtaith ffosfforws a weithgynhyrchwyd.

Daw Anthony et al., (2012) i'r casgliad bod defnyddio a chymhwyso gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd yn fwy manwl yn debygol o leihau colledion nitradau o'r cyflenwad gwrtaith a nitrogen pridd cyfunol rhwng 5 a 10% ar gyfer tir â'r a glaswelltir.

Awgrymodd Price Newell *et al.*, (2011) fod gan y defnydd o systemau argymell gwrtaith y potensial i leihau colledion nitrogen a ffosfforws i ddŵr ac allyriadau amonia ac ocsid nitraidd i'r aer o tua 5%.

Mae Williams et al., (2017) yn awgrymu, lle defnyddir maethynnau gormodol, y gall gweithredu cynllun rheoli maethynnau leihau costau gwrtaith a pheryglon llygredd dŵr ac aer. Fodd bynnag, lle nad oes digon o faethynnau yn cael eu defnyddio, gall cynllun rheoli maethynnau arwain at fwy o ddefnydd o wrtaith a allai gynyddu colledion absoliwt i'r amgylchedd ond lleihau colledion fesul uned gynhyrchu. Nododd gwybodaeth o Arolwg Ymarferion Fferm Cymru (Anthony 2012) fod gan 43% o ffermwyr gynllun maethynnau pridd sy'n awgrymu bod lle i wella cywirdeb cyfraddau gwasgaru gwrtaith ar gyfer pob blwyddyn.

Cynrychiolaeth mewn Modelu

Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddisgrifir uchod, mae Farmscoper yn tybio y bydd colledion sy'n gysylltiedig â gwrtaith nitrogen yn gostwng 10%, tra bod y rhai â gwrtaith ffosffad yn gostwng 2%, sy'n adlewyrchu'r potensial is ar gyfer newidiadau yn y defnydd o wrtaith P.

Mae Farmscoper yn tybio bod gwelliannau mewn effeithlonrwydd defnyddio maethynnau sy'n dod o gyfateb cyflenwad maethynnau cnwd â gofynion y cnwd a statws maethynnau pridd, gan sicrhau'r amseroedd gwrtaith gorau posibl a chynnal pH pridd ar lefelau targed yn lleihau'r gwrtaith cyfartalog o 5% ar ffermydd â'r ac yn cynyddu cynhyrchiant cyfartalog glaswelltir o 10% o gymharu â llinell sylfaen, sy'n cyfateb i arbedion o tua £5 ha⁻¹ ac £11 ha⁻¹ yn y drefn honno.

Tybir bod y broses bresennol o weithredu'r mesur hwn yn Farmscoper yn 50% fel llinell sylfaen, gyda chyfraddau'n uwch y tu mewn i ardaloedd PPN ac yn is ar systemau pori helaeth. Mae hyn yn seiliedig ar Arolwg Ymarferion Fferm Defra (2012), a ganfu fod 16% a 48% o ffermwyr yn defnyddio'r system gynllunio bapur profedig neu feddalwedd PLANET, yn y drefn honno, ac ail Arolwg Ymarferion Ffermydd Cymru (Anthony et al., 2016) a ganfu fod 57% o ffermwyr llaeth yn defnyddio system argymhellion gwrtaith, ond dim ond 40% o ffermwyr gwartheg a defaid sy'n gwneud.

1.2.2 Integreiddio cyflenwad maethynnau gwrtaith a thail

Disgrifiad

Mae deunyddiau organig yn ffynonellau gwerthfawr o faethynnau planhigion ac os cânt eu defnyddio'n effeithiol gallant leihau'r angen i ddefnyddio gwrteithiau a weithgynhyrchwyd i ddiwallu anghenion cynydau optimwm (Tabl 0-1). Mae systemau argymhelliad gwrtaith (ee RB209, PLANET, MANNER-NPK a chanllawiau atodol eraill)

yn rhoi canllawiau ar sut i ystyried yn llawn y maethynnau a ddefnyddir mewn tail organig a lleihau mewnbynau gwrtaitaith a weithgynhyrchwyd yn unol â hynny. Gall dadansoddiad labordy o dail ddarparu gwell dealltwriaeth o gynnwys a chyflenwad maethynnau tail. Gellir defnyddio gwybodaeth MANNER-NPK am gyfraddau ymgeisio, amseriadau a dulliau i fesur y cyflenwad maethynnau sydd ar gael i gnydau a darparu amcangyfrifon o golledion nitrogen i ddŵr ac aer yn dilyn gwasgaru.

Gellir cynyddu gwerth amnewid gwrtaitaith nitrogen tail organig drwy wasgaru tail yn y gwanwyn i leihau colledion nitradau. Ar gyfer slyriau, gall defnyddio technegau gwasgau manwl leihau allyriadau amonia a sicrhau bod gwasgariadau'n cael eu taenu'n gyfartal ar draws lled daliadau hysbys. Er mwyn gwneud y mwyaf o werth nitrogen slyri a thail dofednod, fel arfer mae angen eu wasgaru yn y gwanwyn er mwyn lleihau colledion nitradau. Bydd defnyddio technegau taenu ag allyriadau isel fel pibell lusgo ar dir âr a pheiriant llusgo (*trailing shoe*) a chwistrelliad bas ar laswelltir yn lleihau colledion amonia ac yn cynyddu gwerth nitrogen slyri ymhellach.

Ar gyfer tail solet, mae'n debygol y bydd ceisiadau'n cyflenwi mwy o ffosffad a photash nag a ddefnyddir gan gnwd mewn un flwyddyn. O ganlyniad, gall gwasgaru tail ar yr un cae bob blwyddyn gynyddu cynnwys P pridd i lefelau lle mae mwy o berygl o golli P i ddŵr. Bydd targedu gwasgariadau tail ar gaeau lle mae statws P a K y pridd yn is na'r mynegeion targed yn sicrhau'r gwerthoedd cyfnewid gwrtaitaith tail mwyaf posibl.

Tabl 0-1: Maethynnau a gyflenwir gan wasgaru yn ystod y gwanwyn o wahanol ddeunyddiau organig (yn seiliedig ar ffigurau dadansoddi tail nodweddiadol yng Nghanlyniad Rheoli Maeth y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (RB209))

Math o dail	Cyfradd Gwasgaru (t/ha)	N ar gael i'r Cnwd (kg/ha)	Cyfan swm P ₂ O ₅ (kg/ha)	Cyfan swm K ₂ O (kg/ha)	SO ₃ ar gael i'r Cnwd (kg/ha)
Slyri Moch	35	63	63	84	12
Tail Buarth Moch	35	25	210	280	30
Slyri Gwartheg	40	36	48	128	10
Tail Buarth Gwartheg	40	24	128	320	14
Tail Dofednod	8	72	200	144	38
Biosolidau	20	33	360	12	24

Bydd effaith y mesur hwn ar leihau llygredd gwasgaredig yn dibynnu i ba raddau y mae ffermwyr eisoes yn cyfrif am faethynnau a gyflenwir gan ddeunyddiau organig wrth gynllunio eu defnydd o wrtaith a weithgynhyrchwyd. Mae Arolwg Arferion Gwrtaitaith Prydain (2019) yn awgrymu, lle mae ffermwyr wedi defnyddio deunyddiau organig, bod nitrogen gwrtaitaith a gwasgariadau ffosffad wedi gostwng tua 20 kg/ha N ac c.15 kg/ha P₂O₅, yn y drefn honno.

Bydd yr arbedion yn y defnydd o wrtaith nitrogen o ganlyniad i integreiddio tail mewn cynlluniau rheoli maethynnau yn arbediad blynyddol unwaith y bydd y dull wedi'i fabwysiadu. Fodd bynnag, bydd gwerth P a K y gwasgariadau tail yn dibynnu ar statws P a K y pridd. Pan fo priddoedd yn ddiffygiol yn P a K h.y. mynegai pridd 0 ac 1, yna dylid cyfrif am y ffracsiwn cnwd P a K o'r tail sydd ar gael. Pan fo priddoedd yn fynegai P a K 3, nid oes angen gwrtaith P a K ar gyfer glaswellt a chnydau â'r, ac o ganlyniad ni fydd gwerth i'r P a'r K a wasgerir gan y tail. Mae gwybodaeth gan PAAG yn awgrymu bod tua 30% o briddoedd yng Nghymru yn uwch na'r lefelau targed ac na fydd angen mewnbynnau P a K blynyddol o wrteithiau a weithgynhyrchwyd na deunyddiau organig i gefnogi'r twf gorau posibl mewn cnydau.

Er mwyn nodi'r budd cost uchaf ac isaf ar gyfer y mesur hwn, aseswyd dau senario (i) cyfrif am dail N yn unig a (ii) cyfrif am yr holl faethynnau tail ar gyfer pob opsiwn.

Cynrychiolaeth mewn Modelu

Mae Farmscoper yn tybio y gallai colledion gwrtaith gael eu lleihau hyd at 25%, yn dibynnu ar faint o dail a roddir mewn perthynas â faint o wrtaith a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Mae Farmscoper yn tybio bod arbediad yn cael ei wneud oherwydd llai o ddefnydd o wrtaith, yr amcangyfrifir ei fod yn £6 fesul tunnell o dail buarth a £3 fesul m³ o slyri a £28 fesul tunnell o dail dofednod. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar brisiau gwrtaith cyfredol ar gyfer nitrogen, ffosfforws a photash, effeithlonrwydd nitrogen tybiedig ac argaeledd maethynnau. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch gwerth amnewid gwrtaith y tail. Mae'n bosibl rhoi cyfrif am werth amnewid gwrtaith nitrogen y tail, oherwydd yn y mwyafrif helaeth o sefyllfaoedd agronomegol mae angen defnyddio nitrogen yn flynyddol ar gyfer y twf cnwd gorau posibl. I'r gwrthwyneb, bydd gwerth ffosffad a photash y gwasgariadau tail yn dibynnu ar gyflenwad y maethynnau hyn o'r pridd heb unrhyw ofyniad am fewnbynnau gwrtaith P a K wedi'u gweithgynhyrchu i gnydau â'r a glaswellt pan fo priddoedd ar fynegai pridd 3 neu'n uwch na hynny ac ar gyfer garddwriaeth, tatws a chnydau india-corn pan fo priddoedd ar fynegai 4 neu'n uwch. Mae cyfrif am y nitrogen mewn tail yn unig yn lleihau'r arbedion mewn slyri i £0.6 y m³ a thail dofednod i £4 y dunnell. Nid Rhagdybir y bydd gostyngiad yn nifer y gwasgariadau gwrtaith, a allai arwain at arbediad cost ychwanegol.

Canfu ail Arolwg Arferion Ffermio Cymru (Anthony et al., 2016) mai 19% ac 11% oedd canran y ffermwyr sy'n defnyddio cyngor proffesiynol neu brofi tail, a gwerthoedd safonol fel RB209 i asesu lefelau maeth tail gwasgaredig, yn y drefn honno. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ffermwyr (73%) yn asesu gwerth maethynnau gwasgariadau tail gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad eu hunain, ond nid oedd 20% o ffermydd yn asesu o gwbl. O'r rhain, mae 50% yn dibynnu'n llwyr ar eu gwybodaeth neu eu profiad eu hunain wrth asesu gwerth maethynnau tail gwasgaredig. Canfu Arolwg Arferion Ffermio Defra (2012) fod 57% o ffermydd yn asesu neu'n cyfrifo gwerth eu tail, a dim ond 24% a brofai'r cynnwys maethynnau drwy gymryd samplau. Ar sail hyn, tybir bod y broses bresennol o weithredu'r mesur hwn yn Farmscoper yn 50% fel llinell sylfaen, gyda chyfraddau'n uwch y tu mewn i ardaloedd PPN ac yn is ar systemau pori helaeth. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan Menter a Busnes (Cate Barrow, Pers |comm) yn awgrymu bod 3,000 o gynlluniau rheoli maethynnau wedi'u cwblhau drwy Cyswllt Ffermio ers 2016. Gallai hyn awgrymu bod y llinell sylfaen o 50% mewn Farmscoper yn amcangyfrif rhy isel o'r mesur hwn ar waith. Fodd bynnag, nid oes manylion am y math

o fferm, maint a defnydd maethynnau ar gyfer y ffermydd a gwybodaeth ynghylch a yw ffermwyr yn dilyn y cynlluniau ar gael.

1.2.3 Peidio â gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel

Disgrifiad

Peidio â gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau lle mae risg sylweddol y bydd gwrtaith yn mynd i mewn i ddŵr wyneb. Gallai hyn gynnwys tir ar ogwydd enu ardaloedd lle mae llwybrau llif uniongyrchol i gyrsiau dŵr. Er enghraifft, ardaloedd â rhwydwaith trwchus o ddraeniau agored, pantiau gwlyb (llaciau) sy'n draenio i gwrs dŵr cyfagos, neu ardaloedd sy'n agos at gwlferei/ffosydd ffyrdd. Mae'r risg o lygredd yn cael ei leihau drwy beidio â gwasgaru gwrtaith ar unrhyw adeg ar ardaloedd sydd wedi'u cysylltu'n hydrolegol lle gellid ei drosglwyddo'n hawdd i gwrs dŵr. Bydd peidio â gwasgaru gwrtaith ar gnydau yn lleihau'r cynnyrch yn sylweddol gan na fydd digon o gyflenwad maethynnau ar gael i gefnogi'r twf gorau posibl mewn cnydau.

Mae'r dystiolaeth ganlynol yn awgrymu bod 'ardaloedd risg uchel' yn meddiannu tua 5% o'r ardal amaethyddol:

- Cywasgu oherwydd peiriannau: Canfu Anthony et al (2012a) fod hyn wedi'i gofnodi ar 25% o ffermydd llaeth a 10% o ffermydd gwartheg a defaid. Amcangyfrifir mai 1-2% o gyfanswm yr arwynebedd yw'r ardal gywasgedig o fewn caeau o'r fath.
- Sathru gan dda byw: Adolygodd Gooday et al (2015) amrywiaeth o dystiolaeth a oedd yn awgrymu bod gan 3% o ardaloedd caeau ddifrod sathru gweladwy gan dda byw. Mae arsylwadau'n awgrymu y gall ardal o sathru o amgylch porthwr neu gafn da byw gwmpasu 20m o amgylch y porthwr, sy'n cyfateb i tua 2% o gae 5 hectar.
- Arolygodd Anthony et al (2012b) ardaloedd o briddoedd â draeniad teils a'r arwynebedd o dir yr effeithiwyd arno gan dystiolaeth o fethiant draenio. Roedd cyfran y tir yr effeithiwyd arno gan fod o dan ddŵr yn barhaus yn amrywio o 2% ar ffermydd â'r i 13% ar ffermydd gwartheg a defaid yr ucheldir. Fel cyfran o'r holl briddoedd (nid dim ond y rhai â draeniad teils), byddai'r ardal yr effeithir arni yn ganran lai.
- Nid oes unrhyw arolygon sy'n darparu gwybodaeth am faint o wrtaith sy'n cael ei roi ar dir ar oleddf serth. Yn yr astudiaeth hon, rhagdybir bod symiau bach iawn o wrtaith yn cael eu rhoi ar dir ar oleddf serth oherwydd yr ymarferoldeb dan sylw, ac felly ni roddwyd cyfrif am unrhyw effeithiau ychwanegol o osgoi'r ardaloedd hyn.

Cynrychiolaeth mewn Modelu

Mae Farmscoper yn tybio bod colledion sy'n gysylltiedig â gwrtaith ar yr 'ardaloedd risg uchel' yn cael eu negyddu'n llwyr.

Canfu ail Arolwg Arferion Ffermio Cymru (Anthony et al., 2016) fod gan linell sylfaen o 56% o ffermwyr llaeth gynllun rheoli maethynnau pridd, ond dim ond 25% o ffermydd gwartheg a defaid mewn Ardaloedd dan Anfantis Fawr. Roedd ffermydd Glastir, Tir Gofal neu Tir Cynnal yn fwy tebygol o fod â chynlluniau rheoli maethynnau pridd. Mae Farmscoper yn tybio bod llinell sylfaen o 50% o 'ardaloedd risg uchel' yn cael eu hosgoi, gyda gwerthoedd yn fwy y tu mewn i PPNau ac yn is ar ffermydd gwartheg a defaid.

Mae Farmscoper yn rhagdybio gostyngiad o 50% mewn cynnyrch ar gyfer cnydau â ac mae gostyngiad o 30% mewn cynnyrch glaswellt dros 5% o'r ardal amaethyddol o ganlyniad i weithredu'r mesur hwn, sy'n cyfateb i £210 ha⁻¹ a £600 ha⁻¹ gyfer ardaloedd risg uchel ar laswelltir a thir â yn y drefn honno. Byddai angen nodi meysydd risg uchel hefyd, fel arfer drwy greu cynllun rheoli maethynnau. Ymdrinnir â chostau hyn ar wahân (gweler Adran 1.3.1).


1.2.4 Osgoi gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel **Disgrifiad**

Peidio â gwasgaru gwrtaith wedi'i weithgynhyrchu ar adegau pan fo risg uchel o ddŵr ffo wyneb neu symud yn gyflym i ddraeniau caeau h.y. pan fo priddoedd yn 'wlyb'. Peidio â gwasgaru gwrtaith N rhwng mis Medi a mis Chwefror pan nad oes llawer o gnydau yn cael eu defnyddio, os o gwbl, ac mae risg uchel o golli nitradau (oni bai bod angen gwneud hynny ar gyfer cnwd penodol yn ystod y cyfnod hwn).

Mae amseru gwrtaith yn effeithio ar y posibilrwydd o faethynnau yn symud o'r tir i ddŵr. Mae osgoi taenu gwrtaith ar gaeau ar adegau risg uchel yn lleihau argaeledd N a P i'w golli mewn dŵr ffo wyneb neu lif draeniau. Mae dŵr ffo wyneb yn fwyaf tebygol o ddigwydd pan fydd glaw yn syrthio ar dir sy'n gogwyddo, pan fo priddoedd yn 'wlyb', wedi'u rhewi neu pan fydd eira wedi'u gorchuddio. Mae'r llif ffafriol cyflym N a P drwy bridd o wrteithiau cymhwysol yn fwyaf tebygol o ddigwydd o briddoedd (wedi'u draenio) pan fyddant yn 'wlyb' a phan fydd glawiad yn dilyn yn fuan ar ôl gwneud gwasgaru. Mae osgoi taenu gwrtaith N yn yr hydref/gaeaf yn lleihau faint o nitrogen sydd ar gael i'w drwytholchi gan law dros y gaeaf.

Bydd risgiau llygredd dŵr ar ôl defnyddio gwrteithiau a weithgynhyrchwyd yn amrywio yn ôl y math o bridd sy'n rheoli'r llwybr ar gyfer colli dŵr a maethynnau ac ar gynnwys lleithder y pridd. Mae nitradau'n symudol mewn priddoedd ac mae mewn perygl o gael ei drwytholchi o'r pridd pan fydd draenio'n digwydd. Mae ffosfforws yn fwy ansymudol mewn priddoedd ac mae'r risgiau o drwytholchi ffosfforws ar ei uchaf pan fydd priddoedd yn dirlawn â P neu pan fydd P yn cael ei drosglwyddo'n gyflym o'r pridd i ddŵr yn dilyn taenu gwrtaith P neu dail organig.


Ar briddoedd tywodlyd (sy'n meddiannu llai na 5% o Gymru; Ffigur 0-1), mae draeniad yn digwydd yn araf dros y gaeaf gan ddadleoli piston yn y cyfnod annirlawn, gyda ffryntiadau gwlyb yn symud i ddyfnder ar gyfraddau o ychydig o fetrau'r flwyddyn yn dibynnu ar faint y draenio a chyfaint mandyllau'r pridd a'r graig sylfaenol. O ganlyniad, mae'r risg uchaf o lygredd dŵr ar briddoedd tywod yn dilyn taeniadau gwrtaith nitrogen yng nghyfnod yr hydref/gaeaf pan fydd y nitrad a gyflenwir yn annhebygol o gael ei ddefnyddio gan dwf cnydau.



Ffigur 0-1: Dosbarthiad pridd RB209 Cymru

Ar briddoedd clai a phriddoedd lomaidd canolig, mae dŵr ffo yn debygol o ddigwydd mewn ymateb sydyn i achosion o law, oherwydd natur anhydraidd matrices y pridd (Goss *et al.*, 1987). Lle mae system draenio effeithiol yn bresennol, bydd llawer o'r dŵr a fyddai fel arall yn cael ei golli fel dŵr ffo, yn symud yn gyflym o arwyneb y pridd drwy facroporau sydd wedi datblygu'n naturiol neu sydd wedi'u creu drwy osod draeniau pibellau, draeniau tyrchod neu holltau aredig yr isbridd, gydag amseroedd tramwy yn cael eu dylanwadu gan gyfaint a dwyster y glawiad (Goss *et al.*, 1983). Ar y mathau hyn o bridd sy'n meddiannu'r rhan fwyaf o'r tir cynhyrchiol yng Nghymru (Ffigur 0-1) y risg uchaf o lygredd dŵr yn dilyn defnyddio gwrtaitth yn debygol o fod pan fydd gan briddoedd ddiffyg lleithder pridd o lai na 10mm – h.y. bydd draeniad yn digwydd pan fydd glawiad hydrolegol effeithiol (h.y. glawiad anwedd-drydarthu) yn fwy na 10mm.

Fel rhan o'r astudiaeth hon defnyddiwyd model cydbwysedd dŵr IRRIGUIDE (Bailey a Spackman, 1996) i fesur amseroedd risg uchel drwy amcangyfrif diffygion lleithder pridd dyddiol ar gyfer dau fath o bridd (lôm tywodlyd a lôm clai), dau fath o gnwd (glaswellt a gwenith gaeaf) ar gyfer 9 lleoliad a ddewiswyd i fod yn gynrychioliadol o barthau agroecemegol cyferbyniol ledled Cymru (h.y. Aberystwyth, Llangefni, Bangor, Wrecsam, Abergwaun, Hwlfordd, y Trallwng, Casnewydd Sir Benfro a Chasnewydd Gwent). Rhedwyd y model gan ddefnyddio data hinsawdd cyfartalog 30 mlynedd (1987-2018) ar gyfer pob safle. Mae'r model yn defnyddio gwybodaeth am gynnwys lleithder cyfeintiol, cysgod cynydau, dyfnder gwreiddio a data tywydd i amcangyfrif anwedd-drydarthiad a draeniad pridd.



Ffigur 0-2: Amcangyfrif o'r diffyg lleithder pridd misol yng Nghymru ar gyfartaledd (yn seiliedig ar ddata hinsawdd cyfartalog 30 mlynedd o 9 safle ledled Cymru)

Mae'r model yn dangos, ar gyfartaledd, fod priddoedd ledled Cymru yn agos at gapasiti caeau ddiwedd mis Chwefror (h.y. diffyg lleithder pridd yn agos at 0) gyda diffygion lleithder pridd o lai na 10 mm yn cael eu rhagweld ddiwedd mis Mawrth (Ffigur 0-2). Cafwyd rhywfaint o amrywiad blynyddol yn y diffyg lleithder pridd ddiwedd mis Mawrth. Mewn 6 blynedd allan o 30 (1990, 1997, 2002, 2003, 2012 a 2019) rhagwelwyd diffygion lleithder pridd sy'n fwy na 10 mm ddiwedd mis Mawrth. Roedd y blynyddoedd sychach hyn yn gwrthgyferbynnu â 6 blynedd (1992, 1994, 2006, 2009, 2010 a 2015) pan oeddd caeau hyd at eu terfyn o ddŵr neu lle'r oedd draenio'n digwydd ddiwedd mis Mawrth. Nid oedd llawer o wahaniaeth yn yr amcangyfrif o ddiffygion lleithder pridd rhwng mathau o bridd a chnydau sy'n adlewyrchu'r cyfraddau twf isel yn ystod misoedd y gaeaf ar gyfer glaswellt a chnydau â. Mae hyn yn awgrymu y gallai defnyddio gwrtaithe yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth gael ei ystyried yn 'risg uchel'.

Prin yw'r astudiaethau sydd wedi ymchwilio i effaith amseru defnyddio gwrtaithe yn ôl dyddiad ar gynnyrch cnydau. Yn gyffredinol, mae'r canllawiau'n darparu gwybodaeth i sicrhau bod digon o nitrogen yn cael ei ddefnyddio i gefnogi twf cnydau ar adegau tyngedfennol yn ystod y tymor tyfu. Ee Mewn grawnfwydydd, pan fydd y cnwd yn tyfu'n gyflym rhwng camau twf 30 a 39 (pan fydd y coesyn yn ymestyn a'r ddeilen derfynol yn ymddangos; Ffigur 0-3) sy'n digwydd fel arfer rhwng diwedd mis Mawrth i ganol mis Mai yn dibynnu ar y pridd a'r tywydd.

Growth stages



Ffigur 0-3: Camau twf ar gyfer gwenith y gaeaf (wedi'u cymryd o Ganllawiau Twf Gwenith AHDB (www.ahdb.org.uk/wheatgg))

Ar gyfer gwenith y gaeaf, mae Canllawiau Rheoli Maethynnau AHDB yn argymhell 'lle mae angen mwy na 120kg/ha N dylid defnyddio 40 kg/ha N rhwng canol mis Chwefror a dechrau mis Mawrth. Dylid sicrhau cydbwysedd y taenu mewn un neu ddau driniaeth yn ystod y cyfnod pan fo'r coesyn yn dechrau ymestyn. Os bydd mwy na 120 kg N/ha yn dal i gael ei ddefnyddio, dylid defnyddio hanner ar ddechrau ymestyniad y coesyn (nid cyn mis Ebrill) a hanner o leiaf bythefnos yn ddiweddarach (nid ar ôl dechrau mis Mai)'.

Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan Ganllawiau Twf Gwenith ADHB yn awgrymu ei bod yn annhebygol y bydd gohirio defnyddio gwrrtaith tan ddechrau mis Ebrill yn cael effaith sylweddol ar gynnyrch gwenith yn ystod y rhan fwyaf o flynyddoedd. Yn yr un modd, ar laswelltir mae pridd a thywydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar dyfiant glaswellt nag oedi wrth daenu gwrrtaith tan ddechrau mis Ebrill. Fodd bynnag, lle mae'r tywydd yn atal nitrogen rhag cael ei ddefnyddio ym mis Ebrill a mis Mai (ee cyfnod parhaus o dywydd sych ar ôl taenu) mae perygl y bydd cynnyrch grawnfwyd a glaswellt yn cael ei leihau.

Mae gohirio defnyddio gwrrtaith tan ddiwedd mis Mawrth yn debygol o effeithio'n sylweddol ar gnydau a sefydlwyd ddiwedd y gaeaf/ddechrau'r gwanwyn lle mae angen ychwanegu gwrrtaith i wely'r hadau. Er, enghraifft, byddai tatws cynnar, sydd fel arfer yn cael eu plannu yn ne-orllewin Cymru ddiwedd mis Ionawr neu ddechrau mis Chwefror, o dan anfantais yn arbennig pe bai'r mesur yn atal defnyddio gwrrtaith ym mis Chwefror. Mae'r cnwd fel arfer yn cael ei dyfu ar c. 500-1000 ha.

Cynrychiolaeth mewn Modelu

Er mwyn asesu ansicrwydd y mesur hwn ar gostau gweithredol a chynhyrchion buddion amgylcheddol, modelwyd dau fersiwn o'r mesur hwn ar gyfer pob opsiwn. Ar gyfer Opsiwn 'a' ni chaniatawyd defnyddio gwrrtaith rhwng Hydref a Mawrth, ac ni chaniatawyd swdnyddio gwrrtaith Opsiwn 'b' rhwng mis Hydref a mis Chwefror.

Mae arolygon yn awgrymu bod ychydig bach o wrtaith N a P yn cael ei ddefnyddio cyn mis Mawrth (tua 6% o gyfanswm y defnydd; BSFP, 2018), felly roedd effeithiau'r ffenestr gyfyngu hon (hyd ddiwedd mis Chwefror) ar golledion i ddŵr yn fach - a gostyngiad o 2% mewn colledion N a P i ddŵr ffo neu lif draen yn fuan ar ôl ei ddefnyddio (yn hytrach na cholledion gweddilliol ar ôl y cynhaeaf ar gyfer nitrogen, a fydd yn ddigyfnewid).

Gyda'r cyfyngiadau wedi'u hystyngiadau i fis Mawrth, tybiwyd gostyngiadau o 10% mewn colledion maetholion o ddefnyddio gwrtaithe yn ystod y cyfnod hwn.

Gan fod y modelu sy'n sail i Farmscoper yn seiliedig ar wybodaeth am amseru gwrtaithe sy'n deillio o'r Arolwg Arferion Gwrtaithe Prydain, mae'r gwaith o'i weithredu ar hyn o bryd wedi'i gynnwys yn y modelu ac felly mae gweithredu'r mesur lliniaru wedi'i osod i 0.

Gyda chyfyngiadau ar ddefnyddio gwrtaithe hyd ddiwedd mis Chwefror, tybiwyd nad oedd cynnyrch cnwd yn cael ei effeithio, felly nid oedd unrhyw gost yn gysylltiedig ag opsiwn b. Gyda chyfyngiadau hyd ddiwedd mis Mawrth (opsiwn a), mae Farmscoper yn rhagdybio gostyngiad o 10% ar gynnyrch cnwd mewn un flwyddyn mewn 10 i adlewyrchu lleihad mewn cynnyrch a allai ddigwydd o'r cyflenwad maetholion cnwd is-optimadd sydd ar gael yn gynnar yn y tymor tyfu.

1.2.5 Cynyddu capasiti storffeydd slyri fferm er mwyn gwella amseriad y gwasgariadau slyri

Disgrifiad

Ehangu cyfleusterau storffeydd slyri ar gyfer casglu a storffeydd slyri, er mwyn gallu gwasgaru ar adegau pan fo risg isel o ddŵr ffo a phan fydd cnwd sydd wrthi'n tyfu i ddefnyddio maethynnau a daenir yn y slyri. Mae'r storffa'n rhoi mwy o hyblygrwydd o ran amseru gwasgaru ar y tir, felly bydd llai o achlysuron pan fydd diffyg storffeydd yn gorfodi gwasgaru slyri i ddigwydd pan fydd risg uchel o drwytholchi nitradau, dŵr ffo wyneb neu lif draenau i ddŵr h.y. pan fydd priddoedd yn 'wlyb'.

Y gofyniad statudol presennol i ffermwyr y tu allan i Barthau Perygl Nitradau yw cydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 (SSOTA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i storffeydd 4 mis o gynhyrchu tail a lwfans ar gyfer y glawriad uchaf a ddisgwylir mewn 5 mlynedd (M5). Mae'r dull hwn yn rhagdybio y bydd cynyddu capasiti storffeydd slyri i 5 mis o gynhyrchu ynghyd â glawriad M5 yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd slyri'n cael ei ddefnyddio ar dir o dan amodau sy'n debygol o gynyddu'r risg o lygredd dŵr.

Cynrychiolaeth mewn Modelu

Mae Farmscoper yn tybio y bydd colledion amonia o storffeydd tail yn cynyddu 25% oherwydd bod y cynnydd yn nifer y tail sy'n cael ei storffeydd 25% (mae'n bosibl y bydd cynnydd pellach ymylol oherwydd arwynebedd cynyddol y storffa), ond bydd colledion amonia o daenu tail yn gostwng o ganlyniad.

Disgrifir effeithiau gwell amseru wrth daenu tail, a hwylusir gan fwy o le i storffeydd, yn Adran 1.2.7.

Cyfrifwyd costau gweithredu'r mesur hwn ar wahân (gweler Adran 1.3.2).

1.2.6 Peidio â gwasgaru tail ar ardaloedd risg uchel

Disgrifiad

Peidio â gwasgaru tail ar gaeau lle mae risg uchel o golled uniongyrchol i gyrsiau dŵr, ee sy'n uniongyrchol gyfagos i gwrs dŵr, twll turio neu geuffos ffordd, ar briddoedd bas dros graig hollt neu briddoedd wedi cracio'n eang dros ddraenau caeau, ar ardaloedd â rhwydwaith trwchus o ddraenau agored (wyneb), tarddlinau neu bantiau gwlyb

(llaciau). Mae risg uchel i'r ardaloedd hyn gludo llygryddion sy'n cael eu cario gan dail yn gyflym i gyrsiau ddŵr, felly dylid osgoi taenu tail (yn enwedig slyri) lle bynnag y bo modd.

Tybir bod 'osgoi ardaloedd risg uchel' ar gyfer gwasgaru tail yn effeithio ar yr un ardal ag ar gyfer defnyddio gwrtaith h.y. 5% o'r ardal amaethyddol. Fodd bynnag, tybir nad oes unrhyw effaith ar gynnyrch cynydau o ganlyniad i gyflwyno'r mesur hwn gan fod y tebygolrwydd mai tail oedd yr unig ffnhonnell o ychwanegu maethynnau i gefnogi twf cynydau yn yr ardaloedd hyn yn fach.

Cynrychiolaeth mewn Modelu

Mae Farmscoper yn tybio bod colledion achlysurol tymor byr sy'n gysylltiedig â thail ar yr 'ardaloedd risg uchel' yn lleihau 80%. Nid yw colledion yn cael eu negyddu'n llwyr (yn wahanol i beidio â defnyddio gwrtaith ar ardaloedd risg uchel) gan y bydd y tail yn dal i gael ei ddefnyddio yn rhywle.

Er mwyn osgoi costau cyfrif dwbl o gynnyrch llai sy'n gysylltiedig â chyflenwad maetholion is-optimadd o'r mesur hwn a 'Peidio â defnyddio gwrtaith wedi'i weithgynhyrchu ar ardaloedd risg uchel', a'r anhawster wrth benderfynu pa gyfrannau o ofynion maetholion cnwd sy'n cael eu diwallu gan wrtaith neu dail (o fewn yr ardaloedd risg uchel hyn), mae'r gosb cynnyrch bosibl wedi'i phriodoli i 'Peidio â defnyddio gwrtaith wedi'i weithgynhyrchu ar ardaloedd risg uchel'. Yn yr astudiaeth hon, mae'r unig gostau sy'n gweithredu'r mesur hwn yn gysylltiedig â'r angen i nodi meysydd risg uchel, yn nodweddiadol trwy greu cynllun rheoli tail. Ymdrinnir â chostau hyn ar wahân (gweler Adran 1.3.1).

Mae 80% yn gweithredu'r mesur lliniaru hwn, gyda chyfraddau uwch y tu mewn i ardaloedd PPN a chyfraddau is ar ffermydd gwartheg a defaid. Canfu Arolwg Arferion Fferm Defra (2012) fod gan 65% o ffermydd da byw sy'n pori a 90% o ffermydd llaeth gynllun rheoli tail. Canfu ail Arolwg Arferion Ffermio Cymru (Anthony et al., 2016) fod gan linell sylfaen o 83% o ffermydd llaeth gynllun rheoli tail, ond dim ond 50-60% o ffermydd gwartheg a defaid. Roedd ffermydd Glastir, Tir Gofal neu Tir Cynnal yn fwy tebygol o fod â chynlluniau rheoli maethynnau pridd.


1.2.7 Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel

Disgrifiad


Peidio â thaenu slyri na thail dofednod ar gaeau ar adegau pan fo risg uchel o ddŵr ffo ar yr wyneb, ee yn y gaeaf pan fydd priddoedd yn 'wlyb' neu wedi'u rhewi'n galed, neu pan ddisgwylir glaw trwm yn ystod y dyddiau nesaf. Peidio â thaenu slyri na thail dofednod ar gaeau ar adegau pan mae risg uchel o drylifiad cyflym i ddraeniau caeau, ee yn y gaeaf a'r gwanwyn pan fydd priddoedd yn 'wlyb'. Peidio â thaenu slyri na thail dofednod ar gaeau yn hwyr yn y tymor tyfu (h.y. yr hydref/dechrau'r gaeaf) pan nad oes cnwd i ddefnyddio'r N ychwanegol. Mae gan slyri a thail dofednod gynnwys N 'uchel' sydd ar gael yn rhwydd (>30% o'r cyfanswm N).

Fel sy'n wir am ddefnyddio gwrtaith a weithgynhyrchwyd, bydd risgiau colli nitradau a ffosfforws i ddŵr yn dilyn gwasgaru slyri yn amrywio yn ôl y math o bridd a chnwd, cynnwys lleithder pridd a glawiad yn y dyddiau/wythnosau ar ôl gwneud gwasgaru. Mae data a adroddwyd gan Chambers et al. (2000) yn awgrymu y gall hyd at 20% o gyfanswm y nitrogen a gyflenwir gan slyri a thail dofednod a roddir ar briddoedd sy'n

draenio'n rhydd cyn sefydlu grawnfwydydd gaeaf gael ei golli drwy drwytholchi nitradau (Ffigur 0-4). Yn yr un modd, roedd trwytholchi nitradau yn dilyn gwasgaru ar laswelltir yn yr hydref yn 15% o gyfanswm N a gymhwyswyd o'i gymharu â llai na 5% ddiwedd gaeaf / dechrau'r gwanwyn (Ffigur 0-5). Mae trwytholchi nitradau yn digwydd yn dilyn gwasgariadau slyri / tail dofednod yn yr hydref/dechrau'r gaeaf o ganlyniad i ychwanegu N at y pridd ar adeg pan nad oes llawer o gnydau'n defnyddio N. Rheolir faint o N a gollir drwy drwytholchi gan faint o N sydd ar gael yn rhwydd a faint o ddraeniad sydd ar ôl gwasgaru. Mae colledion trwytholchi nitradau o dail buarth fferm yn is nag o wasgaru slyri a thail dofednod sy'n adlewyrchu eu cynnwys N is sydd ar gael yn rhwydd.




Ffigur 0-4: Colledion trwytholchi nitradau yn dilyn amseroedd gwasgaru cyferbyniol slyri / tail dofednod a thail buarth i bridd â'r sy'n draenio'n rhwydd




Ffigur 0-5: Colledion trwytholchi nitradau yn dilyn gwasgariadau slyri gwartheg cyferbyniol i briddoedd glaswelltir sy'n draenio'n rhwydd (Chambers et al., 2000)

O ran clai a phriddoedd canolig, mae risgiau llygredd dŵr ar eu mwyaf pan wneir gwasgariadau slyri i briddoedd sy'n 'wlyb'. Ymchwiliodd prosiect Defra WQ0118 i effaith amseru gwasgaru slyri ar ansawdd dŵr draenio mewn tri safle yn Lloegr dros 4 tymor draenio. Dangosodd y prosiect, pan wasgarwyd slyri ar briddoedd â diffygion lleithder o lai na 10 mm, a bod glawiad wedi digwydd o fewn pythefnos i'r gwasgaru, cynyddodd


crynnodiadau amoniwm-N a ffosfforws llif draenio (Ffigur 0-6 A Ffigur 0-7) a gwelwyd dŵr draenio halogedig (Ffigur 0-8).



Ffigur 0-6: Crynnodiadau Amoniw-N mewn dŵr draenio yn dilyn gwasgaru slyri ar briddoedd clai wedi'u draenio ar adegau cyferbyniol (prosiect Defra WQ0118)



Ffigur 0-7: Cyfanswm crynnodiadau ffosfforws toddedig mewn dŵr draenio yn dilyn gwasgaru slyri ar briddoedd clai wedi'u draenio ar adegau cyferbyniol (prosiect Defra WQ0118)



Ffigur 0-8: Samplau dŵr draenio 10 diwrnod ar ôl gwasgaru slyri ym mis Mawrth ar briddoedd clai wedi'u draenio â diffyg lleithder pridd.10mm.

Er mwyn lleihau'r risgiau o lygredd dŵr gwasgaredig, awgrymodd y prosiect y dylai capasiti storio slyri dros y gaeaf fod yn ddigonol i atal gwasgaru ar briddoedd pan oedd diffygion lleithder pridd yn is na 20 mm (Tabl 0-2).

Tabl 0-2: Canllawiau rheoli risg ar gyfer amseru gwasgaru slyri (o brosiect Defra WQ0118)

Diffyg lleithder pridd (mm)	Risg
>20	Isel
10-20	Cymedrol
<10	Uchel

Mae'r model IRRIGUIDE (Bailey a Spackmann, 1996) a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth hon yn awgrymu mai c.10mm oedd diffygion lleithder pridd ledled Cymru ar ddiwedd mis Mawrth sy'n awgrymu y byddai gwasgaru slyri ym mis Mawrth yn peri risg uchel o halogiad amoniwm-N a ffosfforws mewn dyfroedd wyneb. Gan fod y risgiau o drwytholchi nitradau ar eu mwyaf yn dilyn gwasgaru yn ystod yr hydref, gellir awgrymu bod amseroedd risg uchel ar gyfer llygredd dŵr ar gyfer gwasgariadau slyri a thail dofednod yn rhedeg o ddechrau mis Hydref tan ddiwedd mis Mawrth. Mae hyn yn dangos bod angen capasiti storio 6 mis er mwyn lleihau'r risgiau o ddefnyddio slyri ar adegau risg uchel.

Mae gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Andrew Chambers, Pers Comm) yn awgrymu bod 180 a 160 o achosion o lygredd dŵr wyneb o amaethyddiaeth yn 2018 a 2019, yn y drefn honno. Mae rhai o'r digwyddiadau hyn yn debygol o fod wedi eu hachosi gan fethiannau rheoli slyri gan gynnwys storffeydd slyri sy'n gollwng a thaenu slyri ar briddoedd pan fo risg uchel o halogi dŵr ffo neu ddŵr draenio a allai fod o ganlyniad i gapasiti storio annigonol. Mae cynyddu capasiti storio slyri i 6 mis yn debygol o leihau'r risg o lygredd o darddle penodol yn ogystal â llygredd dŵr gwasgaredig.

Cynrychiolaeth mewn Modelu

Cyfrifwyd effeithiau'r mesur hwn ar gyfer nitradau, amonia ac ocsid nitraidd gan ddefnyddio'r model MANNER, a oedd yn cyfrif yn benodol am effeithiau newid amseru

o ddsbarthiad sylfaenol o amseru yn deillio o'r Arolwg Arferion Gwrtaith Prydain. Disgrifir y model MANNER yn fanylach yn yr Atodiad.

Ar gyfer ffosforws, rhagdybiodd Farmscoper ostyngiad o 50% mewn colledion tymor byr o dail.

Mae costau'r mesur hwn yn gysylltiedig â storio ychwanegol er mwyn hwyluso gwell amseru tail yn unig, a gyfrifir ar wahân (gweler Adran 1.3.2).

1.2.8 Peidio â gwasgaru tail buarth ar gaeau ar adegau risg uchel

Disgrifiad

Dylech osgoi taenu tail buarth (gwellt) ar gaeau ar adegau pan fo risg uchel o lif dŵr ffo neu ddraenio wyneb, er enghraifft, lle mae glaw yn disgyn yn fuan ar ôl defnyddio tail buarth ar briddoedd 'gwlyb' h. e. y rhai â diffyg lleithder pridd o lai na 10mm. Mae perygl o lygredd os caiff tail solet ei wasgaru o dan amodau lle gallai glaw trwm yn dilyn taenu gludo maethynnau i systemau dŵr wyneb. Mae cynnwys uchel deunydd sych a chynnwys maethynnau isel tail buarth fferm sydd ar gael yn rhwydd yn arwain at lai o risg o lygredd nag ar ôl gwasgaru slyri. Ni fydd yn ychwanegu digon o ddŵr i'r pridd i sbarduno dŵr ffo neu lif blaenoriaethol i ddraeniau caeau; Mae gan dail buarth 'ffres' gynnwys uwch o N sydd ar gael yn rhwydd, ac yn gyffredinol mae'n peri mwy o risg o lygredd na 'hen' dail buarth sydd wedi'i storio ers sawl mis.

Cynrychiolaeth mewn Modelu

Mae Farmscoper yn rhagdybio gostyngiad o 25% mewn colledion tymor byr o dail. Gan fod y modelu sy'n sail i Farmscoper yn seiliedig ar wybodaeth am amseru defnyddio tail sy'n deillio o'r Arolwg Arferion Gwrtaith Prydain, mae'r gwaith o'i weithredu ar hyn o bryd wedi'i gynnwys yn y modelu ac felly mae gweithredu'r mesur lliniaru wedi'i osod i 0.

Nid oes unrhyw gostau sylweddol yn gysylltiedig â'r mesur hwn.

1.3 Rhagdybiaethau a Ddefnyddir ar gyfer Amcangyfrifon Cost a Budd

1.3.1 Newidynnau o Ddiddordeb

Bydd rhai senarios polisi yn cynyddu costau cyfalaf i ffermwyr yn ogystal â mewnbyn amser ffermwyr a chostau gweithredol. Mae yna hefyd fuddion posibl i ffermwyr o leihau costau gwrtaith a weithgynhyrchwyd. Amcangyfrifwyd yr arbedion amgylcheddol ar gyfer nitrogen gwrtaith fel rhan o arbedion mewn costau gweithredol o fewn y modelu amgylcheddol. Mae'r buddion amgylcheddol o gynyddu effeithlonrwydd defnyddio maethynnau tail yn cynnwys gostyngiadau posibl mewn tri math o lygredd: (i) allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr i'r aer; (ii) allyriadau amonia i'r aer; a (iii) nitrad-N a chyfanswm colledion ffosforws i ddŵr.

1.3.2 Manteision Cymdeithasol – Dŵr

Amcangyfrifir bod 3.8 biliwn m³ o ddŵr yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru bob blwyddyn gyda'r mwyafrif yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu trydan a chyflenwad

dŵr cyhoeddus (Morris, J. & Camino, M., 2011). Amcangyfrifwyd bod gwerth y dŵr a ddefnyddir yng Nghymru bob blwyddyn yn £57miliwn yn seiliedig ar daliadau uned safonol Cyfoeth Naturiol Cymru o tua £15/1000m³. Yn ogystal, mae gan Gymru 11 o safleoedd gwlyptir tir isel a 10 safle gwlyptir tir uchel (corsydd mewndirol a chorsydd mawn) sy'n cwmpasu 3,458 ha sy'n darparu manteision rheoli llifogydd, hamdden a bio-amrywiaeth yr amcangyfrifwyd eu bod yn werth tua £643/ha y flwyddyn gan roi gwerth tua £2.2 miliwn y flwyddyn. Mae Cymru hefyd yn ddarparwr pwysig gweithgareddau pysgota dŵr croyw gyda gwerth y farchnad am hawliau pysgota yn £90 miliwn. Mae'r diwydiant pysgota dŵr croyw hefyd yn cefnogi tua 700 o swyddi (Maule, G. 2018).

Mae llygredd dŵr o amaethyddiaeth yn effeithio ar wahanol randdeiliaid (Defra, 2014) gan gynnwys:

- Rhaid i gwmnïau dŵr ddefnyddio prosesau costus i gael gwared ar lygryddion amaethyddol i gynhyrchu dŵr yfed diogel
- Mae aelodau o'r cyhoedd yn cael llai o werth hamdden o ddefnyddio cyrsiau dŵr, ee pysgota
- Mae aelodau o'r cyhoedd yn dioddef mwy o risg o salwch wrth ymdrochi
- Mae aelodau'r cyhoedd yn cael llai o fuddion 'peidio â defnyddio' o gyrsiau dŵr oherwydd difrod ecosystem o lygredd dŵr amaethyddol ac ewtroffeiddio dŵr croyw a dŵr morol
- Mae pysgodfeydd cregyn masnachol a ffermydd pysgod yn dioddef mwy o risg o gynnyrch halogedig o ddŵr nad yw'n lân ac felly'n colli gwerthiant
- Gallai'r sector twristiaeth dioddef colledion o draethau sydd ar gau oherwydd eu bod yn methu â chyrraedd safonau dŵr ymdrochi
- Mae ffermwyr eraill yn colli incwm oherwydd peryglon iechyd posibl os yw dŵr llygredig yn cael ei dynnu'n ddiarwybod a'i roi ar gnydau sensitif, fel salad. Gall ansawdd dŵr gwael hefyd wahardd plannu cnydau penodol

Adroddwyd am werth budd economaidd lleihau llygredd amaethyddol mewn nifer o astudiaethau. Gwnaeth Metcalf et al (2012) arolwg o aelwydydd o bob rhan o Gymru a Lloegr er mwyn pennu gwerth i weithredu mesurau i gyrraedd targedau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr ar gyfer ansawdd dŵr. Awgrymodd yr astudiaeth fod y gwerth a roddwyd ar wella ansawdd dŵr yn amrywio rhwng £2,263 a £39,168 fesul km² yn dibynnu ar ddwysedd y boblogaeth (mae ardaloedd â dwysedd poblogaeth uwch yn rhoi mwy o werth ar y mesurau) lleoliad y gwelliant a chwmpas ecolegol y gwelliant hwnnw.

Awgrymodd amcangyfrifon a ddeilliodd o wybodaeth a adroddwyd gan O'Gorman a Bann (2008) fod costau sy'n gysylltiedig â chyfraniad amaethyddiaeth at fethiannau dŵr ymdrochi ac effeithiau dŵr afon o ansawdd llai na da oddeutu £ 1.5 miliwn y flwyddyn yng Nghymru.

Mae Defra (2016) yn awgrymu ei bod yn amhriodol neilltuo ffigurau cyfartalog sengl i ddisgrifio budd amgylcheddol gostyngiadau mewn llygredd dŵr amaethyddol oherwydd yr amrywiad daearyddol ac amserol mewn crynodiadau llygryddion. Bydd y difrod a achosir gan y llygrydd hefyd yn amrywio yn ôl maint y dalgylch dŵr, i ba raddau y mae'n cael ei ddefnyddio gan bobl neu'n cefnogi bywyd gwylt ac ansawdd sylfaenol y dŵr. Awgrymir defnyddio amrywiaeth o werthoedd i fesur effeithiau economaidd gostyngiadau mewn colli maethynnau i ddŵr.

Adroddir ar ystod o gostau difrod amgylcheddol am golli nitrad a ffosfforws i ddŵr mewn gwahanol asesiadau effaith amgylcheddol. Mae Defra 2016 yn dyfynnu gwerth canolog o 33c/kg (ystod 0-48c/kg) ar gyfer nitrad a £19.89/kg (ystod £4.20-£35.06/kg) ar gyfer ffosfforws. Mewn cyferbyniad, mae'r ffigurau a adroddwyd ym mhrosiect Defra LM0304 yn awgrymu gwerthoedd canolog o 43c/kg (ystod 24-62c/kg) ar gyfer nitrad a £12.79 ar gyfer ffosfforws (ystod £2.77- £22.66/kg).

Yn y prosiect hwn rydym wedi dewis defnyddio'r ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Llyfr Data *Enabling Natural Capital Approach* (ENCA) Defra sy'n rhoi gwerthoedd canolog o 97c y kg (ystod 69c-£1.26/kg) ar gyfer nitrad a £30.00 (ystod 26.66 i 33.34/kg) ar gyfer ffosfforws. Mae methodoleg ENCA yn gosod y safon ar gyfer astudiaethau sy'n mesur effeithiau arferion amaethyddol ar Gyfalaf Naturiol.

1.3.3 Manteision Cymdeithasol – Aer

Carbon

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu mesur fel y swm cyfatebol o garbon deuocsid (CO_{2e}). Mae Methan (CH₄) ac Ocsid Nitraidd (N₂O) yn cael eu trosi'n CO_{2e} gan ddefnyddio eu priod ffactorau trosi o 25 a 298. Mae'r uned safonol a ddefnyddir yn cyfateb i dunelli (tCO_{2e}).

Datblygodd y fethodoleg prasio carbon dros amser. Ym mis Rhagfyr 2007, mabwysiadodd y dull o brisio carbon y defnydd o bris cysgodol carbon (SPC) fel sail ar gyfer ymgorffori allyriadau carbon mewn dadansoddiadau cost a budd ac asesiadau effaith. Mae'n seiliedig ar amcangyfrifon o'r costau difrod oes sy'n gysylltiedig ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, a elwir yn gost gymdeithasol carbon (SCC), ac mae'n rhoi mwy o ystyriaeth i ansicrwydd o'i gymharu â'r dull SCC a fabwysiadwyd yn flaenorol. Seilir gwerthoedd nwyon tŷ gwydr ar gost economaidd lliniaru uned o garbon. Bydd y gwerth carbon yn amrywio yn dibynnu ar y sector y mae'r allyriadau'n digwydd ohono. Mae dau fath o sector: y sector a fasnachir (a ddiffinnir fel y gweithgareddau hynny a gwmpesir gan System Masnachu Allyriadau yr UE (ETS yr UE) gyda phris marchnad ar gyfer carbon) a'r sector nas masnachir (a oedd yn cynnwys pob sector arall nad yw'n dod o dan ETS yr UE). Mae amaethyddiaeth wedi'i chynnwys yn y sector nas masnachir.

Mae'r newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector amaethyddol yn cael eu prasio yn ôl prisiau carbon nas masnachir a gyhoeddwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS; Tabl 0-3).

Tabl 0-3: Prisiau carbon nas masnachir ar gyfer y flwyddyn 2021-2040 (£/CO_{2e}) ym mhrisiau 2018.

Blwyddyn	Isel	Canolig	Uchel
2021	35	70	106
2022	36	72	107
2023	36	73	109
2024	37	74	111
2025	38	75	113
2026	38	76	114

2027	39	77	116
2028	39	79	118
2029	40	80	120
2030	40	81	121
2031	44	88	132
2032	48	96	144
2033	52	103	155
2034	55	111	166
2035	59	118	178
2036	63	126	189
2037	67	133	200
2038	70	141	211
2039	74	148	223
2040	78	156	234

Ffynhonnell: modelu BEIS.

Amonia

Defnyddiwyd methodolegau prisio amrywiol ar gyfer arfarniadau ansawdd aer, sy'n cynnwys: dull llwybrau effaith (IPA), dull cost difrod (cyfres o werthoedd effaith ariannol fesul tunnell o allyriadau), dull costau gweithgarwch (gwerth ariannol fesul KWh o ynni a ddefnyddir) a'r dull costau lleihau.

Dylid defnyddio dull costau lleihau pan ddisgwylir i'r polisi/prosiect wthio crynodiadau allyriadau uwchlaw terfynau cyfreithiol. Defnyddir y dull hwn i asesu cost mesurau gwrthbwysu (y "gost lleihau") yn unig ar gyfer faint o ansawdd aer sy'n torri'r rhwymedigaeth berthnasol.

Defnyddir dull costau gweithgarwch yn aml mewn polisiâu sy'n gysylltiedig â defnyddio tanwydd, yn enwedig pan fo newid mewn tanwydd yn hysbys ond nad yw newidiadau mewn allyriadau llygryddion yn hysbys.

IPA yw'r dull arfer gorau ond mae'n defnyddio llawer o adnoddau. Mae'r dull hwn yn gweddu orau i brosiectau sy'n fwy na £50miliwn lle mai prif amcan y polisi neu'r prosiect yw newidiadau mewn ansawdd aer.

Dull a ddatblygwyd gan Defra i alluogi dadansoddi cymesur wrth asesu effeithiau cymharol fach ar ansawdd aer (GPN <£50m) yw'r dull cost difrod. Bernir mai'r dull hwn sydd fwyaf priodol i'w ddefnyddio yn yr arfarniad hwn sy'n asesu effaith newidiadau polisi mewn rheoliadau PPN.

Cyfres o werthoedd effaith yw costau difrod, wedi'u mesur yn ôl y dunnell o allyriadau gan lygrydd, sy'n deillio o'r IPA manylach er mwyn amcangyfrif y costau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â newidiadau bach mewn allyriadau llygryddion. Mae'r fethodoleg cost difrod wedi esblygu dros y blynyddoedd ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys gwerthoedd

ar gyfer effeithiau ar iechyd pobl, cynhyrchiant, amwynder, iechyd yr amgylchedd a gwasanaethau ecosystemau.

Mae Defra yn diweddarau ac yn cyhoeddi prisiau cost difrod amonia bob blwyddyn, yr ystod ddiweddaraf a gyhoeddwyd (2020) o bris amonia (gwerth canolog) yw £7,923 gydag ystod o £1,521 i £24,476 ym mhrisiau 2017. Y gwerth cost difrod am amonia yn y flwyddyn flaenorol (2019) oedd £6,064 (gwerth canolog) gydag ystod rhwng £1,133 a £18,867. Mae'r cynnydd mewn gwerth amonia yn adlewyrchu'r ailwerthusiad diweddaraf o gostau difrod sy'n ymwneud ag iechyd pobl a chynnwys effaith ehangach ar y gwasanaethau ecosystemau.

Defnyddiwyd y data cost difrod amonia diweddaraf (2020) yn yr arfarniad hwn.

1.3.4 Crynodeb o'r prisiau a ddefnyddiwyd i brisio buddion amgylcheddol

Ar gyfer prisio arbedion allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnyddir cost ganolog carbon ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr nas masnachir yn y DU (£68 y dunnell o CO_{2e} yn 2019), yr ystod lawn o'r amcangyfrif o gostau ariannol yw £34-£102 y dunnell o CO_{2e} yn 2019 (Tabl 0-4). Defnyddiwyd yr amcangyfrif canolog o'r prisiau a ragwelir ar gyfer carbon bob blwyddyn dros y cyfnod o 2021-2040. Yn yr un modd, mae'r amcangyfrif o gostau difrod sy'n gysylltiedig ag allyriadau amonia yn gostwng dros ystod eang. Yr amcangyfrif canolog a ddefnyddir yn y dadansoddiad yw £7,923 y dunnell ond yr ystod lawn yw £1,521 i £24,476 y dunnell ym mhrisiau 2017. Defnyddiwyd gwerth canolog yr amcangyfrifon hyn i fesur y manteision amgylcheddol o ran llai o amonia, ffosfforws, nitrad-N ac arbedion allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ogystal â'r gwerthoedd isel ac uchel i ddangos ystod gwerth y buddion amgylcheddol.

Tabl 0-4: Newidynnau yr effeithio arnynt a'u gwerth ariannol

Llygrydd	Gwerth Canolog (£/t)	Ystod Gwerth (£/t)	Ffynhonnell y data
Nwyon tŷ gwydr	£68	£34-£102	Gwerthoedd CO2 nas masnachir ym mhrisiau 2018. Ffynhonnell: Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/793632/data-tables-1-19.xlsx (Tabl 3)
Amonia	£7,923*	£1,521-£24,476	Canllawiau Cost Difrod Ansawdd Aer Defra (2020). Cyfartaledd cenedlaethol ym mhrisiau 2017. https://www.gov.uk/government/publications/assess-the-impact-of-air-quality/air-quality-appraisal-damage-cost-guidance
Nitrad-N	£970	£690-£1,260	Llyfr data gwasanaethau ENCA
Ffosfforws	£30,000	£26,660-£33,340	Llyfr data gwasanaethau ENCA

* Cynyddodd gwerth amonia yn sylweddol ers blwyddyn 2018 oherwydd ailwerthusiad o'r costau difrod, yn enwedig yn ymwneud ag iechyd pobl a chynnwys costau gwasanaeth ecosystemau ehangach.

Gan fod y prisiau ar gyfer llygryddion gwahanol yn seiliedig ar wahanol flwyddyn gyfeirio, addaswyd y prisiau wedyn i flwyddyn sylfaen prisiau 2018 (sef y flwyddyn sylfaen ddiweddaraf a ddefnyddiwyd ar draws yr holl brisiau llygrwyr o wahanol ffynonellau prisiau yn y tabl uchod) gan ddefnyddio datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros ar gyfer yr arfarniad hwn.

Mae'r dadansoddiad yn rhagdybio bod cydymffurfiaeth lawn â'r mesurau. Os bydd cydymffurfiaeth yn llai na hynny, yna bydd costau a manteision yn llai ond bydd yr effaith ariannol net i'r un cyfeiriad.

1.3 Costau gweithredu mesurau

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r mesurau lliniaru, cymerwyd costau gweithredu o fodelu Farmscoper. Fodd bynnag, cyfrifwyd costau cadw cofnodion ac ar gyfer storio slyri ar wahân fel y disgrifir yn yr is-adrannau canlynol.

1.3.1 Cost weinyddol cadw cofnodion a chynlluniau maethynnau

Mae cwblhau cofnodion a chynlluniau sy'n ofynnol gan y mesurau arfaethedig yn debygol o ychwanegu costau gweinyddol ychwanegol at fusnes fferm. Ar gyfer rhai ffermydd, ni fydd y mesurau'n cael fawr ddim effaith, os o gwbl, gan eu bod eisoes yn cadw cofnodion fel rhan o gynlluniau rheoli tir neu gynlluniau sicrwydd fferm sy'n bodoli eisoes.

Mae'r amcangyfrifon ar gyfer y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli maethynnau yn seiliedig ar nifer o dybiaethau fel yr amlinellir isod:

- Mae amser y ffermwr wedi'i gostio ar £20 yr awr³.
- Mae gan 74% o ffermydd llaeth, 55% o ffermydd gwartheg a defaid (y tu allan i Ardaloedd dan Anfantaï Fawr) a 46% o ffermydd gwartheg a defaid (o fewn Ardaloedd dan Anfantaï Fawr) gynllun maethynnau pridd eisoes (Anthony et al., 2016).
- 40 awr yw'r amser nodweddiadol mae'n ei gymryd i greu cynllun rheoli maethynnau (Johnson et al., 2012). Oherwydd y gyfran fawr o ffermydd yng Nghymru sy'n fach, cafodd y gwerth hwn ei raddio yn ôl maint ffermydd. Tybiwyd bod y gwerth hwn yn cynrychioli fferm o 24 i 40 ESU (Unedau Maint Economaidd; Tabl 3-5), gyda'r amser yn cael ei raddio yn ôl arwynebedd cyfartalog ar gyfer meintiau ffermydd eraill (gan arwain at 6 awr ar gyfer y ffermydd llai a 70 awr ar gyfer y ffermydd mwyaf). Mae hyn yn awgrymu mai cost gyfartalog cynllun rheoli maethynnau a gynhyrchwyd gan ffermwr oedd £800/fferm (ystod £130-£1400) sy'n is na'r gost nodweddiadol o rhwng £1,000 a £2000 am gynllun a gynhyrchir gan gynghorydd â chymwysterau FACTS (Mel Holloway, Pers Comm).
- Myr amser blynyddol ar gyfartaledd yw 20 awr ychwanegol yn ôl yr arolwg (Johnson et al., 2012). Cafodd y gwerth hwn ei raddio hefyd yn ôl maint y fferm a oedd yn cyfateb i £400/fferm sy'n is na'r £700-£900/fferm a godir fel arfer gan gynghorydd â chymhwyster FACTS (Mel Holloway, pers comm.).
- Mae 71% o dail ar ffermydd llaeth, 19% ar ffermydd gwartheg a defaid (y tu allan i Ardaloedd dan Anfantaï Fawr) ac 11% ar ffermydd gwartheg a defaid (o fewn Ardaloedd dan Anfantaï Fawr) yn cael eu rheoli fel slyri (Anthony et al., 2012a).
- Byddai angen cynllunio proffesiynol ar hanner y ffermydd sydd â storfa slyri i adeiladu neu ehangu eu cyfleusterau. Cost hyn fyddai £3,500 fesul cais (Kenny Dhillon, pers comm).
- Anwybyddwyd effeithiau presennol PPNau oherwydd y gyfran fach o ffermwyr yn yr ardaloedd presennol (a gan y gallai'r rhain fod wedi'u cynnwys yn ffigurau'r arolwg a ddefnyddiwyd)

Cyfrifwyd y costau yn ôl math o fferm a maint y fferm (Tabl 0-5) gan ddefnyddio Unedau Maint Ewropeaidd (ESU), a chan gyfrifyddu am y ffermydd hynny y tu mewn i'r ardal PPN bresennol.

Mae'r costau cyffredinol ar gyfer storio slyri a chostau cysylltiedig ar gyfer gwneud cais am ganiatâd cynllunio, yn ogystal ag amser cynllunio ar gyfer cynllun rheoli maethynnau yr un fath ar gyfer Opsiwn 2 ac Opsiwn 4 (Tabl 0-6). Daw'r amser ychwanegol a roddir i gynlluniau rheoli maethynnau o'r gofyniad i weithredu'r mesur 'gan ddefnyddio system argymell gwrtaith' gan fferm y tu mewn a'r tu allan i ardaloedd PPN. Mae'r costau amcangyfrifedig ar gyfer cynllunio yn cynnwys: £ 4.3m (cyn disgowntio) ar gyfer cynllunio ychwanegol parhaus ar bob fferm a £4m (cyn disgowntio) o gostau ymlaen

³ Bernir bod £20/awr yn cynrychioli'r gyfradd gost gyfartalog. Mae'r gyfradd fesul awr yn amrywio o £12.11 (amser rheolwyr fferm) i £40/hr gan ddefnyddio ymgynghorydd. £12.11 yw'r gyfradd gyfartalog fesul awr ar gyfer rheolwyr a pherchenogion mewn amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru [ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol [SYG], 2019. Enillion ac oriau a weithiwyd, fesul meddiannaeth gan SOC pedwar digid: ASHE Tabl 15.5a -Tâl fesul awr - Gros (£) - Ar gyfer pob swydd]. Yn ôl canllaw poced Nix 2020 (t.168), cost rheoli ffermydd gradd 6 yw £15.96 yr awr.

llaw ar gyfer y ffermydd hynny sydd heb gynllun ar hyn o bryd. Mae cost bellach o £3.5m (cyn disgowntio) mewn ffioedd cynllunio ar gyfer y cyfleusterau storio slyri ychwanegol.

Ar gyfer opsiwn 3 (Tabl 0-7), mae'r costau'n is ac yn cynnwys: £0.13m (cyn disgowntio) ar gyfer cynllunio ychwanegol parhaus ar bob fferm a £0.09m (cyn disgowntio) o gostau ymlaen llaw ar gyfer y ffermydd hynny sydd heb gynllun ar hyn o bryd. Mae cost bellach o £0.16m (cyn disgowntio) mewn ffioedd cynllunio ar gyfer y cyfleusterau storio slyri ychwanegol.

Mae'r asesiadau cost yn rhagdybio bod gan ffermydd sydd o dan 8 ESU lefelau isel faethynnau a roddir o wrteithiau neu dail ac nad oes angen cynlluniau rheoli maethynnau manwl arnynt. Diffinnir y ffermydd hyn yn y canllaw PPN fel a ganlyn:

- Yn y flwyddyn galendr mae 80% o arwynebedd amaethyddol y daliad wedi'i orchuddio â glaswellt
- Nid yw cyfanswm y nitrogen mewn tail organig a daenir ar y daliad, boed yn uniongyrchol gan anifail neu o ganlyniad i daenu, yn fwy na 100 kg/ha N
- Mae cyfanswm y nitrogen mewn nitrogen gwrtaiith a weithgynhyrchir sy'n cael ei daenu ar y daliad yn llai na 90 kg / ha N.
- Nid oes unrhyw dail organig yn cael ei gludo i'r daliad

Tabl 0-5: Nifer y ffermydd gweithredol yng Nghymru yn ôl math o fferm a maint fferm (a ddiffinnir gan Unedau Maint Economaidd) o Ddata Arolwg Amaethyddol Mehefin 2019

Math o Fferm	< 8	8 - 24	24 - 40	40 - 100	> 100	Cyfanswm Nifer y Ffermydd Gweithredo I
Ŷd	128	59	60	71	102	420
Cnydau cyffredinol	47	30	12	22	16	127
Garddwrol	644	28	40	31	87	830
Llaeth	104	1,086	34	341	49	1,614
Gwartheg a Defaid ALFf	5,322	316	1,531	1,707	3,175	12,051
Gwartheg a Defaid - Iseldir	1,279	56	276	231	658	2,500
Cymysg	769	79	80	127	114	1,169
Moch	213	2	3	1	6	225
Dofednod	955	79	12	39	8	1,093
Arall	4582	5	22	8	161	4,778
Cyfanswm	14,043	1,740	2,070	2,578	4,376	24,807

Tabl 0-6: Gofynion Cynllunio Ychwanegol, yn ôl y math o fferm, gan ddefnyddio data o Arolwg Amaethyddol Mehefin a thybiaethau eraill a restrir uchod (Opsiw 2 ac Opsiw 4), Ac eithrio Ffermydd <8 ESU

Math o Fferm	Cyfanswm Nifer y Ffermydd Gweithredol y tu allan i ardal PPN presennol	Ffracsiwn o Ffermydd sydd â Chynllun Presennol	Cyfanswm yr Amser ar gyfer Cynllunio Parhaus (oriau)	Cyfanswm Nifer y Ffermydd sydd angen Cynllun Newydd	Cyfanswm yr Amser Ymlaen Llaw ar gyfer Cynllun Newydd (oriau)	Cyfran y Ffermydd â Slyri	Cyfanswm Nifer y Ffermydd â Slyri	Cyfanswm Nifer y Ffermydd sydd angen Cynllunio
Ŷd	254	0.55	5,693	114	5,124	0	0	0
Cnydau cyffredinol	76	0.55	2,025	34	1,823	0	0	0
Garddwrol	168	0.55	3,306	76	2,975	0	0	0
Llaeth	1,377	0.74	44,425	358	23,101	0.71	978	489
Gwartheg a Defaid ALFf	6,561	0.46	126,869	3,543	137,018	0.11	722	361
Gwartheg a Defaid - Iseldir	1,051	0.55	19,044	473	17,140	0.19	200	100
Cymysg	367	0.55	8,836	165	7,953	0.15	55	28
Moch	8	0.55	183	4	164	0.15	1	1
Dofednod	130	0.55	3,940	59	3,546	0.15	20	10
Arall	187	0.55	2,635	84	2,371	0	0	0
Cyfanswm	10,179		216,955	4,909	201,214		1,975	987

Tabl 0-7: Gofynion Cynllunio Ychwanegol, yn ôl y math o fferm, gan ddefnyddio data o Arolwg Amaethyddol Mehefin a thybiaethau eraill a restrir uchod (Opswn 3), ac Eithrio Ffermydd <8 ESU

Math o Fferm	Cyfanswm Nifer y Ffermydd Gweithredol y tu allan i ardal PPN newydd	Ffracsiwn o Ffermydd sydd â Chynllun Presennol	Cyfanswm yr Amser ar gyfer Cynllunio Parhaus (oriau)	Cyfanswm Nifer y Ffermydd sydd angen Cynllun Newydd	Cyfanswm yr Amser Ymlaen Llaw ar gyfer Cynllun Newydd (oriau)	Cyfran y Ffermydd â Slyri	Cyfanswm Nifer y Ffermydd â Slyri	Cyfanswm Nifer y Ffermydd sydd angen Cynllunio
Ŷd	18	0.55	412	8	371	0	0	0
Cnydau cyffredinol	19	0.55	495	9	447	0	0	0
Garddwrol	3	0.55	100	2	90	0	0	0
Llaeth	104	0.74	3,447	27	1,792	0.71	74	37
Gwartheg a Defaid ALFf	24	0.46	385	15	416	0.11	3	1
Gwartheg a Defaid - Iseldir	69	0.55	1,047	31	942	0.19	13	7
Cymysg	21	0.55	540	9	486	0.15	3	2
Moch	1	0.55	30	0	27	0.15	0	0
Dofednod	3	0.55	36	1	32	0.15	0	0
Arall	3	0.55	36	1	32	0	0	0
Cyfanswm	260		6,528	104	4,635		94	47

1.3.2 Costau storio slyri

Cyfrifwyd cyfeintiau storio slyri trwy integreiddio cyfanswm y cyfrif da byw yng Nghymru o Arolwg Amaethyddol Mehefin 2018, gydag eiddo da byw a data arferion rheoli er mwyn cyfrifo gofynion storio slyri cyfartalog blynyddol fesul mis.

Cymerwyd cyfeintiau cychwynnol yn ôl y math o dda byw o ddogfennau canllaw PPN. Dosrannwyd yr tail hwn fesul mis rhwng caeau, buarthau a siediau. Dosrannwyd tail mewn siediau rhwng tail solet a systemau slyri yn ôl canlyniadau'r ail Arolwg Arferion Fferm Cymru (Anthony et al., 2016), a ganfu fod dros 70% o'r tail ar ffermydd llaeth yn cael ei reoli fel slyri, ond dim ond 10-20% ar ffermydd gwartheg a defaid. Ni chynhyrwyd tail solet ar fuarthau - rheolwyd tail naill ai fel slyri, dŵr budr neu yn syml ni chafodd ei gasglu (yn seiliedig ar ddata yn Arolwg cyntaf Arferion Ffermio Cymru (Anthony et al., 2012a), a ganfu fod oddeutu 62% wedi'i gasglu mewn storfeydd slyri ar ffermydd llaeth ac 20% ar ffermydd gwartheg a defaid).

Roedd cyfraniad glaw at y gofyniad storio slyri yn seiliedig ar y glawiad uchaf a ddisgwylid mewn 5 mlynedd (M5) gan dybio glawiad blynyddol o 1460mm i Gymru. Nodwyd arwynebedd buarth fesul anifail, yn ôl y math o dda byw (0.9 m² fesul dafad, 4.3 m² gyfer gwartheg biff a 6.4 m² ar gyfer gwartheg godro; Webb et al., 2001), gyda chyfran o'r ardal hon o dan do ac wedi'i gwteru. Tybiwyd bod unrhyw law yn cwmpo ar yr ardal heb orchudd yn cael ei anfon i storfa slyri, dŵr budr neu heb ei gasglu yn unol â'r ffracsiynau a grybwyllwyd uchod. T1460 mm. Ar gyfer anifeiliaid godro, rhoddwyd lwfans ychwanegol o 25 litr y dydd i bob buwch ar gyfer dŵr a ddefnyddir i olchi'r parlwr llaeth, y tybiwyd ei fod i gyd yn cael ei anfon i'r storfa slyri. Roedd hyn yn caniatáu cyfrifo cyfanswm cyfaint y slyri a gynhyrchir bob mis, ac felly'r capasiti storio sy'n ofynnol i storio tail am gyfnod penodol. O hyn, gellid pennu arwynebedd y storfa slyri, ac mae hyn yn caniatáu ar gyfer rheoli cyfaint ychwanegol o ddeunydd o ganlyniad i law yn disgyn i'r cyfleuster storio (y tybiwyd ei fod heb ei orchuddio). Gyda phob cyfrifiad yn cael ei wneud yn fisol, gellir pennu effeithiau storio mis neu ddau ychwanegol o ddeunydd.

Mae deall lefel bresennol y capasiti storio slyri yng Nghymru yn anodd oherwydd diffyg data arolwg manwl. Nododd arolygon o gapasiti storio slyri yng Nghymru a Lloegr (Smith et al., 2000; 2001; 2001) gapasiti cyfartalog o 3.5 mis ar gyfer slyri moch; 3.3 mis ar gyfer slyri gwartheg biff; a 3.8 mis ar gyfer slyri gwartheg godro. Mae'r gwerthoedd hyn yn cynnwys effaith rhai ffermydd yn nodi nad oes storfa slyri ar gael. Yn ddiweddar (2019) mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi arolygu capasiti storio slyri ar 230 o ffermydd llaeth yng Nghymru (Andrew Chambers, *pers. comm.*). Roedd capasiti storio cyfartalog pwysol maint y fuches odro yn 4.1 mis tebyg. Gan fod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddiaeth) (Cymru) 2010 (SSOTA) yn gofyn am gynhyrchu 4 mis o dail a lwfans ar gyfer y glawiad uchaf a ddisgwylir mewn 5 mlynedd (M5) roedd y llinell sylfaen yn tybio bod ffermydd yn cydymffurfio â rheoliadau SSOTA.

Mae astudiaethau blaenorol sy'n cyfrifo gofynion storio slyri wedi dilyn canllawiau Defra a Chymru ar y pryd a oedd yn argymhell defnyddio glawiad blynyddol cyfartalog i gyfrifo'r cyfraniad a wnaeth glaw i gyfeintiau storio slyri. Ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyfrifwyd cyfraniad glawiad i'r gofyniad storio slyri yn yr astudiaeth hon gan ddefnyddio glawiad M5 sydd fel arfer tua 10-20% yn uwch na'r cyfartaledd.

Mae'r llinell sylfaen gyfrifedig a'r capasiti storio ychwanegol a'r costau ychwanegol sy'n ofynnol i gynyddu capasiti storio slyri i gydymffurfio â'r mesurau yn: (i) 'Cynyddu gallu storfeydd slyri fferm i wella amseriad taenu slyri' - hynny yw, storio 5 mis a (ii) 'Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel' - hynny yw, storio 6 mis, iw gweld yn Tabl 0-8. Tybiwyd bod y costau ar gyfer storfeydd uwchben y ddaear (h.y. wedi'u hadeiladu â sylfaen goncrit gyda waliau dur neu goncrit) yn £50/m³ a thybiwyd bod cost storfeydd lagwnau â banciau daear yn £40/m³ (Nix, 2019). Mae'n debygol y bydd costau'n amrywio rhwng ffermydd yn ôl cyfluniad y fferm, ac argaeledd llafur a deunyddiau ac ati.

Tabl 0-8: Costau cyfalaf cynyddu gofynion storio slyri (50% o arwynebedd y buarth o dan do).

Ardal	Cyfaint storio slyri		Gofyniad storio ychwanegol		Costau Ychwanegol Tanc uwchben daear		Costau ychwanegol Lagwn		
	Miliwn m ³				£ miliwn				
	Linell sylfaen+	5 mis	6 mis	5 mis	6 mis	5 mis	6 mis	5 mis	6 mis
PPN	0.91	1.08	1.27	0.17	0.35	8.53	17.92	6.82	14.32
92% o Gymru	5.53	6.51	7.61	0.98	2.07	49.02	103.7	39.21	82.96
Cymru Gyfan	6.45	7.60	8.88	1.15	2.43	57.54	121.7	46.03	97.30

+ Llinell sylfaen yn rhagdybio cydymffurfiaeth ag SSATO

Ar gyfer Cymru gyfan roedd amcangyfrifon o gapasiti storio slyri sylfaenol tua 6.5 miliwn m³ o'i gymharu gyda c.7.6 miliwn ar gyfer storio 5 mis a c.8.9 miliwn ar gyfer storio 6 mis gyda slyri gwartheg godro yn cyfrif am tua 85%, slyri gwartheg biff 15% a slyri moch yn llai nag 1% o gyfanswm y cyfeintiau. Amcangyfrifwyd bod cost y storfeydd ychwanegol rhwng 46 miliwn a 57 miliwn am 5 mis a £97 miliwn a £122 miliwn ar gyfer storio am 6 mis, yn y drefn honno (Tabl 0-8).

Amcangyfrifwyd bod costau'r gofyniad storio ychwanegol yn yr ardal PPN rhwng £6 miliwn ac £8 miliwn am 5 mis a £14 miliwn a £18 miliwn am storio am 6 mis yn y drefn honno. Ar gyfer yr ardal y tu allan i'r ardal PPN arfaethedig amcangyfrifwyd bod costau ychwanegol rhwng £39 miliwn a £49 miliwn am 5 mis ac £83 miliwn a £104 miliwn ar gyfer storio am 6 mis yn y drefn honno. Mae'r costau is sy'n gysylltiedig â gofynion ychwanegol yn yr ardaloedd hyn o gymharu â Chymru gyfan yn adlewyrchu'r nifer llai o anifeiliaid ac o ganlyniad yn lleihau cyfaint y slyri.

Gall dŵr ffo buarth a dŵr sy'n rhedeg o doeau wneud cyfraniad sylweddol at ofynion capasiti storio slyri, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir glaw trwm. Mae amcangyfrifon sylfaenol yn rhagdybio bod 50% o ardaloedd buarth budr wedi'u gorchuddio ac na wneir lwfans ar gyfer dŵr a gesglir o ardaloedd dan do. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dystiolaeth o arolwg arferion fferm Defra (2006) sy'n nodi bod

40% o fuarthau congrid heb eu gorchuddio a nododd Aitken et al. (2001) fod glawiad yn disgyn ar 65% o fuarthau a yn cynhyrchu dŵr ffo halogedig.

Mae'r tybiaethau hyn yn amcangyfrif bod dŵr ffo buarth yn cyfrannu tua 20% o gyfanswm y slyri blynyddol a gesglir. Cynhaliwyd amcangyfrifon pellach o gapasiti storio slyri a chostau cyfalaf gyda'r arwynebedd o fuarth budr dan do yn cynyddu i 75%. Amcangyfrifwyd y costau cyfalaf ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhoi toion ar y buarthau yn seiliedig ar gost o £80/m² (Nix, 2019; cadarnhawyd gan Charles Bentley, Pers Comm.) ac addaswyd y costau storio slyri i gyfrif am y gofyniad storio is. Cafodd y gostyngiad mewn costau taenu slyri o ganlyniad i'r elfen llai o ddŵr ffo o'r buarth ei fesur hefyd.

Amcangyfrifwyd bod costau cyfalaf cynyddu arwynebedd y buarth sydd o dan do o 50% i 75% yn £115 miliwn ar gyfer Cymru gyfan, £15 miliwn ar gyfer yr ardal PPN arfaethedig a £100 miliwn ar gyfer yr ardal y tu allan i'r PPN arfaethedig (Tabl 0-9). Gostyngodd y toi ychwanegol gost cyfalaf storio slyri am 5 mis ychwanegol o tua £15 miliwn i Gymru gyfan, tua £14 miliwn ar gyfer yr ardal y tu allan i'r PPN arfaethedig ac oddeutu £0.5 miliwn ar gyfer yr ardal PPN. Gostyngodd toi ychwanegol gost cyfalaf storio am 6 mis ychwanegol o tua £17 miliwn i Gymru gyfan, tua £15 miliwn ar gyfer yr ardal y tu allan i'r ardal PPN arfaethedig ac oddeutu £ 2 filiwn ar gyfer yr ardal PPN. Cynyddodd costau cyffredinol toi gostau cyfalaf storio am 6 mis o tua £97 miliwn ar gyfer Cymru gyfan, £83 miliwn ar gyfer yr ardal y tu allan i'r PPN arfaethedig ac oddeutu £14 miliwn ar gyfer yr ardal PPN arfaethedig. Cynyddodd toi gostau cyfalaf cyffredinol storio am 5 mis o tua £100 miliwn ar gyfer Cymru gyfan, £86 miliwn ar gyfer yr ardal y tu allan i'r PPN arfaethedig a £15miliwn yn yr ardal PPN arfaethedig. Gwrthbwydwyd y costau cyfalaf ychwanegol yn rhannol gan arbedion mewn costau taenu slyri blynyddol o £135k y flwyddyn yn yr ardal PPN arfaethedig, £900k y flwyddyn yn yr ardal y tu allan i'r ardal PPN arfaethedig a £1miliwn y flwyddyn ledled Cymru.

Tabl 0-9: Costau cyfalaf ar gyfer galluoedd storio slyri a chynyddu arwynebedd buarth wedi'i orchuddio i 75% (costau sy'n seiliedig ar gyfartaledd tanc tun a lagŵn â banciau daear)

Ardal	Capasiti 5 mis			Capasiti 6 mis		
	To	Storio	Cyfanswm	To	Storio	Cyfanswm
PPN	15	7	22	15	16	31
92% o Gymru	100	31	131	100	77	177
Cymru Gyfan	115	37	152	115	103	218

1.3.3 Dadansoddiad sensitifwydd o asesiadau cost a budd

Cyfrifwyd am yr ystod o gostau gweithredu a difrod posibl gyda dadansoddiad sensitifwydd. Cynhyrchwyd amcangyfrifon cost uchel, canolig ac isel ar gyfer y mesurau canlynol gyda'r costau mwyaf arwyddocaol a'r ansicrwydd mwyaf:

- Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel,
- Integreiddio cyflenwad maethynnau gwartaith a thail
- Peidio â gwasgaru gwartaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel
- Osgoi taenu gwartaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel

Fe wnaeth yr adolygiad o gostau difrod hefyd gynhyrchu amcangyfrif canolog a ffiniau uchaf ac isaf ar gyfer pob llygrydd. Felly, ystyriodd y dadansoddiad sensitifrwydd ganlyniadau defnyddio'r costau gweithredu uchel, canolig neu isel, a'r costau difrod uchel, canolig ac isel.

Ar gyfer y dadansoddiad ansicrwydd, cynrychiolwyd y costau uchel, canolig ac isel ar gyfer peidio â gwasgaru slyri a thail dofednod ar adegau risg uchel gan:

- Uchel: Cynyddu arwynebedd y buarth fudr dan do o 50% i 75% ac ailadeiladu 50% o storfeydd slyri i gynnal 6 mis o gynnyrch slyri
- Canolig: Cynyddu arwynebedd y buarth fudr dan do o 50% i 75% ac ymestyn y capasiti storio slyri o 4 i 6 mis
- Isel: Ymestyn y capasiti storio slyri o 4 i 6 mis.

Cynrychiolwyd y costau uchel, canolig ac isel ar gyfer cynyddu storio slyri gan:

- Uchel: Cynyddu arwynebedd y buarth fudr dan do o 50% i 75% ac ailadeiladu 50% o storfeydd slyri i gynnal 5 mis o gynnyrch slyri
- Canolig: Cynyddu arwynebedd y buarth fudr dan do o 50% i 75% ac ymestyn y capasiti storio slyri o 4 i 5 mis
- Isel: Ymestyn y capasiti storio slyri o 4 i 5 mis.

Ar gyfer integreiddio cyflenwad maeth gwrtaitaith a thail:

- Uchel: Dim ond nitrogen sydd ar gael i gnydau mewn tail y cyfrifir amdano
- Canolig: Cyfrifir am y nitrogen sydd ar gael i gnydau mewn tail, a 30% o'r P a'r K sydd ar gael
- Isel: Cyfrifir am yr holl N, P a K sydd ar gael

Ar gyfer Peidio â gwasgaru gwrtaitaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel:

- Uchel: ardaloedd yn meddiannu 10% o gaeau
- Canolig: ardaloedd yn meddiannu 5% o gaeau
- Isel: ardaloedd yn meddiannu 2% o gaeau

Ar gyfer Osgoi gwasgaru gwrtaitaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel

- Uchel: Colli 10% o gynnyrch yn digwydd 1 flwyddyn mewn 5
- Canolig: Colli 10% o gynnyrch yn digwydd 1 flwyddyn mewn 10
- Isel: Colli 10% o gynnyrch yn digwydd 1 flwyddyn mewn 15

1.4 ***Gorwelion amser a chyfradd ddisgowntio***

Asesir costau a manteision y senarios polisi dros gyfnod o 20 mlynedd (a dybir fel oes storfeydd slyri) o flwyddyn 2021 i flwyddyn 2040. Defnyddiwyd gwerth costau cyfalaf nad ydynt wedi'u hamorteiddio yng nghyfrifiadau'r GPN (Gwerth Presennol Net), gan dybio dim gwerth gweddilliol ar ddiwedd y cyfnod polisi 20 mlynedd.

Defnyddiwyd cyfradd ddisgowntio o 3.5% yn yr asesiad effaith hwn yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd EMT⁴ i amcangyfrif GPN costau a buddion gwahanol senarios polisi. Y flwyddyn gychwynnol yw 2021.


4

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/685903/The_Green_Book.pdf


2. Canlyniadau Modelu Opsiynau

2.1 Dosraniad ffynhonnell lygredig


Mae Ffigur 2-1 i Ffigur 2-4 yn dangos dosraniad colledion llygryddion amaethyddol cyfartalog blynyddol cenedlaethol a ragwelwyd gan Farmscoper, sy'n datgelu'r prif ffynonellau llygredd ac yn helpu i esbonio pam y gallai rhai mathau o fesurau fod â'r potensial i gyflawni effeithiau sylweddol neu beidio. Er enghraifft, mae gwrtaith yn ffynhonnell fwy o golledion nitradau nag ydyw o ffosfforws (18% o'i gymharu â 10%; Ffigur 2-1), felly mae gan fesurau sy'n targedu gwrtaith fwy o botensial i leihau colledion nitradau. Gallai mesurau sy'n rheoli colledion dŵr ffo gael mwy o effaith ar ffosfforws (lle mae dŵr ffo yn ffynhonnell 38% o'r colledion; Ffigur 2-3) na nitrad, lle maent yn cyfrannu 11% yn unig. Slyri yw ffynhonnell 14% o golledion nitradau, ond dim ond 6% o ffosfforws (Ffigur 2-4).




Ffigur 2-1 Dosrannu colledion llygryddion cyfartalog blynyddol cenedlaethol yn ôl ffynhonnell



Ffigur 2-2 Dosrannu colledion llygryddion cyfartalog blynyddol cenedlaethol yn ôl ardal



Ffigur 2-3 Dosrannu colledion llygryddion cyfartalog blynyddol cenedlaethol yn ôl llwybr



Ffigur 2-4 Dosrannu colledion llygryddion cyfartalog blynyddol cenedlaethol yn ôl math o ffynhonnell

2.2 Effeithiau Mesurau Unigol

2.2.1 Gostyngiadau Llygredd

Pan weithredir mesurau Opsiwn 2 yn unigol ledled Cymru gyfan, mae'r gostyngiadau canrannol yn y llwythi llygryddion amaethyddol cenedlaethol yn gymharol fach, llai tua 1% yn gyffredinol (Tabl 2-1). Peidio â gwasgaru slyri/tail dofednod ar adegau risg uchel sy'n cael yr effaith fwyaf, gyda gostyngiad o 3.6% ar golledion ffosfforws. Integreiddio cyflenwad maethynnau gwrtaitaith a thail a defnyddio argymhelliad gwrtaitaith sy'n cael yr effeithiau mwyaf ar allyriadau amonia ac ocsid nitraidd (gostyngiadau o 0.6-0.8%) oherwydd llai o ddefnydd o wrtaith. Mae peidio â thaenu tail buarth ar ardaloedd risg uchel yn cael effaith gyfyngedig ar raddfa genedlaethol oherwydd cyfraniad cymharol fach colledion tail achlysurol i gyfanswm y llwyth (Ffigur 2-4) a'r ffaith bod y tail yn dal i gael ei ddefnyddio rywle ar y fferm. Mae cynyddu capasiti storfeydd slyri ac osgoi taenu tail ar adegau risg uchel yn arwain at gynnydd mewn allyriadau amonia, er nad yw'r rhain mor fawr â'r arbedion a gyflawnwyd mewn mesurau eraill.

Ar gyfer mesurau Opsiwn 3, mae'r gostyngiadau (Tabl 2-2; a fynegir o'i gymharu â'r llwyth llygreddig yn yr ardal PPN arfaethedig) yn is na'r rhai a gyflawnwyd yn genedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu bod mwy yn gweithredu'r mesurau hyn ar hyn o bryd yn yr ardal PPN bresennol. Fodd bynnag, mae osgoi taenu slyri a thail dofednod ar adegau risg uchel yn cael ychydig mwy o effaith, gan adlewyrchu cyfraniad cynyddol y rhain fel ffynhonnell lygreddig yn yr ardal PPN.

Mae'r gostyngiadau a gyflawnwyd gan fesurau Opsiwn 4 yr un fath ag Opsiwn 2, ac eithrio Peidio â gwasgaru gwrtaitaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg

uchel ac Osgoi taenu gwrtaiith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel. Yn Opsiwn 4, dim ond o fewn yr ardal PPN arfaethedig y mae'r ddau fesur hyn yn gymwys, ac felly mae'r effaith ar lwythi llygryddion cenedlaethol yn fach iawn.

Mae Tabl 2-4 yn dangos effeithiau Opsiwn 2, ond fel gostyngiad canrannol yn y cyfraniad at y llwyth cenedlaethol o'r ffynhonnell sy'n cael ei thargedu (ee mynegir effaith defnyddio system argymhellion gwrtaiith fel canran o'r llwyth llygredig y gellir ei briodoli i wrteithiau). Mae Defnyddio system ar gyfer argymell gwrtaiith ac Integreiddio cyflenwad maethynnau gwrtaiith a thail yn lleihau colledion o wrtaiith tua 5%, llai ar gyfer ffosfforws gan fod y defnydd o wrtaiith ffosfforws eisoes yn isel heb fawr o le i leihau ymhellach. Mae gan Osgoi taenu gwrtaiith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel ostyngiad o 10% mewn ffosfforws, ond gostyngiad llawer llai mewn nitradau – y rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o'r gwrtaiith a gollir ar gyfer nitradau yn digwydd ar ôl y cynhaeaf ac felly mae'n llai sensitif i amseriad y gwasgaru. Mae peidio â gwasgaru slyri na thail buarth ar adegau risg uchel yn sicrhau mwy o ostyngiadau mewn colledion y gellir eu priodoli i dail ar gyfer ffosfforws na nitradau – y rheswm am hyn yw bod defnyddio tail yn arwain at golledion nitradau yn y blynyddoedd canlynol (oherwydd nitrogen organig yn y tail) ac nid yw'r colledion hyn yn sensitif i amseriad y gwasgaru.

Tabl 2-1: Newid canrannol mewn colledion llygryddion yn dilyn gweithredu'n llawn y mesurau unigol sy'n ofynnol gan Opsiwn 2, a fynegir o'i gymharu â cholledion ar gyfer Cymru gyfan o dan yr arfer presennol (%).

Mesur	Nitrad au	P	NH ₃ -N	N ₂ O
Defnyddio system argymell gwartaith	1.3	0.1	0.7	0.8
Integreiddio cyflenwad maethynnau gwartaith a thail	1.1	0.5	0.6	0.7
Peidio â gwasgaru gwartaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel	0.3	>0.1	0.3	0.3
Osgoi taenu gwartaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel (hyd at Ddiwedd mis Mawrth)	0.1	1.1	0.2	>0.1
Osgoi taenu gwartaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel (hyd at Ddiwedd mis Chwefror)	<0.1	0.5	0.1	<0.1
Cynyddu capasiti storffeydd slyri fferm er mwyn gwella amseriad y gwasgariadau slyri	*	*	-0.2	*
Peidio â gwasgaru tail ar ardaloedd risg uchel	<0.1	<0.1	0.0	<0.1
Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel	1.3	3.6	-0.1	0.1
Peidio â gwasgaru tail buarth ar gaeau ar adegau risg uchel	0.4	1.0	0.0	0.8

* Mae mwy o le storio slyri yn hwyluso newid amseriad defnyddio tail, felly mae effeithiau N, P a N₂O y mesur hwn wedi'u cynnwys o dan 'Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel'.

Tabl 2-2: Newid canrannol mewn colledion llygryddion yn dilyn gweithredu'n llawn y mesurau unigol sy'n ofynnol gan Opsiwn 3, a fynegir o'i gymharu â cholledion o dewn yr ardal PPN arfaethedig o dan yr arfer presennol (%).

Mesur	Nitrad au	P	NH ₃ -N	N ₂ O
Defnyddio system argymell gwartaith	0.7	0.1	0.4	0.5
Integreiddio cyflenwad maethynnau gwartaith a thail	0.7	0.3	0.3	0.5
Peidio â gwasgaru gwartaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel	0.2	<0.1	0.2	0.2
Osgoi taenu gwartaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel (hyd at Ddiwedd mis Mawrth)	0.1	0.9	0.2	<0.1
Osgoi taenu gwartaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel (hyd at Ddiwedd mis Chwefror)	<0.1	0.5	0.1	<0.1
Cynyddu capasiti storfeydd slyri fferm er mwyn gwella amseriad y gwasgariadau slyri	*	*	-0.3	*
Peidio â gwasgaru tail ar ardaloedd risg uchel	<0.1	<0.1	0.0	<0.1
Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel	1.7	3.1	-0.1	0.2
Peidio â gwasgaru tail buarth ar gaeau ar adegau risg uchel	0.3	1.2	0.0	1.0

* Mae mwy o le storio slyri yn hwyluso newid amseriad defnyddio tail, felly mae effeithiau N, P a N₂O y mesur hwn wedi'u cynnwys o dan 'Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel'.

Tabl 2-3: Newid canrannol mewn colledion llygryddion yn dilyn gweithredu'n llawn y mesurau unigol sy'n ofynnol gan Opsiwn 4, a fynegir o'i gymharu â cholledion ar gyfer Cymru gyfan o dan yr arfer presennol (%).

Mesur	Nitrad au	P	NH ₃ -N	N ₂ O
Defnyddio system argymell gwartaith	1.3	0.1	0.7	0.8
Integreiddio cyflenwad maethynnau gwartaith a thail	1.1	0.5	0.6	0.7
Peidio â gwasgaru gwartaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel (o fewn yr ardal PPN arfaethedig yn unig)	<0.1	<0.1	<0.1	<0.1
Osgoi gwasgaru gwartaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel (hyd at Ddiwedd mis Mawrth) (o fewn yr ardal PPN arfaethedig yn unig)	<0.1	<0.1	<0.1	<0.1
Osgoi gwasgaru gwartaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel (hyd at Ddiwedd mis Chwefror) (o fewn yr ardal PPN arfaethedig yn unig)	<0.1	<0.1	<0.1	<0.1
Cynyddu capasiti storfeydd slyri fferm er mwyn gwella amseriad y gwasgariadau slyri	*	*	-0.2	*
Peidio â gwasgaru tail ar ardaloedd risg uchel	<0.1	<0.1	0.0	<0.1
Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel	1.3	3.6	-0.1	0.1
Peidio â gwasgaru tail buarth ar gaeau ar adegau risg uchel	0.4	1.0	0.0	0.8

* Mae mwy o le storio slyri yn hwyluso newid amseriad defnyddio tail, felly mae effeithiau N, P a N₂O y mesur hwn wedi'u cynnwys o dan 'Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel'.

Tabl 2-4: Newid canrannol yn elfen y colledion llygryddion a dargedir gan bob mesur, yn dilyn gweithredu'n llawn y mesurau unigol sy'n ofynnol gan Opsiwn 2, a fynegir o'i gymharu â cholledion ar gyfer Cymru gyfan o dan yr arfer presennol (%).

Mesur	Elfen	Nitrad au	P	NH ₃ -N	N ₂ O
Defnyddio system argymell gwrtaith	Gwrtaith	6.9	1.3	6.7	6.8
Integreiddio cyflenwad maethynnau gwrtaith a thail	Gwrtaith	5.9	4.9	5.6	6.0
Peidio â gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel	Gwrtaith	1.9	0.4	2.6	2.4
Osgoi taenu gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel (hyd at Ddiwedd mis Mawrth)	Gwrtaith	0.6	10.0	2.0	0.1
Osgoi taenu gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel (hyd at Ddiwedd mis Chwefror)	Gwrtaith	0.3	2.0	1.0	<0.1
Cynyddu capasiti storfeydd slyri fferm er mwyn gwella amseriad y gwasgariadau slyri	Slyri	*	*	-1.5	*
Peidio â gwasgaru tail ar ardaloedd risg uchel	Tail	<0.1	0.2	0.0	<0.1
Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel	Slyri / Dofednod	8.2	50.0	-0.3	2.0
Peidio â gwasgaru tail buarth ar gaeau ar adegau risg uchel	Tail Buarth	2.9	15.9	0.0	12.4

* Mae mwy o le storio slyri yn hwyluso newid amseriad defnyddio tail, felly mae effeithiau N, P a N₂O y mesur hwn wedi'u cynnwys o dan 'Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel'.

2.2.2 Costau Gweithredu

Ar gyfer Opsiwn 2, mae'r mesur 'cynyddu capasiti storio slyri' (i 5 mis) yn gyfrifol am gynnydd mewn costau cyfalaf untro o'r llinell sylfaen o £52m i £311m (Tabl 2-5) oherwydd costau buddsoddi sy'n gysylltiedig ag ymestyn/adeiladu storfa slyri newydd (Adran 3.4.2), gyda'r ystod o gostau'n deillio o dybiaethau ynghylch gosod toion ar fuarthau a pha gyfran o storio y gellir ei hymestyn yn hytrach na'i hailadeiladu. Tybir bod angen storio 6 mis ar 'Peidio â gwasgaru slyri na thail dofednod ar adegau risg uchel', felly mae'r costau hyd yn oed yn uwch (hyd at £360m).

Arweiniodd 'Integreiddio gwrtaith a rheoli maethynnau tail' at gostau blynyddol is o rhwng £25miliwn a £5miliwn yn dibynnu a gyfrifir am werth NPK y tail neu'r gwerth N yn unig (gweler Adran 2.2.2). Arweiniodd defnyddio system argymell gwrtaith at lai o gostau gan adlewyrchu gwelliannau tybiedig yn effeithlonrwydd y defnydd o wrtaith. Mae'r holl fesurau eraill yn gysylltiedig â chostau blynyddol uwch – y mesurau mwyaf costus yw 'osgoi taenu gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar adegau risg uchel' ac 'osgoi taenu gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel' (cynnydd o £12.2 a £9.8m yn y drefn honno ar gyfer y senario cost Canolig), oherwydd y cosbau cynnyrch sy'n gysylltiedig â defnyddio mewnbynnau gwrtaith is-optimaid. Mae £7.5m o gostau cynllunio ymlaen llaw, gyda chost flynyddol o £4.3m i'r ffermydd hynny nad ydynt yn cadw cofnodion nac yn cynllunio o ran maethynnau ar hyn o bryd.

Mae'r costau ar gyfer Opsiwn 3 (Tabl 2-6) yn llawer is, gan adlewyrchu'r ardal lai y cymhwysir y mesurau iddi a'r ffaith bod gweithredu'r rhan fwyaf o fesurau yn uwch o fewn yr ardal PPN bresennol (ac felly tybir ei bod yn rhan o'r llinell sylfaen). Er hynny, gallai mwy o le storio slyri barhau i gostio dros £50m oherwydd y nifer fawr o wartheg yn yr ardal PPN arfaethedig.

Mae'r costau ar gyfer Opsiwn 4 (

Tabl 2-7) yr un fath ag Opsiwn 2 (Tabl 2-5), ac eithrio Peidio â gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel ac Osgoi taenu gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel, sydd ond yn berthnasol yn yr ardal PPN arfaethedig, ac felly mae'r costau'n unol â Tabl 2-6.

Tabl 2-5: Cost gweithredu ar gyfer gweithredu mesurau unigol yn llawn sy'n ofynnol gan Opsiwn 2 ledled Cymru gyfan, wedi'i fynegi mewn perthynas â'r arfer presennol. Ar gyfer rhai mesurau, cynhyrchwyd amcangyfrifon cost uchel, canolig ac isel, fel y disgrifir yn yr adrannau perthnasol.

Mesur	Ystod	Costau cyfalaf ymlaen llaw	Costau gweithredu blynyddol	Costau cynllunio untro
Defnyddio system argymell gwrtaith ¹	-	-	-£8.8m	-
Integreiddio cyflenwad maethynnau gwrtaith a thail ¹	Uchel	-	-£5.0m	-
	Canolig	-	-£11.0m	-
	Isel	-	-£25.0m	-
Peidio â gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar ardaloedd risg uchel ¹	Uchel	-	£19.6m	-
	Canolig	-	£9.8m	-
	Isel	-	£3.9	-
Osgoi gwasgaru gwrtaith a weithgynhyrchwyd ar gaeau ar adegau risg uchel (hyd at Ddiwedd mis Mawrth)	Uchel	-	£18.3m	-
- 1.4 Mae'r Rheoliadau'n nodi sut gall unigolyn wneud cais am drwydded i'r awdurdod lleol ac yn nodi'r materion y mae'n rhaid i awdurdod lleol fod yn fodlon yn eu cylch wrth ystyried rhoi neu adnewyddu trwydded. Mae'n galluogi awdurdod lleol i godi ffioedd i dalu am y costau y mae'n eu talu wrth gyflawni'r swyddogaeth hon ac ystyried cydymffurfriad deiliad trwydded â'r Rheoliadau hyn, yn ogystal â'r gwaith gorfodi a gweinyddu. Mae'n nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol ychwanegu amodau trwydded penodol at bob trwydded sy'n cael ei rhoi neu ei hadnewyddu. Mae'n datgan bod yn rhaid i awdurdod lleol benodi arolygydd pan fo'n ystyried bod hynny'n briodol, a hynny at y diben o sicrhau cydymffurfedd ag amodau'r drwydded. Mae'n mynnu bod awdurdod lleol yn ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn. Mae'n rhoi pwerau i arolygwyr gymryd samplau gan anifeiliaid.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents>

² <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6/14-15/35>

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Ar hyn o bryd, mae trydydd parti masnachol sy'n gwerthu anifeiliaid anwes yng Nghymru wedi'u trwyddedu o dan adran 1(1) o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951. Mae adran 13 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn bosibl diddymu Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 ac yn darparu'r pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer trwyddedu neu gofrestru gweithgareddau sy'n cynnwys anifeiliaid.
- 3.2 Mae Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 11 (Ffioedd) yn galluogi rheoliadau i gynnwys darpariaeth ar gyfer ffioedd mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r awdurdod lleol.
- 3.3 Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol priodol mewn perthynas â Chymru³. Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 13(2), (7), (8) a (10) o Rannau 1 a 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Anifeiliaid Anwes 2006⁴.
- 3.4 Yn unol ag adran 13(9) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r unigolion hynny sydd yn eu tyb hwy yn cynrychioli buddiannau y mae'r Rheoliadau hyn yn delio â hwy, fel y bo'n briodol yn eu barn hwy.
- 3.5 Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd.
- 3.6 Bydd y Rheoliadau yn debyg eu natur i Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019⁵ a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2020, gan wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cynnig cyflwyno deddfwriaeth i wahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach.

(3) Diffinnir yr "awdurdod cenedlaethol priodol" yn adran 62(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p. 45). Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i'r Ddeddf hon.

(4) 2006 p. 45.

⁵ Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019

- 4.2 Bydd y cynigion yn newid y trefniadau trwyddedu ar gyfer gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, sy'n cynnwys gwahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Mae codi safonau lles cyn uchod â phosibl ledled Cymru yn flaenoriaeth ac un o oblygiadau'r Rheoliadau newydd yw hyrwyddo bridio cyfrifol, a sicrhau bod cŵn a chathod bach yn cael eu bridio mewn amgylchiadau addas. Ni all gwaharddiad ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl broblemau sy'n gysylltiedig â masnachu cŵn bach. Bydd y gwaharddiad arfaethedig yn un rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig â chodi'r safonau lles mewn sefydliadau bridio cŵn, sy'n cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi.
- 4.3 Mae gwerthwyr anifeiliaid anwes trwyddedig yn gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol ac yn gyfreithlon: gall hyn fod yn siop anifeiliaid anwes traddodiadol, yn annedd ddomestig, yn ddelwyr sy'n gweithredu fel broceriaid rhwng bridwyr, neu fridwyr sy'n gwerthu cŵn bach o doreidiau nad ydynt wedi'u bridio eu hunain. Ar hyn o bryd yng Nghymru, rhaid iddynt ddal trwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.
- 4.4 Bydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn dirymu'r adran berthnasol o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 ac yn ei disodli â rheoliadau gweithgareddau anifeiliaid newydd yng Nghymru o'r enw Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021, a fydd yn darparu ar gyfer trwyddedu unigolion yng Nghymru sy'n rhan o'r broses o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, ac yn ei gwneud yn drosedd i drydydd partïon masnachol werthu cŵn a chathod bach o dan 6 mis oed.
- 4.5 Mae pryderon y gall gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol fod yn gysylltiedig ag amodau lles gwaelach i'r anifeiliaid o gymharu â phrynu'n uniongyrchol gan y bridiwr. Mae eu cyflwyno i nifer o amgylcheddau newydd ac anghyfarwydd, a'r tebygolrwydd uwch o orfod gwneud mwy nag un siwrnai, yn gallu cyfrannu at risg uwch o glefyd a diffyg cymdeithasoli a chynefino i'r cŵn a chathod bach.
- 4.6 Mae'r Rheoliadau'n cael eu drafftio fel cam cyntaf tuag at sicrhau bod lles cŵn a chathod bach yng Nghymru, sydd ar hyn o bryd yn cael eu bridio â'u gwerthu i drydydd partïon, yn cael ei wella'n sylweddol drwy ddim ond cael eu gwerthu'n uniongyrchol i'r perchennog newydd gan y bridiwr. Dylai'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwerthu anifeiliaid anwes adlewyrchu'r arferion gorau. Mae caniatáu i drydydd partïon masnachol werthu cŵn a chathod bach yn golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, na fydd y prynwyr yn gweld y ci neu'r gath fach yn rhyngweithio â'r fam neu'r brodyr a chwiorydd, na'r amodau y maent wedi'u bridio ynddynt.

Hefyd, bydd y Rheoliadau newydd yn:

- Cysoni'r broses drwyddedu â Gweinyddiaethau eraill. Pwrpas hyn yw sicrhau nad oes unrhyw anghysondeb rhwng y Gweinyddiaethau lle bydd rhai bridwyr yn croesi'r ffin o bosibl i osgoi'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ranbarth.
- Darparu cyfleoedd yn y dyfodol i gynnwys sefydliadau lles anifeiliaid trwyddedig gan gynnwys, ymysg eraill, stablau ceffylau ac ysgolion marchogaeth.
- Darparu mecanwaith deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014⁶ yn y dyfodol.

4.7 Bydd y Rheoliadau yn debyg eu natur i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019⁷ a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2020, gan wahardd trydydd partiön rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Nid yw Rheoliadau Lloegr yn atal bridwyr yn Lloegr rhag gwerthu cŵn a chathod bach i werthwyr trydydd parti yng Nghymru. Bydd cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd hon yn atal gwerthwyr trydydd parti sy'n bodoli eisoes yng Nghymru rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Bydd hefyd yn atal gwerthwyr trydydd parti yn y dyfodol ac yn darparu cyfle i atal bridwyr a broceriaid yn Lloegr rhag parhau i werthu yng Nghymru. Mae'r Alban yn dwyn deddfwriaeth ymlaen ar y mater hwn hefyd.

4.8 Mae Adroddiad 2016 Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 'Animal Welfare in England: Domestic Pets'⁸ yn datgan:

“Responsible breeders would never sell through a pet shop licence holder. The process of selling through a third party seller has an unavoidable negative impact upon the welfare of puppies. It also distances the purchaser from the environment in which their puppy was bred. Banning third party sales so that the public bought directly from breeders would bring public scrutiny to bear on breeders, thereby improving the welfare conditions of puppies. It would also bring a positive financial impact to breeders, allowing them to retain money that is currently lost in the supply chain. We acknowledge that difficulties of public access, due to a rural location, security issues and diseases, may be challenging for some breeders. On balance, however, we consider it is more important that animal welfare standards are ensured across all breeders. (Paragraff 90)

“We recommend that the Government ban third party sales of dogs. Dogs should only be available from licensed, regulated breeders or approved rehoming.” organisations.” (Paragraff 91)

4.9 Yn Lloegr, cafodd deiseb a oedd yn gysylltiedig ag ymgyrch Lucy's Law dros 100,000 o lofnodion a chafodd ei thrafod yn Senedd y DU ar 21

⁶ <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/3266/contents/made>

⁷ <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111186954>

⁸ <https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmenvfru/117/117.pdf>

Mai 2018. Roedd ymgyrch Lucy's Law yn galw am waharddiad ar unwaith ar werthiant cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a delwyr trydydd parti masnachol eraill. Roedd yr ymgyrchwyr yn hawlio bod rheoleiddio gwerthiannau trydydd parti masnachol yn aneffeithiol o ran atal niwed, ac felly bod yn rhaid gwahardd.

- 4.10 Gofynnwyd i awdurdodau lleol ledled y DU ymrwmo i egwyddorion Lucy's Law. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ledled y DU ymrwmo i egwyddorion Lucy's Law a chafwyd cefnogaeth eang gan awdurdodau lleol yng Nghymru.
- 4.11 Ym mis Chwefror 2018, lansiodd DEFRA Gais am Dystiolaeth ar gyfer gwahardd trydydd partiön rhag gwerthu cŵn a chathod bach yn Lloegr. Cafodd dros 300 o ymatebion ac roedd tua 70% o blaid gwaharddiad.
- 4.12 Cafodd ymarfer ymgynghori DEFRA ar wahardd trydydd partiön masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach 6,854 o ymatebion yn ystod ei bedair wythnos (22 Awst - 19 Medi 2018). Roedd y mwyafrif helaeth o blaid gwaharddiad.
- 4.12 Bron o'r adeg y cyhoeddodd DEFRA ei bod yn bwriadu gwahardd trydydd partiön rhag gwerthu cŵn a chathod bach, mae Aelodau'r Cynulliad/Senedd wedi lobïo, deisebu a gofyn dro ar ôl tro i Lywodraeth Cymru pa bryd fyddai Cymru'n cyflwyno gwaharddiad. Rhwng mis Mai 2018 a mis Rhagfyr 2019, cafodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig 74 darn o ohebiaeth. Cafodd 63 yn 2020. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig hefyd wedi mynegi cefnogaeth lwyr ar gyfer dwyn y newidiadau deddfwriaethol gofynnol ymlaen.
- 4.14 Cafodd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) 2018 eu diwygio (Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019) i gynnwys gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön masnachol. Daeth y gwaharddiad i rym ar 6 Ebrill 2020.
- 4.15 Yn ei datganiad llafar ar 19 Mehefin 2018, ymrwymodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, i ymchwilio i werthiannau trydydd parti yng Nghymru. Lansiodd ymgynghoriad ar effaith gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön yn gynnar yn 2019. Cafodd ymgynghoriad terfynol ei gynnal yn 2020.
- 4.16 Mae ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a DEFRA ill dau wedi dangos cefnogaeth eang ar gyfer gwahardd trydydd partiön rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Fodd bynnag, yng Nghymru, ystyrir mai dim ond un o'r camau angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod mewn safleoedd bridio yw gwaharddiad. Bydd y cyfuniad o reoliadau newydd ar werthu anifeiliaid anwes a phrosiect tair blynedd wedi'i ariannu gan

Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi; rhagor o hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol i wella'r gwaith o orfodi a chyflawni Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014⁹ yn arwain at welliannau parhaus i safonau lles cŵn bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru.

- 4.17 Bydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn dirymu'r adran berthnasol o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 ac yn ei disodli â rheoliadau newydd ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys anifeiliaid yng Nghymru. Bydd y Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer trwyddedu unigolion yng Nghymru sy'n rhan o'r broses o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, ac yn ei gwneud yn drosedd i drydydd partion masnachol werthu cŵn a chathod bach o dan 6 mis oed.
- 4.18 Bydd proses drwyddedu newydd o dan y Rheoliadau yn gwella lles cŵn a chathod bach, a chŵn a chathod sy'n cael eu defnyddio ar gyfer bridio, gan gysoni'r broses drwyddedu â Gweinyddiaethau eraill. Pwrpas hyn yw sicrhau cyn lleied o anghysondebau â phosibl rhwng y Gweinyddiaethau lle bydd rhai bridwyr yn croesi'r ffin o bosibl i osgoi'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i wlad.
- 4.19 Hefyd, bydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn darparu mecanwaith ar gyfer newidiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 yn y dyfodol, a chyfle i gynnwys sefydliadau lles anifeiliaid trwyddedig eraill yn y dyfodol gan gynnwys, ymysg eraill, stablau ceffylau ac ysgolion marchogaeth.

5. Ymgynghori

Mae manylion gweithgareddau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar gael yn Rhan 2 o'r ddogfen hon o dan ystyriaethau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

⁹ <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/3266/contents/made>

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Sail resymegol dros ymyrryd a'r effeithiau bwriadedig

- 5.1 Yn 2019, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn archwilio'r dystiolaeth ynghylch pa bryd dylai'r Llywodraeth ymyrryd mewn safleoedd bridio er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â lles anifeiliaid. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth eang ar gyfer gwahardd trydydd partion rhag gwerthu cŵn a chathod bach.
- 5.2 Ystyrir mai dim ond y cam cyntaf angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod, a'u hepil, yw gwaharddiad. Bydd y cyfuniad o Reoliadau newydd ar werthu anifeiliaid anwes a phrosiect tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi; rhagor o hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol i wella'r gwaith o orfodi a chyflawni'r Rheoliadau Bridio cyfredol yn arwain at welliannau parhaus i safonau lles cŵn bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru.
- 5.3 O dan y rheolau cyfredol, mae'n bosibl i rywun werthu cŵn bach a/neu gathod bach yng Nghymru, yng nghwrs busnes, heb fod wedi eu bridio ei hun. Gwerthiant masnachol gan drydydd parti yw enw gwerthiannau o'r fath. Mae Adroddiad 2016 Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 'Animal Welfare in England: Domestic pets' yn tynnu sylw at y problemau sy'n gysylltiedig â gwerthu drwy werthwr trydydd parti, gan wneud sylw ar yr effaith niweidiol anochel ar les cŵn bach a phellter y prynwr oddi wrth yr amgylchedd lle cafodd y ci bach ei fridio. Mae hefyd yn nodi y byddai gwahardd gwerthiannau trydydd parti, er mwyn i'r cyhoedd brynu'n uniongyrchol gan y bridwr, yn arwain at graffu ar fridwyr ac felly'n gwella amodau lles cŵn bach. Mae cyfiawnhad dros Lywodraeth Cymru yn ymyrryd i godi safonau lles.
- 5.4 Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn yr is-ddeddfwriaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

6. Opsiynau

Opsiynau

Opsiynau polisi a ystyriwyd, gan gynnwys dewisiadau ar wahân i reoleiddio

Dyma'r opsiynau a ystyriwyd:

1. Gwneud dim (sylfaenol) – Cadw'r status quo, hy busnes fel arfer.
2. Cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru a fyddai'n caniatáu i werthwyr trydydd parti masnachol barhau i werthu cŵn a chathod bach yn amodol ar amodau penodol.
3. Cyflwyno gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol yng Nghymru.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Busnes fel arfer – caniatáu i werthwyr trydydd parti masnachol barhau i werthu cŵn a chathod bach

- 7.1 Hwn yw'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.
- 7.2 Ni fyddai busnes fel arfer yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau lles uchel i'r holl anifeiliaid a gedwir yng Nghymru drwy gydol eu hoes.
- 7.3 Er byddai'r dull gweithredu 'gwneud dim' yn niwtral o ran cost i werthwyr trydydd parti masnachol ac yn golygu dim newidiadau i awdurdodau lleol, mae'n glir bod y status quo yn ddull gweithredu annigonol ar gyfer codi a gorfodi safonau lles cŵn a chathod bach sy'n cael eu gwerthu yng Nghymru. Byddai hefyd yn golygu bod Cymru'n debygol o weld cynnydd yn nifer y cŵn a chathod bach sy'n cael eu gwerthu drwy werthwyr trydydd parti yng Nghymru a/neu yn nifer y siopau anifeiliaid anwes sy'n cael eu sefydlu, oherwydd mae'r gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol a ddaeth i rym yn Lloegr ar 6 Ebrill 2020 yn nodi y gellir gwerthu cŵn a chathod bach i werthwyr trydydd parti yng Nghymru.
- 7.4 Mae'r Alban yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i wahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol hefyd, a allai adael Cymru mewn sefyllfa fregus.

- 7.5 Bydd y drefn drwyddedu sy'n bodoli eisoes yn parhau. Caiff trwyddedau eu cyhoeddi/adnewyddu yn flynyddol yn dilyn arolygiad.
- 7.6 I awdurdodau lleol, mae Rheoliad 12 Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021 yn caniatáu iddynt godi'r ffioedd y maent yn eu credu sy'n angenrheidiol i ystyried cais am drwydded, neu am adnewyddu neu amrywio trwydded, gan gynnwys unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyriaeth honno ac ar gyfer y broses o roi, adnewyddu neu amrywio trwydded. Hefyd, gellir codi ffioedd am gostau disgwylidig rhesymol ystyried cydymffurfedd deiliad trwydded â'r Rheoliadau a'r amodau trwydded y mae'r deiliad trwydded yn rhwym iddynt mewn amgylchiadau ar wahân i'r rhai a ddisgrifir yn y Rheoliadau, gan gynnwys unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyriaeth honno; am gostau disgwylidig rhesymol darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru yn unol â Rheoliad 30; ac am gostau disgwylidig rhesymol gorfodi mewn cysylltiad â gweithgareddau trwyddedadwy perchennog siop anifeiliaid anwes heb drwydded. Er na chaiff y ffioedd fod yn fwy na chostau rhesymol ystyried y pwyntiau a amlinellir yn y paragraff hwn, dylai'r Rheoliadau ganiatáu i unrhyw gamau gorfodi fod yn niwtral o ran cost.

Opsion 2: Cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru a fyddai'n caniatáu i werthwyr trydydd parti masnachol barhau i werthu cŵn a chathod bach yn amodol ar amodau penodol.

- 7.7 Byddai'r opsiwn hwn yn cael yr un effaith ag Opsiwn 1, 'Gwneud dim'. Byddai'n niwtral o ran cost oherwydd mae deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn caniatáu i awdurdodau lleol ychwanegu amodau ar gyfer deiliaid trwydded. Nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni'r ymrwymiad i sicrhau safonau lles uchel i'r holl anifeiliaid a gedwir yng Nghymru drwy gydol eu hoes.
- 7.8 Roedd yr ymgyrchwyr dros Lucy's Law yn credu bod rheoleiddio gwerthiannau trydydd parti masnachol yn aneffeithiol o ran atal niwed, ac felly bod yn rhaid gwahardd.
- 7.9 Nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried ymhellach.

Opsion 3: Gwahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partion masnachol

- 7.10 Mae'r opsiwn hwn yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau lles uchel i'r holl anifeiliaid a gedwir yng Nghymru drwy gydol eu hoes.
- 7.11 Mae 115 o siopau anifeiliaid anwes trwyddedig yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae 10 o'r rhain yn dal trwyddedau sy'n caniatáu iddynt werthu cŵn a chathod bach. Mae llawer o broblemau yn gysylltiedig â

gwerthiannau trydydd parti masnachol, gan gynnwys amodau lles gwael, trawma cludiant, cael eu gwahanu oddi wrth y fam yn rhy gynnar, diffyg cymdeithasoli, safonau iechyd a hylendid gwael, a diffyg sgrinio meddygol i geist sy'n bridio a chŵn magu. Mae'r holl bethau hyn yn ei gwneud yn bosibl y bydd cŵn bach yn cael clefydau a chyflyrau etifeddol nychus, eu bod yn agored i glefydau sy'n peryglu bywyd, bod ganddynt broblemau o ran ymddygiad, a diffyg cymdeithasoli. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partion masnachol yn awgrymu cefnogaeth lethol ar gyfer gwaharddiad.

- 7.12 Ystyrir mai dim ond y cam cyntaf angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod, a'u hepil, yw gwaharddiad. Bydd y cyfuniad o Reoliadau newydd ar werthu anifeiliaid anwes a phrosiect tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi; rhagor o hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol i wella'r gwaith o orfodi a chyflawni'r Rheoliadau Bridio cyfredol yn arwain at welliannau parhaus i safonau lles cŵn bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru.
- 7.13 Byddai'r Rheoliadau newydd yn diddymu ac yn disodli Deddf Anifeiliaid Anwes 1951, ac yn parhau i ganiatáu i awdurdodau lleol godi'r ffioedd y maent yn eu credu sy'n angenrheidiol i ystyried cais am drwydded, neu am adnewyddu neu amrywio trwydded sy'n caniatáu gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes. Gellir hefyd codi ffioedd am gostau disgwylidig rhesymol ystyried cydymffurfedd deiliad trwydded â'r Rheoliadau ac amodau'r drwydded.

Asesiad o'r effaith ar fusnes

- 7.14 Mewn sawl ffordd, mae'r farchnad cŵn bach yn gymhleth ac mae'r ddealltwriaeth ohoni'n wael. Mae galw uchel am gŵn bach – tua 750,000 o gŵn bach y flwyddyn ar draws y DU, a thua 55,000 yng Nghymru. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos bod gwerthiannau gan werthwyr trydydd parti trwyddedig yn cyfrif am gyfran isel o'r gwerthiannau cŵn bach yn gyffredinol. Mae nifer sylweddol, os nad mwyafrif, o'r cŵn bach hyn yn cael eu bridio gan fridwyr swm isel sy'n gweithredu'n gwbl annibynnol ar ei gilydd ac yn gwerthu o eiddo domestig.
- 7.15 Amcangyfrifir y byddai gwaharddiad yn cynhyrchu cost rhwng £2.0m a £3.6m y flwyddyn i werthwyr trydydd parti masnachol yng Nghymru, oherwydd byddent yn colli'r elw byddent wedi parhau i'w wneud drwy werthiannau trydydd parti yn absenoldeb gwaharddiad. Mae'n debygol y byddai'r gwaharddiad hefyd yn effeithio ar fridwyr sy'n gwerthu drwy werthwyr trydydd parti ar hyn o bryd.
- 7.16 Rydym wedi tybio na fyddai cyfran o'r bridwyr hyn yn gallu parhau i weithredu o ganlyniad i waharddiad ar werthiannau trydydd parti; felly,

gallai'r gost uniongyrchol flynyddol iddynt fod rhwng £75,000 a £130,000 drwy golli elw yn y dyfodol. Byddai bridwyr sy'n aros yn y farchnad yn gorfod gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr, yn hytrach na gwerthu drwy werthwyr trydydd parti. Rydym yn rhag-weld y byddai eu helw'n cynyddu oherwydd byddent yn gallu gwerthu eu cŵn a'u cathod bach ar gyfradd y farchnad, yn hytrach na chyfradd ddisgownt. Rydym yn amcangyfrif mantais uniongyrchol flynyddol o rhwng £1.4m a £2.6m i fridwyr.

7.17 Yn ogystal â hynny, gallai cyfran marchnad y bridwyr sy'n gadael y farchnad gael ei chymryd gan fridwyr domestig eraill, ac mae'n bosibl y bydd bridwyr domestig hefyd yn cymryd y gyfran marchnad a oedd arfer bod yn gysylltiedig â chŵn a chathod bach wedi'u mewnforio, a oedd yn cael eu gwerthu gan werthwyr trydydd parti. Mae'r effeithiau hyn wedi cael eu dosbarthu fel manteision anuniongyrchol ac nid oes gwerth ariannol wedi'i bennu iddynt ar hyn o bryd.

Lefel ddisgwyliedig yr effaith ar fusnes

7.18 Mae'r tabl isod yn dangos yr effeithiau disgwyliedig ar fusnesau mewn cysylltiad ag opsiwn 3, o'i gymharu â'r opsiwn sylfaenol (opsiwn 1 – gwneud dim).

Effeithiau disgwyliedig Opsiwn 3 o'i gymharu â'r opsiwn sylfaenol (Opsiw 1 – Gwneud Dim).		
Cost i werthwyr trydydd parti	Ni fyddent yn gallu parhau i werthu cŵn a chathod bach heb eu bridio, felly byddent yn colli'r elw maent yn ei gael drwy werthiannau trydydd parti ar hyn o bryd	Cost flynyddol rhwng £2.0m a £3.6m. (effaith uniongyrchol)
Cost i fridwyr	Mae'n bosibl y bydd rhai bridwyr yn gadael y farchnad os nad ydynt yn gallu parhau i werthu i drydydd parti.	Cost flynyddol rhwng £75,000 a £130,000. (effaith uniongyrchol)
Mantais i fridwyr	Drwy werthu'r anifeiliaid yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, mae disgwyl i fridwyr gael refeniw uwch (oherwydd ni fyddant yn rhannu'r elw â thrydydd partion mwyach).	Mantais flynyddol rhwng £1.4m a £2.6m (effaith uniongyrchol)
Mantais i fridwyr	Mae'n bosibl y bydd rhai bridwyr yn cymryd cyfran marchnad bridwyr eraill sy'n gadael y farchnad, yn ogystal â'r gyfran marchnad a oedd arfer cael ei dal gan anifeiliaid wedi'u mewnforio a oedd yn cael eu gwerthu gan werthwyr trydydd parti.	Mantais flynyddol heb ei mesur (effaith anuniongyrchol)

- 7.19 Mae cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch maint yr effeithiau hyn. Cyfyngedig yw'r data sydd ar gael ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön. I fesur yr effeithiau hyn rydym wedi defnyddio tystiolaeth gan nifer o ffynonellau, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd gan DEFRA drwy Gais am Dystiolaeth – i geisio asesu hyd a lled y fasnach ar hyn o bryd, maint yr effeithiau a nifer y busnesau yr effeithir arnynt, ond mae llawer o fylchau yn y dystiolaeth, yn enwedig ar gyfer cathod bach.
- 7.20 Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr RSPCA mewn ymateb i Gais DEFRA am Dystiolaeth yn amcangyfrif bod rhwng 40,000 ac 80,000 o gŵn bach wedi cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti ym Mhrydain bob blwyddyn (cyn y gwaharddiad yn Lloegr).
- 7.21 I ddosrannu'r ffigurau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r data rhanbarthol diweddaraf a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Gweithgynhyrchwyr Bwydydd Anifeiliaid Anwes y DU (UK PFMA)¹⁰ sy'n dangos bod tua 7.4% o boblogaeth cŵn Prydain yn byw yng Nghymru. Yn seiliedig ar hynny, rydym yn amcangyfrif bod rhwng 3,000 a 6,000 o gŵn bach yn cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'r amcangyfrif o nifer y cŵn bach sy'n cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti yng Nghymru bob blwyddyn yn cael effaith sylweddol ar hyd a lled effaith y Rheoliadau ar werthwyr a bridwyr. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch nifer y gwerthiannau trydydd parti, rydym wedi cynnal dadansoddiad o sensitifrwydd sy'n edrych ar effaith newid y newidyn hwn. Mae'r dadansoddiad o sensitifrwydd ar dudalen 17.
- 7.22 Mae data gan UK PFMA¹¹ yn dangos bod tua 596,000 o gathod yn byw yng Nghymru yn 2018. Gan bennu mai cyfartaledd oes cath yw tua 14 mlynedd a thybio bod y boblogaeth cathod yn aros yn eithaf sefydlog, mae hyn yn awgrymu y bydd 42,500 o gathod bach yn cael eu gwerthu yng Nghymru bob blwyddyn. Credir bod cyfran y cathod bach sy'n cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti yn is nag y mae ar gyfer cŵn bach. Heb dystiolaeth gadarn, rydym wedi tybio bod 3% o gathod bach, neu tua 1,300, yn cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti bob blwyddyn.
- 7.23 Mae'r adrannau canlynol yn nodi sut mae'r amcangyfrifon o'r costau wedi cael eu cyfrifo.

Cost i werthwyr trydydd parti yng Nghymru (gweler y Dadansoddiad o Sensitifrwydd yn 7.40 hefyd)

- 7.24 Bydd cost i werthwyr trydydd parti oherwydd mae'r gwaharddiad yn golygu y byddant yn colli'r elw o werthiant unrhyw gŵn neu gathod bach nad ydynt wedi'u bridio.

¹⁰ <https://www.pfma.org.uk/dog-population-2018>

¹¹ <https://www.pfma.org.uk/cat-population-2018>

- 7.25 Mae gwerth ci bach wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 2020. Mae'r cyfyngiadau symud a gyflwynwyd ar draws y DU i helpu i fynd i'r afael â'r coronafeirws wedi creu cynnydd mawr yn y galw. Mae data o wefan Pets4homes yn awgrymu mai £1,875 oedd pris cyfartalog ci bach yn 2020. Mae hyn yn fwy na dwbl y pris a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod cyfatebol yn 2019 (£810).
- 7.26 Nid yw'n glir a fydd y prisiau uwch yn parhau. Mae brechlynnau Covid-19 yn cael eu cyflwyno bellach a'r gobaith yw na fydd angen yn y dyfodol am gyfyngiadau symud cenedlaethol fel y gwelwyd yn 2020 ac ar ddechrau'r flwyddyn hon. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn rhag-weld y bydd y galw am gŵn bach a'u pris yn dychwelyd i'r lefelau cyn y cyfyngiadau symud (caiff hyn ei ystyried ymhellach yn y dadansoddiad o sensitifrwydd). Felly, mae'r cyfrifiadau canlynol yn sail ar gost gyfartalog ci bach yn 2019, sef £810. Mae defnyddio'r gwerth cyfartalog hwn ar gyfer yr amcangyfrif o nifer y cŵn bach sy'n cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti yng Nghymru bob blwyddyn yn rhoi amrediad o'r refeniw blynyddol, sef rhwng £2.4m a £4.8m.
- 7.27 Fel y nodir uchod, rydym yn amcangyfrif bod tua 1,300 o gathod bach yn cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti yng Nghymru bob blwyddyn. Ar sail gwefan Pets4homes, rydym wedi tybio mai £480 yw pris cyfartalog cath fach. Felly, amcangyfrifir mai £0.6m yw'r refeniw a gynhyrchir drwy werthiant cathod bach gan drydydd partion yng Nghymru bob blwyddyn.
- 7.28 At ei gilydd, amcangyfrifir bod y refeniw blynyddol a gynhyrchir drwy werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partion yng Nghymru rhwng £3.0m a £5.4m.
- 7.29 I amcangyfrif cost y gwaharddiad i werthwyr trydydd parti, mae'n rhaid inni ddeall sut mae'r refeniw o werthiannau trydydd parti yn cael ei rannu rhwng y gwerthwyr a'r bridwyr, a hefyd y costau sy'n cael eu talu gan werthwyr trydydd parti cyn gwerthu. Cyfyngedig yw'r dystiolaeth ar rannu refeniw rhwng gwerthwyr a bridwyr.
- 7.30 Mae adroddiad Canine Action 2016¹² yn datgan bod bridwyr yng Nghymru a ymatebodd i ymgynghoriad trwyddedu Cymru yn 2011 wedi dweud bod tua 60% o werth gwerthiant yn mynd i werthwyr trydydd parti. Roedd adroddiad gan Lywodraeth yr Alban yn 2017¹³ yn cynnwys astudiaeth achos a oedd yn dangos bod gwerthwyr trydydd parti yn y DU a oedd yn gwerthu cŵn bach wedi'u mewnfario o lwerddon yn cael tua 86% o refeniw'r gwerthiant. Mae defnyddio cyfartaledd y ddau adroddiad hyn yn golygu mai 73% yw'r amcangyfrif canolog o gyfran gwerthwyr trydydd parti o'r refeniw. Heb unrhyw dystiolaeth amgen,

12 <https://cariadcampaign.files.wordpress.com/2016/05/licensed-third-party-puppy-vending-in-gb-20164.pdf>

13 <http://www.gov.scot/Publications/2017/11/1736/347297>

tybir yr un rhaniad refeniw ar gyfer gwerthiant cathod bach gan drydydd partion.

7.31 Yn seiliedig ar hyn, amcangyfrifir bod cyfran y gwerthwr o refeniw gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partion rhwng £2.2m a £4.0m y flwyddyn.

7.32 Byddai disgwyl i werthwyr trydydd parti dalu rhywfaint o gostau yn y cyfnod rhwng cael cŵn a chathod bach gan eu bridiwr a'r pwynt gwerthu (er enghraifft ar gyfer bwyd a llety). Yr amcangyfrif o'r costau hyn yw £50 fesul ci bach a £35 fesul cath fath. Gan ystyried y costau hyn, yr amcangyfrif o'r elw y bydd gwerthwyr trydydd parti yn ei golli o ganlyniad i'r gwaharddiad yw rhwng £2.0m a £3.6m y flwyddyn.

Cost i fridwyr

7.33 Ni fydd gwaharddiad ar werthiant trydydd parti o reidrwydd yn gorfodi bridwyr sy'n gwerthu drwy drydydd parti ar hyn o bryd allan o fusnes. Mae disgwyl i gyfran uchel o'r bridwyr hyn ddewis parhau i fridio a gwerthu'r cŵn bach a/neu'r cathod bach i ddefnyddwyr yn uniongyrchol. Fodd bynnag, am amrywiaeth o resymau (fel materion yn ymwneud â lleoliad neu ddiogelwch), ni fydd hyn yn opsiwn i'r holl fridwyr. Roedd adroddiad Canine Action 2016 yn ystyried a fyddai lleoliad gwledig yng Nghymru yn rhwystr i werthu uniongyrchol, a chanfu fod 89% o fridwyr a oedd yn gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti wedi'u lleoli mewn ardaloedd post lle dylai hi fod yn bosibl gwerthu'n uniongyrchol. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar fridwyr mewn un ardal wledig yng Nghymru ac nid yw'n ystyried ffactorau ar wahân i lleoliad (ee diogelwch). At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi tybio y bydd 20% o fridwyr sy'n gwerthu drwy drydydd parti ar hyn o bryd yn gorfod gadael y farchnad os cyflwynir gwaharddiad. Mae'r dybiaeth hon yn cael ei hystyried ymhellach yn y dadansoddiad o sensitifrwydd.

7.34 Roeddem yn amcangyfrif uchod bod 73% o refeniw gwerthiant cŵn a chathod bach drwy drydydd partion yn mynd i'r gwerthwr, gan adael 27% o'r refeniw i'r bridwyr. Fodd bynnag, ni fydd yr holl gŵn a chathod bach sy'n cael eu gwerthu yng Nghymru drwy werthwr trydydd parti wedi cael eu bridio yng Nghymru, na'r DU hyd yn oed. Mae effaith gwaharddiad ar fridwyr o dramor y tu allan i gwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ac felly mae angen addasu'r ffigurau refeniw i adlewyrchu hyn. Canfu adroddiad Canine Action 2016¹⁴ fod tua 12% o siopau anifeiliaid anwes yn mewnforio cŵn bach o dramor. Roedd adroddiadau yn ystod cyfyngiadau symud 2020 o gynnydd yn nifer y cŵn bach sy'n cael eu mewnforio i'r DU ond heb dystiolaeth gadarn o hyn, mae'r ffigur 12% wedi cael ei ddefnyddio. Credir bod nifer y cathod bach sy'n cael eu mewnforio i'r DU i'w gwerthu yn sylweddol is, felly

14 <https://cariadcampaign.files.wordpress.com/2016/05/licensed-third-party-puppy-vending-in-gb-20164.pdf>

mae ffigur o 2% wedi cael ei ddefnyddio. Felly, amcangyfrifir mai rhwng £0.7m a £1.3m yw refeniw bridwyr yn y DU o werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön.

7.35 Gan dybio y bydd 20% o fridwyr yn y DU yn gadael y farchnad ac yn colli refeniw o ganlyniad i'r gwaharddiad, rydym yn amcangyfrif colled o rhwng £145,000 a £260,000 mewn refeniw gwerthiant i fridwyr yn y DU. I gyfrifo'r golled mewn elw, mae angen inni ystyried y costau mae'r bridwyr yn eu talu. Heb dystiolaeth amgen, tybir bod elw bridwyr yn 50% o'r refeniw maent yn ei gael drwy werthiannau trydydd parti. Yn seiliedig ar hyn, amcangyfrifir mai rhwng £75,000 a £130,000 yw cost (colled mewn elw) gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti i fridwyr yn y DU. O ystyried bod nifer uchel o fridwyr cŵn bach y DU wedi'u lleoli yng Nghymru, bydd llawer o'r gost hon yn berthnasol i fusnesau yng Nghymru.

7.36 Mae'n anodd gwneud tybiaethau ynghylch pa mor debygol yw hi y bydd bridwyr yng Nghymru yn lleihau eu stoc bridio neu'n rhoi'r gorau i fasnachu'n gyfan gwbl o ganlyniad i waharddiad ar werthiannau trydydd parti. Nid oes ffigurau cyfredol ar sawl ci bach sy'n cael eu gwerthu drwy drydydd parti gan fridwyr yng Nghymru. Mae'n bosibl y byddai'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti yn Lloegr wedi darparu rhywfaint o wybodaeth am yr effaith ar fridwyr yng Nghymru oni bai am amseriad pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau symud canlyniadol. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gan fridwyr hawl i ddanfôn cŵn bach i brynwyr, gan gael gwared ar y posibilrwydd o ddilyn y cyngor sy'n cael ei argymhell, sef mynd i weld y ci bach gyda'i fam. O ganlyniad i'r cynnydd sylweddol yn y galw am gŵn bach yn ystod y cyfnod hwn, a'r prisiau uwch yr oedd pobl yn fodlon eu talu amdanynt, mae'n annhebygol y byddai bridwyr mawr wedi dewis gadael y farchnad oherwydd bod eu llwybr blaenorol i'r farchnad wedi cau.

Manteision i fridwyr

7.37 Er mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth ar pam mae bridwyr yn dewis gwerthu drwy werthwyr trydydd parti, rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o fridwyr yn parhau i weithredu a gwerthu eu cŵn a'u cathod bach yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, a hynny am bris uwch o bosibl o'i gymharu â'u gwerthu drwy werthwr trydydd parti. Er y byddai disgwyl i'r bridiwr orfod talu rhywfaint o gostau ychwanegol drwy werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr (o gymharu â gwerthu drwy drydydd parti) fel hysbysebu bod yr anifeiliaid ar werth a chostau bwydo ychwanegol, byddai disgwyl i'r pris gwerthu uwch dalu am y costau hyn. Felly, byddai mantais bosibl i fridwyr.

7.38 Rhagwelir y gallai'r elw sy'n mynd i drydydd partiön ar hyn o bryd fynd i fridwyr yn lle, pe baent yn dewis aros yn y farchnad. Amcangyfrifir mai rhwng £2.0m a £3.6m yw elw blynyddol gwerthwyr trydydd parti yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae addasu hyn i adlewyrchu'r ffaith fod rhai cŵn a chathod bach yn cael eu mewnfario ar hyn o bryd, a'r dybiaeth y

byddai 20% o fridwyr yn gadael y farchnad, yn awgrymu mantais bosibl o rhwng £1.4m a £2.6m i'r bridwyr yn y DU sy'n weddill. Eto, disgwylir i lawer o'r fantais hon fod yn berthnasol i Gymru.

Manteision anuniongyrchol i fridwyr

7.39 Mae'n bosibl y bydd rhai bridwyr yn cymryd cyfran marchnad bridwyr eraill sy'n gadael y farchnad, yn ogystal â'r gyfran marchnad a oedd arfer cael ei dal gan anifeiliaid wedi'u mewnfario a oedd yn cael eu gwerthu gan werthwyr trydydd parti. Mae'r manteision hyn wedi cael eu dosbarthu fel rhai anuniongyrchol ac nid oes gwerth ariannol wedi'i bennu iddynt eto.

Dadansoddiad o sensitifrwydd a gynhaliwyd gan Economegydd Llywodraeth Cymru

7.40 Mae nifer o feysydd o ansicrwydd yn y dadansoddiad uchod sydd wedi golygu ein bod wedi gorfod gwneud tybiaethau eithaf eang er mwyn amcangyfrif effaith gwahardd trydydd partiön rhag gwerthu cŵn a chathod bach ar werthwyr ac ar fridwyr. Mae'r dadansoddiad o sensitifrwydd canlynol yn edrych ar effaith newid rhai o'r tybiaethau allweddol ar brif ganlyniadau'r dadansoddiad. Ym mhob achos, dim ond un dybiaeth sy'n cael ei newid ar y tro. Mae'r dadansoddiad o sensitifrwydd yn canolbwyntio ar y tybiaethau ynghylch gwerthiant cŵn bach gan drydydd partiön, gan fod y rhain yn cael mwy o effaith ar y canlyniadau na'r tybiaethau ynghylch gwerthu cathod bach.

Nifer y cŵn bach sy'n cael eu gwerthu drwy drydydd parti yng Nghymru

7.41 Mae'r cyfrifiadau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar adroddiad gan yr RSPCA sy'n awgrymu bod rhwng 40,000 ac 80,000 o gŵn bach wedi cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti bob blwyddyn ym Mhrydain, cyn cyflwyno'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti yn Lloegr. Ceir amcangyfrif o'r gwerthiannau trydydd parti yng Nghymru drwy ddosrannu'r ffigur hwn ar gyfer Prydain yn ôl cyfran Cymru o'r boblogaeth cŵn, fel y ceir o'r data gan UK PFMA (7.4%).

7.42 Gwerthwyr trydydd parti masnachol yw'r rhai sy'n werthwyr anifeiliaid anwes trwyddedig. Fodd bynnag, cymharol isel yw nifer y siopau anifeiliaid anwes yng Nghymru sydd wedi'u trwyddedu i werthu cŵn a chathod bach ac yn wahanol i Loegr (cyn y gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön), nid oes 'archfarchnadoedd' anifeiliaid anwes sy'n gwerthu cŵn a chathod bach yng Nghymru. Felly, ceir awgrym y byddai dosrannu'r amcangyfrif o werthiannau trydydd parti ym Mhrydain yn ôl maint y boblogaeth cŵn yn goramcangyfrif nifer y gwerthiannau trydydd parti yng Nghymru.

7.43 Pe baem yn tybio bod rhwng 2% a 5% o'r amcangyfrif o werthiannau cŵn bach gan drydydd partion ym Mhrydain bob blwyddyn yn digwydd yng Nghymru, byddai hyn yn cyfateb i rhwng 800 a 4,000 o gŵn bach yn cael eu gwerthu drwy'r llwybr hwn yng Nghymru bob blwyddyn. Byddai cynnwys y ffigurau hyn yn y dadansoddiad yn lleihau'r amcangyfrif o'r golled mewn elw i werthwyr trydydd parti yn dilyn gwaharddiad i rhwng £0.8m a £2.6m y flwyddyn. Yn yr un modd, yn ôl yr amcangyfrifon, byddai'r lleihad yn yr elw blynyddol i'r bridwyr hynny sy'n dewis gadael y farchnad yn disgyn i rhwng £30,000 a £95,000 a byddai'r cynnydd posibl mewn elw blynyddol i'r bridwyr hynny sy'n aros ac yn gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid (yn lle defnyddio gwerthwr trydydd parti) yn disgyn i rhwng £0.6m ac £1.8m.

Ymateb bridwyr yn dilyn gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti ar sail y DU

7.44 Maes arall o ansicrwydd yn y dadansoddiad yw sut bydd bridwyr domestig yn ymateb i'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti. Yn y dadansoddiad, tybir (am resymau sy'n ymwneud â lleoliad a diogelwch, ac ati) y bydd 20% o fridwyr yn dewis rhoi'r gorau i fridio cŵn a chathod bach yn hytrach na gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid. Fodd bynnag, ceir awgrym bod hwn yn goramcangyfrif yr effaith debygol ac mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg sy'n awgrymu nad oes unrhyw fridiwr yng Nghymru wedi rhoi'r gorau i weithredu yn dilyn y gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti yn Lloegr (ond, fel y nodir uchod, mae'n bosibl bod y pandemig a'r cyfyngiadau symud yn camlunio marchnadoedd ar hyn o bryd).

7.45 Gan ei bod yn flwyddyn ers dwyn Rheoliadau Lloegr ymlaen, pe bai canran y bridwyr y tybir y byddant yn gadael y farchnad yn cael ei lleihau i 10%, mae'r amcangyfrif o'r lleihad mewn elw blynyddol i'r bridwyr hynny sy'n gadael y farchnad yn disgyn i rhwng £35,000 a £65,000. Yn yr un modd, mae'r cynnydd posibl mewn elw blynyddol i fridwyr yn y DU (os yw'r bridwyr sy'n weddill yn gallu cipio'r elw a wnaed yn flaenorol gan werthwyr trydydd parti) yn codi i rhwng £1.6m a £2.9m.

7.46 Pe na bai unrhyw fridwyr yn gadael y farchnad, byddai'r cynnydd posibl yn yr amcangyfrif o elw blynyddol bridwyr yn y DU yn codi i rhwng £1.8m a £3.2m. Mae'n dilyn, gan nad oes unrhyw fridwyr yn gadael y farchnad, sero yw'r lleihad yn elw bridwyr yn y senario hon.

Pris cyfartalog ci bach

7.47 Fel y nodir uchod, mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar bris cyfartalog ci bach yn 2019 (£810) yn hytrach na phris cyfartalog 2020 (£1,875). Y rheswm am hyn yw bod y pandemig a'r cyfyngiadau symud wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am gŵn bach yn 2020 a'u pris, ac nid ydym yn credu bod pris cyfartalog 2020 yn cynrychioli'r pris cyfartalog tebygol yn y dyfodol.

7.48 Fodd bynnag, pe baem yn tybio bod y prisiau uchel ar hyn o bryd yn parhau ac yn cynnwys £1,875 fel pris cyfartalog ci bach yn y cyfrifiadau, byddai'r amcangyfrif o'r golled mewn incwm i werthwyr trydydd parti yn dilyn gwaharddiad rhwng £4.3m ac £8.2m y flwyddyn. Byddai'r golled mewn elw i'r bridwyr hynny yn y DU sy'n gadael y farchnad (gan dybio bod 20%) yn gadael rhwng £145,000 a £280,000 y flwyddyn. Yn ôl yr amcangyfrif, byddai'r cynnydd mewn elw blynyddol i'r bridwyr hynny yn y DU sy'n aros yn y farchnad rhwng £3.1m a £5.8m.

Effeithiau ehangach

Effaith ar Lywodraeth Cymru

7.49 Mae rhannau o'r cyhoedd yng Nghymru a nifer o sefydliadau trydydd sector wedi bod yn lloŷo dros wahardd yr ymarfer hwn ac mae Llywodraeth Cymru, am nifer o flynyddoedd, wedi cael gohebiaeth reolaidd yn adlewyrchu hynny. Hyd yma, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymateb i 63 o lythyrau eleni, ac wedi darparu nifer o ddogfennau briffio ar gyfer Cwestiynau'r Cynulliad a Chwestiynau Ysgrifenedig. Roedd Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig bryd hynny, wedi ymgynghori ar wahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön a chyhoeddodd ei bwriad i edrych ar gyfleoedd i ddwyn deddfwriaeth ymlaen er mwyn gwahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön yng Nghymru ym mis Mehefin 2018, gan ymgynghori wedyn ar Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021 yn nes ymlaen y flwyddyn honno.

7.50 Mae ymateb i ohebiaeth yn gallu cymryd amser. Mae pob ymateb, ar gyfartaledd, yn cymryd hanner diwrnod o amser Swyddog Gweithredol neu Swyddog Gweithredol Uwch, ar gyfradd ddyddiol o £135 neu £175 yn y drefn honno. Gan dybio rhaniad 50/50 rhwng Swyddogion Gweithredol a Swyddogion Gweithredol Uwch, mae ymateb i ohebiaeth ar y pwnc hwn wedi costio rhwng £9,200 a £12,000 i Lywodraeth Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae disgwyl i ohebiaeth ar y pwnc hwn leihau'n sylweddol os bydd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön yn cael ei wahardd. Ni ellir diystyru'r posibilrwydd o gynnydd yn yr ohebiaeth gan y rhai sy'n gwrthwynebu gwaharddiad, neu gan y rhai sy'n galw am ymestyn y gwaharddiad i rywogaethau eraill, ond nid yw'n debygol y byddai hynny i'r un graddau o bell ffordd. Felly mae'r costau sy'n gysylltiedig â hyn yn anhysbys.

7.51 Bydd cost weithredu fach i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu canllawiau ar Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021. Mae disgwyl i'r gwaith o gynhyrchu canllawiau, ar sail amcangyfrif o 5,000 o eiriau, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i wneud yn siŵr eu bod yn addas i'r diben, gymryd tua phedair wythnos dros gyfnod o dri mis o amser Swyddog

Gweithredol Uwch, a fydd yn costio £3,500. Bydd y canllawiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddai'r gwaith cyfieithu a dylunio yn cymryd hyd at bythefnos. Byddai'r gwaith cyfieithu yn cymryd tua wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch, a fydd yn costio £900. Byddai'r gwaith dylunio yn cymryd tua wythnos o amser Swyddog Gweithredol, a fydd yn costio £700. Byddai'r canllawiau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn cael eu rhannu'n electronig ag awdurdodau lleol. Ni fyddai costau argraffu a dosbarthu. Byddai'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu canllawiau yn codi yn 2020-21. Tua £5,100 fyddai cyfanswm y gost o gynhyrchu canllawiau.

- 7.52 Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r costau o gyfathrebu gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol hefyd. Bydd hyn yn cynnwys tynnu sylw cyhoeddi'r newid i'r busnesau yr effeithir arnynt, cyhoeddi Hysbysiadau i'r Wasg a defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Disgwylir i hyn gymryd dim mwy na'r hyn sydd gyfwerth ag wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch, a fydd yn costio £900.

Effaith ar y System Gyfiawnder

- 7.53 Roedd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019 yn sefydlu gwerthu cŵn a chathod bach fel trosedd.
- 7.54 Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno cynllun trwyddedu newydd ac o ganlyniad yn darparu ffordd newydd o ddal pobl i gyfrif pan fyddant yn gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes yng Nghymru.
- 7.55 Nid yw'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer newid ym mhroses y Llys neu Dribiwnlysoedd, ond mae'n bosibl y bydd cynnydd bach iawn yn nifer y ceisiadau i'r Llys os bydd angen cymryd camau yn erbyn unigolion. Gan fod hwn yn gynllun trwyddedu newydd, nid yw'n bosibl pennu'r union effaith ar y system gyfiawnder ond rydym yn rhag-weld y bydd yn eithaf isel oherwydd ar hyn o bryd, dim ond 10 gwerthwr trydydd parti trwyddedig yng Nghymru sydd â hawl i werthu cŵn a chathod bach.

Effaith ar Awdurdodau Lleol

- 7.56 Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau, fel y maent am orfodi Deddf Anifeiliaid Anwes 1951. O dan adran 30 o Ddeddf 2006, caiff awdurdodau lleol erlyn am unrhyw drosedd o dan y Ddeddf.
- 7.57 Mae'n rhaid i werthwyr trydydd parti masnachol eisoes wneud cais am drwydded ac maent yn destun arolygiadau parhaus. Felly, nid oes disgwyl y bydd costau ychwanegol. Fodd bynnag, bydd gan

awdurdodau lleol gyfle i ganiatáu ar gyfer costau disgwylidig cofrestru, arolygu a gorfodi drwy godi ffi am gyhoeddi trwydded (rheoliad 14).

- 7.58 Ni chaiff y ffi a godir am ystyried cais am roi, adnewyddu neu amrywio trwydded, ac am unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyriaeth honno, fod yn fwy na chostau rhesymol yr ystyriaeth honno a'r arolygiad cysylltiedig.
- 7.59 Mae'r ffioedd trwydded ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn amrywio'n sylweddol o ganlyniad i amgylchiadau unigol pob awdurdod. Pe bai'r 10 o werthwyr trydydd parti sy'n bodoli eisoes yn rhoi'r gorau i fasnachu, byddai'r golled mewn incwm o ffioedd trwydded yn fach iawn.

Manteision

- 7.60 Ar hyn o bryd, mae gwerthwyr anifeiliaid anwes trwyddedig yn gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol ac yn gyfreithlon: gall hyn fod yn siop anifeiliaid anwes traddodiadol, yn ddelwyr sy'n gweithredu fel y rhai yn y canol rhwng bridwyr, neu fridwyr sy'n gwerthu cŵn bach o doreidiau nad ydynt wedi'u bridio eu hunain. Ar hyn o bryd yng Nghymru, rhaid iddynt ddal trwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.
- 7.61 Mae pryderon y gall gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön masnachol fod yn gysylltiedig ag amodau lles gwaelach i'r anifeiliaid o gymharu â phrynu'n uniongyrchol gan y bridiwr. Er enghraifft, mae eu cyflwyno i nifer o amgylcheddau newydd ac anghyfarwydd, a'r tebygolrwydd uwch o orfod gwneud mwy nag un siwrnai, yn gallu cyfrannu at risg uwch o glefyd a diffyg cymdeithasoli a chynefino i'r cŵn a chathod bach.
- 7.62 Y Rheoliadau yw'r cam cyntaf tuag at sicrhau bod lles cŵn a chathod bach yng Nghymru, sydd ar hyn o bryd yn cael eu bridio â'u gwerthu i drydydd partiön, yn cael ei wella'n sylweddol drwy ddim ond cael eu gwerthu'n uniongyrchol i'r perchennog newydd gan y bridiwr. Dylai'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwerthu anifeiliaid anwes adlewyrchu'r arferion gorau. Mae caniatáu i drydydd partiön masnachol werthu cŵn a chathod bach yn golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, na fydd y prynwyr yn gweld y ci neu'r gath fach yn rhyngweithio â'r fam neu'r brodyr a chworydd. Byddai'r gwaharddiad yn:
- Helpu prynwyr i wneud penderfyniadau prynu cyfrifol yn seiliedig ar weld y ci neu'r gath fach gyda'r fam a gweld o dan ba amodau y mae wedi'i fridio.
 - Gwellu lles cŵn a chathod bach a chŵn a chathod sy'n cael eu defnyddio i fridio a lleihau gwerthiant cŵn bach sydd heb eu bridio i'r safonau lles cydnabyddedig yng Nghymru.
 - Annog sefydliadau trwyddedig bridio cŵn i wella lles drwy sicrhau tryloywder, atebolrwydd a thâl priodol i fridwyr.

- Cysoni'r broses drwyddedu â Gweinyddiaethau eraill. Pwrpas hyn yw sicrhau nad oes unrhyw anghysondeb rhwng y Gweinyddiaethau lle bydd rhai bridwyr yn croesi'r ffin o bosibl i osgoi'r deddfwriaeth sy'n berthnasol i ranbarth.
- Darparu mecanwaith deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 yn y dyfodol a fydd yn cysoni'r broses drwyddedu'n agosach â'r Gweinyddiaethau eraill.
- Darparu cyfleoedd yn y dyfodol i gynnwys sefydliadau lles anifeiliaid trwyddedig gan gynnwys, ymysg eraill, stablau ceffylau ac ysgolion marchogaeth.

7.63 Mae'r cynnig i wahardd trydydd partiön masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach wedi cael ei groesawu a'i gefnogi'n dda gan y cyhoedd a sefydliadau iechyd a lles anifeiliaid.

7.64 Roedd ymgyrch Lucy's Law yn Lloegr yn galw am waharddiad ar unwaith ar werthiant cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a delwyr trydydd parti masnachol eraill. Roedd Lucy yn Sbaengi Siarl ac yn ast bridio mewn cyflwr gwael iawn. Cafodd Lucy ei hachub a'i mabwysiadu yn 2013 a daeth yn fasgot ar gyfer ymgyrch yn erbyn ffermydd cŵn bach. Bu farw Lucy ym mis Rhagfyr 2016 a chafodd Cyfraith Lucy ei henwi er anrhydedd iddi.

7.65 Cafodd y ddeiseb a oedd yn gysylltiedig â'r ymgyrch dros 100,000 o lofnodion a chafodd ei thrafod yn Senedd y DU ar 21 Mai 2018. Roedd yn galw am waharddiad ar unwaith ar werthiant cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a gwerthwyr trydydd parti masnachol eraill. Daeth y gwaharddiad i rym ar 6 Ebrill 2020.

7.66 Gofynnwyd i awdurdodau lleol ledled y DU ymrwymo i egwyddorion Lucy's Law a chafwyd cefnogaeth eang gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

7.67 Mae ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru yn 2019 a 2020 wedi dangos cefnogaeth eang i'r gwaharddiad. Fodd bynnag, ystyrir hyn fel dim ond y cam cyntaf angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod a chŵn a chathod bach. Bydd y cyfuniad o reoliadau newydd ar werthu anifeiliaid anwes a phrosiect tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi; rhagor o hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol i wella'r gwaith o orfodi a chyflawni'r Rheoliadau Bridio cyfredol yn arwain at welliannau parhaus i safonau lles cŵn bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru.

7.68 Bydd dal croeso i siopau anifeiliaid anwes yng Nghymru, ar yr amod nad ydynt yn gwerthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti. Ar ôl cyfnod pontio, dylai'r 10 siop anifeiliaid anwes y mae'r gwaharddiad hwn yn effeithio arnynt allu parhau i fasnachu'n llwyddiannus. Mae'r nifer fach a gostyngol o siopau anifeiliaid anwes sy'n dal trwyddedau yn caniatáu iddynt werthu cŵn a chathod bach yn awgrymu nad yw eu

presenoldeb yn ffactor pwysig o ran penderfynu pa mor boblogaidd yw'r galw am gŵn a chathod bach ymysg bridwyr.

- 7.69 Yn amlwg, bydd gwahardd trydydd partiön masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach yn effeithio ar fodel gweithredu bridwyr, er y byddai amharu ar y model hwn yn ddymunol. Ar gyfer sefydliadau mawr sy'n fwy masnachol, gall y gwaharddiad effeithio ar ba mor gyflym gallant werthu eu cŵn bach. Er y gall gwerthwr trydydd parti gasglu torllwythi o gŵn bach i'w hail-werthu, bydd mwyafrif helaeth o'r cyhoedd sy'n prynu cŵn bach ond yn prynu un ar y tro. Mae hyn yn debygol o arwain at ddeiliad y drwydded (staff) yn gorfod treulio mwy o amser yn gwerthu cŵn bach, a gall hyn leihau'r amser sydd ganddynt i ofalu am y cŵn a'r cŵn bach eraill yn y sefydliad. Os bydd gwaharddiad yn dod i rym, bydd cyfnod pontio yn cael ei ddarparu i ddeiliaid trwyddedau addasu eu gweithdrefnau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â hyn, ar y cyd â'u hawdurdod trwyddedu.
- 7.70 Mae'r ffordd rydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau bridio cŵn a chathod bach, eu tynnu oddi wrth eu mam yn ifanc a'u cadw mewn amodau gwael. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wahardd gwerthiannau gan drydydd partiön masnachol yn awgrymu bod cefnogaeth lethol ar gyfer gwaharddiad. Bydd gwaharddiad yn helpu i annog agweddau parchus a chyfrifol, yn enwedig agweddau plant a phobl ifanc at bob rhywogaeth. Bydd hefyd yn helpu i wella syniadau pobl am siopau anifeiliaid anwes a sut mae cŵn a chathod bach yn cael eu bridio.
- 7.71 Bydd angen i fridwyr sydd ar hyn o bryd yn gwerthu cŵn bach drwy drydydd partiön wella 'llawr eu siop', gan y bydd rhywun sy'n chwilio am eu hanifail anwes nesaf yn poeni mwy am safonau sefydliad y bridwr a sut mae'n cael ei gynnal a'i chadw o'i gymharu â gwerthwyr trydydd parti.
- 7.72 Fodd bynnag, gan fod y cwestiwn ar gyfer bridwyr trwyddedig yn unig, mae'n rhaid i ni gymryd yn ganiataol na ddylai'r bridwyr hyn orfod poeni am y cyhoedd yn prynu'r cŵn bach yn uniongyrchol o'u sefydliadau. Rydym yn gwybod y bydd y cyhoedd sy'n prynu cŵn bach yn teithio cryn bellter i'w prynu. Felly, ni fydd bridwr sydd ag enw da yn cael trafferth gwerthu ei gŵn bach yn uniongyrchol o'i sefydliad bridio. Bydd y gostyngiad yn nifer y cŵn bach sy'n cael eu gwerthu yn cael ei wrthbwysu gan y cynnydd mewn prisiau gwerthu, gan fod gwerthwr trydydd parti yn cael rhan fawr o bris gwerthu'r ci bach yn y pen draw er mwyn talu ei gostau a chynhyrchu ei refeniw ei hun.
- 7.73 Bydd cŵn bach sy'n cael eu magu'n iawn yn ystod yr wythnosau cynnar yn llawer iawn fwy tebygol o dyfu i fod yn gŵn hyderus a digynnwrf sy'n fwy agored i ddysgu pethau newydd a byddant yn llai tebygol o ymateb yn ofnus neu'n ymosodol i bethau newydd - yn fyr, maent yn fwy tebygol o fod yn gŵn teulu da.

- 7.74 Mae cyfnod cymdeithasoli cŵn bach, sy'n para nes eu bod yn 12 wythnos oed, yn hanfodol gan eu bod yn dysgu'n gyflym yn ystod y cyfnod hwn. Yn anffodus, os na fydd ci bach yn dod i gysylltiad â digon o brofiadau, pobl, anifeiliaid eraill a synau yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn gi ofnus am byth a gallai arwain at broblemau ymosod.
- 7.75 Dylai cathod bach ddechrau cymdeithasu pan maent rhwng 3 a 4 wythnos oed. Mae cathod bach yn datblygu orau pan fyddant wedi dysgu popeth erbyn 9 wythnos oed, mae'n well dysgu pethau iddynt yn gynnar. Yn ddelfrydol, profiadau cadarnhaol sydd ddim yn fygythiol gyda nifer o anifeiliaid o'r un rhywogaeth a rhywogaethau eraill, pobl, sbardunau a phrofiadau bywyd cyffredin i anifeiliaid anwes, fel cael eu gafael a theithio. Dylid parhau i atgyfnerthu rhyngweithio cymdeithasol drwy gydol bywyd yr anifail yn ôl yr angen er mwyn cefnogi natur dda a hyrwyddo llesiant yr anifail.
- 7.76 Mae cŵn bach sy'n cael eu gwerthu drwy werthwyr trydydd parti masnachol yn agored i nifer o ddigwyddiadau heriol sy'n achosi straen iddynt yn ystod cyfnodau sy'n allweddol i'w datblygiad ac mae hyn yn debygol o gael effaith niweidiol ar eu hymddygiad, eu hiechyd a'u lles. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys:
- Y posibilrwydd o wahanu cŵn bach oddi wrth eu mamau a'u cydanedigion yn gynnar neu'n gyflym cyn iddynt droi'n 7-8 wythnos oed. Mae hyn yn tarfu ar y broses naturiol o ddiwyfno ac mae'n gallu achosi straen gronig neu straen ddifrifol.
 - Y tebygolrwydd o sawl siwrnai, yn enwedig i'r cŵn bach hynny sy'n cael eu mewnfario o lwerddon a'r Cyfandir ee o'r bridwr i'r man gwerthu i'r prynwr neu o'r bridwr i'r deliwr i'r man gwerthu i'r prynwr. Mae astudiaethau sydd wedi mesur sut mae teithio'n effeithio ar les cŵn wedi dangos ei fod yn achosi straen ac mae nifer o ffactorau'n debygol o gyfrannu at y straen hwn, gan gynnwys sut maent yn cael eu trin, mewn beth maent yn teithio, awyru a thymheredd, dull gyrru, a oes ganddynt fynediad at fwyd a dŵr a chyfleoedd i wneud ymarfer corff.
 - Cael eu cyflwyno i bobl ac amgylcheddau newydd ac anghyfarwydd, gan gynnwys cerbydau, llety'r deliwr mewn rhai achosion, y man gwerthu a chartref y prynwr a fydd yn debygol o arwain at ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ofn.
 - Gall cyflwyno a chymysgu anifeiliaid ifanc ac anghyfarwydd beri risg o glefyd, yn arbennig yn adeiladau gwerthwyr sy'n bridio'u cŵn eu hunain hefyd. Gan fod rhai cŵn bach yn cael eu gwahanu oddi wrth eu mam a'u cydanedigion cyn 7 i 8 wythnos ac fel arfer yn cael eu brechu yn wyth ac yn ddeg wythnos oed, mae'n debygol iawn na fyddant wedi'u diogelu rhag clefydau gan gynnwys parfofeirws y cŵn a chlefyd y cŵn.
- 7.77 Mae digon o dystiolaeth i awgrymu bod anifeiliaid anwes yn gwneud ffrindiau da i blant o bob oed, yn enwedig helpu i leihau problemau iechyd meddwl a gorbryder. Er enghraifft, yn 2019, cafodd Ysgol

Uwchradd Esgob Llandaf¹⁵, Caerdydd labradôr bach du yn barhaol ar gyfer yr ysgol. Mae'r 'ci llesiant' yn lleihau gorbryder y plant ac yn helpu 'plant gyda'u hiechyd meddwl'. Mae tystiolaeth i awgrymu bod plant ag anableddau, gan gynnwys plant awtistig, yn wirioneddol mwynhau anwesu anifeiliaid. Mae anifeiliaid anwes yn gallu cynnig therapi a chymorth bob dydd hefyd.

7.78 Mae prif gasgliadau'r ymchwil a gynhaliwyd gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol¹⁶ yn awgrymu bod y teulu cyfan, nid dim ond y plentyn awtistig, yn elwa o gael ci yn eu tŷ. Yn aml, mae'n gallu lleihau straen, annog cymdeithasu a chreu arferion iach, fel mynd allan am dro ddwywaith y dydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod diffyg ymchwil wyddonol i'r maes yma ac mae llawer o'r canfyddiadau'n seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd.

7.79 Yn 2010, 'derbyniodd Dogs for the Disabled grant ymchwil gan y Gronfa Loteri Fawr i ymchwilio i sut yn union gall cŵn anwes helpu a gwella llesiant a datblygiad' plant awtistig a'u teuluoedd.

Canfu'r astudiaeth fod cŵn anwes yn gallu gwneud y canlynol:

- cael effaith ddofn ar lesiant y teulu cyfan,
- gwella'r berthynas rhwng rhieni a phlant,
- lleihau lefelau straen rhieni,
- gwella ymddygiad plant,
- galluogi plant i gadw at drefn yn annibynnol,
- Rhoi mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb i'r plentyn.

7.80 Yn eu papur ymchwil '*What Factors Are Associated with Positive Effects of Dog Ownership in Families with Children with ASD?*' (2016)¹⁷, mae Sophie Susannah Hall, Hannah F Wright, a Daniel Simon Mills yn edrych ar fanteision cyflwyno plant awtistig i amgylchedd lle mae ci'n bresennol.

7.81 Felly, mae'n hanfodol bod unrhyw gi bach sy'n cael ei brynu am unrhyw un o'r rhesymau hyn yn cael ei ddysgu i gymdeithasu yn yr amgylchedd cywir. Bydd cŵn bach sy'n cael eu magu'n iawn yn ystod yr wythnosau cynnar yn llawer iawn fwy tebygol o dyfu i fod yn gŵn hyderus a digynnwrf sy'n fwy agored i ddysgu pethau newydd a byddant yn llai tebygol o ymateb yn ofnus neu'n ymosodol i bethau newydd - yn fyr, maent yn fwy tebygol o fod yn gŵn teulu da.

7.82 Mae bod yn berchennog cyfrifol ar gi yn cynnwys sicrhau eich bod yn mynd a'r ci am dro bob dydd. Fodd bynnag, mae llawer o fanteision i berchennog fel gwell ffitrwydd cardiofasgwlaidd, pwysedd gwaed is, cyhyrau ac esgyrn cryfach (drwy gerdded yn rheolaidd), a llai o straen.

15 <https://www.itv.com/news/wales/2019-07-15/meet-georgie-the-therapy-dog-whos-delighting-pupils-at-a-welsh-high-school>

16 <https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/strategies-and-interventions/strategies-and-interventions>

17 <https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0149736>

Felly, mae'n hanfodol bod y ci bach yn cymdeithasu'n briodol pan fydd yn ifanc. Drwy gymdeithasu, mae eich ci'n dysgu sut mae ymateb i'r byd o'i gwmpas mewn ffordd iach, heb ofn neu ymddygiad ymosodol diangen.

- 7.83 Ar 30 Medi 2019, darlledodd BBC Cymru Wales raglen o'r enw *BBC Investigates: Inside the UK's Puppy Farm Capital*. Roedd y rhaglen gan y BBC yn edrych yn bennaf ar ymddygiad bridwyr cŵn trwyddedig o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Roedd gan y BBC bum enghraifft o fridwyr trwyddedig a oedd yn cadw cŵn mewn amodau cwbl annerbyniol er bod milfeddygon annibynnol wedi dweud hyn wrthynt.
- 7.84 Bydd cyflwyno gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol yn helpu i ailadeiladu enw da Cymru o ran bridio cŵn. Barn sy'n cael ei hategu mewn ymatebion a gafwyd drwy'r ymgynghoriad.
- 7.85 Gall gwahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach effeithio ar lochesi ailgartrefu. Gyda llai o anifeiliaid ar gael gan ffynonellau eraill, gallai hyn annog pobl i brynu gan loches anifeiliaid yn lle. Dylai llochesi ailgartrefu hefyd weld gostyngiad yn nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu gadael oherwydd problemau iechyd neu oherwydd bod pobl wedi'u prynu'n fyrbwyll. Mae cŵn bach nad yw pobl eu heisiau'n cael eu rhoi i lochesi ar draws y DU yn rheolaidd. Mae hyn yn cynyddu'n sylweddol ar ôl y Nadolig ac mae cŵn/cathod sy'n cael eu bridio'n benodol ar gyfer y Nadolig yn cael eu gadael mewn llochesi. Mae gormod o gŵn a chathod bach yn cael eu cynhyrchu yn y DU yn ystod y flwyddyn.

8. Ymgynghori

- 8.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ar Wahardd Trydydd Partïon rhag Gwerthu Cŵn a Chathod Bach am ddeuddeg wythnos, rhwng 19 Chwefror 2019 ac 17 Mai 2019. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru, mewn cylchlythyrau ac ar sawl plattform cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymgynghoriad yn edrych ar dystiolaeth ynghylch pryd y dylai'r llywodraeth ymweld â safleoedd sy'n bridio ar raddfa fawr a mynd i'r afael â phryderon am les anifeiliaid Cafwyd 458 o ymatebion i'r ymgynghoriad.
- 8.2 Aeth swyddogion i ddigwyddiad *Big Walkies* RSPCA Cymru ar 18 Mai 2019 ac i Sioe Arddwriaethol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2019 i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ynghylch perchnogaeth gyfrifol a phrynu anifeiliaid anwes. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i'r swyddogion ddefnyddio holiadur i gasglu data gan blant a phobl ifanc. Nid oedd y cwestiynau wedi'u llunio'n benodol i gasglu barn am y gwaharddiad ond yn ôl yr wybodaeth a gafodd ei chasglu, mae diffyg addysg am gyflyrau a lles anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu gan drydydd partïon masnachol.

- 8.3 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus olaf a gynhaliwyd dros wyth wythnos am y drafft yn gwahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach ar 22 Mehefin 2020. Gofynnwyd naw cwestiwn i'r ymatebwyr am y polisi cyffredinol, yr effeithiau economaidd, darpariaethau'r Rheoliadau a'r effeithiau ar y Gymraeg. Cafwyd 226 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd ymatebion gan y cyhoedd, sefydliadau'r trydydd sector, Cymdeithas Milfeddygon Prydain a chyrrff gorfodi.
- 8.4 Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cyhoeddus llawn, gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda Phlant yng Nghymru drwy ei gynllun Young Wales i gynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc yn gofyn iddynt am eu barn ar wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach.
- 8.5 Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar bedwar prif gwestiwn gyda'r nod o glywed llais ac argymhellion plant a phobl ifanc i lywio a chefnogi'r broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth newydd; sy'n rhan o'n hagenda cyfranogiad plant a phobl ifanc.
- 8.6 Yn ystod mis Gorffennaf ac Awst, cynhaliodd Young Wales ymgynghoriad ar-lein i geisio cael barn plant a phobl ifanc am wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Cafodd Young Wales 59 o ymatebion gan blant a phobl ifanc ledled Cymru, gydag oedrannau'n amrywio o dan 10 i 21 oed. Roedd 96% o'r ymatebwyr yn cytuno â gwaharddiad, roedd 2% yn anghytuno ac roedd 2% yn annsicr.
- 8.7 Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi a chyhoeddwyd crynodeb ohonynt ar 5 Hydref 2020 <https://gov.wales/ban-commercial-third-party-sales-puppies-and-kittens-young-peoples-consultation>
- 8.8 Ar ôl adolygu a dadansoddi ymatebion yr ymgynghoriad yn llawn, ystyriodd Llywodraeth Cymru'r holl dystiolaeth a gasglwyd gan y cyhoedd a sefydliadau lles anifeiliaid a gwnaethant gadarnhau y byddai gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y Senedd.
- 8.9 Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru (yn 2019 a 2020) wedi dangos cefnogaeth eang i'r gwaharddiad. Cofnodwyd nifer fach o sylwadau negyddol o'n hymgyngghoriad terfynol eleni gan aelodau o'r cyhoedd yn bennaf. Roeddent yn teimlo fod y Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 cyfredol yn ddigon cynhwysfawr i berchnogion siopau anifeiliaid anwes gadw anifeiliaid mewn amodau priodol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y cynnig i wahardd gwerthiannau trydydd parti ond yn cael ei ystyried fel un o'r camau sy'n angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod ar safleoedd bridio yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â rhwystrau i orfodi; gwell hyfforddiant;

gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol fel rhan o brosiect tair blynedd sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

9. Asesiad o'r Gystadleuaeth

9.1 Cynhaliwyd Asesiad o'r Gystadleuaeth i asesu effaith bosibl gwahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön masnachol yng Nghymru. Ni ddisgwylir i'r polisi hwn gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth yn y diwydiant bridio. Nid yw'r polisi'n gwahaniaethu rhwng bridwyr, mae'r un mor gymwys i bawb. Isod, mae canlyniadau prawf hidlo (sy'n cynnwys naw cwestiwn ✓ neu X) sy'n cefnogi'r casgliad hwn. Yna mae tystiolaeth i gefnogi'r atebion.

9.2 Tabl: Prawf hidlo ar gyfer cyflwyno gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partiön masnachol yng Nghymru.

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ✓ neu X
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o'r farchnad?	X
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy nag 20% o'r farchnad?	X
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o leiaf 50% o'r farchnad?	X
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio'n sylweddol fwy ar rai cwmnïau nag eraill?	X
C5: Ydy'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau?	X
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer darpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	X
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch ar gyfer darpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	X
C8: Ydy newid technolegol cyflym yn nodwedd amlwg yn y sector?	X
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch?	X

- 9.3 Byddai cofnod pontio i ganiatáu i berchnogion siopau anifeiliaid ystyried model gweithredu gwahanol i liniaru unrhyw effaith bosibl. Er nad yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn caniatáu i drydydd partiön werthu cŵn a chathod bach dan 6 mis oed, ni fydd hyn yn wir os mai nhw sydd wedi bridio'r anifail. Bydd siopau anifeiliaid anwes hefyd yn cael gwerthu cŵn a chathod sydd dros 6 mis oed.
- 9.4 Bydd costau glynu wrth y gwaharddiad yn effeithio ar y 10 gwerthwr trydydd parti masnachol trwyddedig sy'n gwerthu cŵn a chathod bach ar hyn o bryd, ond ni fydd yn effeithio ar y rheini sydd ddim yn gwerthu cŵn a chathod bach ar hyn o bryd, nac ymgeiswyr newydd. Efallai y bydd cynnydd mewn costau i siopau anifeiliaid anwes sy'n dewis addasu eu model busnes i fridio cŵn a chathod bach, yn y tymor byr o leiaf, ond bydd y graddau y bydd hyn yn effeithio arnynt yn dibynnu ar nifer o ffactorau ac efallai byddant yn arbed costau wrth beidio â phrynu drwy werthwr trydydd parti.
- 9.5 Bydd cymhellion cydymffurfio â'r gwaharddiad yn gwrthbwysu'r cymhellion dros beidio â chydymffurfio. Byddai'r sawl sy'n gwerthu cŵn neu gathod bach os nad ef/hi yw perchennog y fam yn cyflawni trosedd. Mae person sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy.
- 9.6 Dechreuodd Blue Cross ei ymchwil ym mis Chwefror 2016 a llunio'r adroddiad: [Unpicking the Knots](#). Mae'r adroddiad yn nodi bod prynu anifail anwes yn y DU fel loteri cod post ac mae lles miloedd o anifeiliaid anwes sy'n cael eu bridio a'u gwerthu mewn perygl. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod awdurdodau lleol sy'n brin o adnoddau'n cael trafferth ymdopi â gorfodi safonau lles ar siopau anifeiliaid anwes a bridwyr cŵn ac mae'r farchnad masnachu anifeiliaid anwes ar-lein heb drwydded sy'n parhau i dyfu yn gwneud hyn yn gwbl ddiarwybod, gyda bridwyr yn gwneud miloedd o bunnoedd tra'n rhoi anifeiliaid anwes mewn perygl.
- 9.7 Gall gwahardd trydydd partiön masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach effeithio ar lochesi ailgartrefu. Gyda llai o anifeiliaid ar gael gan ffynonellau eraill, gallai hyn annog pobl i brynu gan loches anifeiliaid yn lle. Dylai llochesi ailgartrefu hefyd weld gostyngiad yn nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu gadael oherwydd problemau iechyd neu oherwydd bod pobl wedi'u prynu'n fyrbwyll. Mae cŵn bach nad yw pobl eu heisiau'n cael eu rhoi i lochesi ar draws y DU yn rheolaidd. Mae hyn yn cynyddu'n sylweddol ar ôl y Nadolig ac mae cŵn/cathod sy'n cael eu bridio'n benodol ar gyfer y Nadolig yn cael eu gadael mewn llochesi. Mae gormod o gŵn a chathod bach yn cael eu cynhyrchu yn y DU yn ystod y flwyddyn.
- 9.8 Roedd cyfiawnhad dros y gwaharddiad i gyflawni amcan y polisi yn amlwg o gefnogaeth ysgubol yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Byddai pobl yn gallu prynu cŵn a chathod bach yn ddiogel os byddant yn hyderus eu bod wedi cael eu magu'n iawn yn ystod yr wythnosau

cynnar a bydd y cŵn a'r cathod bach hynny'n llawer iawn fwy tebygol o dyfu i fod yn hyderus a digynnwrf ac yn fwy agored i ddysgu pethau newydd a byddant yn llai tebygol o ymateb yn ofnus neu'n ymosodol i bethau newydd. Yn fyr, maent yn fwy tebygol o fod yn gŵn teulu da.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Mae'n bwysig nodi bod y cynnig i wahardd gwerthiannau trydydd parti ond yn cael ei ystyried fel un o'r camau sy'n angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod bach ar safleoedd bridio yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â rhwystrau i orfodi; gwell hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol fel rhan o brosiect tair blynedd sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

10.2 Byddai'n briodol ystyried adolygu'r ddeddfwriaeth ar ôl cwblhau Prosiect Gorfodi'r Awdurdod Lleol ar fridio cŵn. Bryd hynny, efallai y bydd yn briodol ystyried ymgorffori gweithgareddau trwyddedadwy eraill sy'n ymwneud ag anifeiliaid yn y Rheoliadau hyn. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i wneud y canlynol:

- Cysoni'r broses drwyddedu â Gweinyddiaethau eraill. Pwrpas hyn yw sicrhau nad oes unrhyw anghysondeb rhwng y Gweinyddiaethau lle bydd rhai bridwyr yn croesi'r ffin o bosibl i osgoi'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ranbarth.
- Darparu cyfleoedd yn y dyfodol i gynnwys sefydliadau lles anifeiliaid trwyddedig gan gynnwys, ymysg eraill, stablau ceffylau ac ysgolion marchogaeth.
- Darparu mecanwaith deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 yn y dyfodol.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021
DYDDIAD	27 Ionawr 2021
GAN	Lesley Griffiths MS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi fy mod heddiw wedi gosod Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021, ochr yn ochr â'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, a chynhelir dadl yn eu cylch yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Mawrth 2021.

Fel y dwedais yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 5 Hydref 2020, rwyf wedi ymrwymo i wahardd trydydd partiön masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach yng Nghymru cyn diwedd tymor y Senedd hwn.

Bydd y Rheoliadau hyn yn newid y trefniadau trwyddedu ar gyfer gwerthu anifeiliaid i fod yn anifeiliaid anwes yng Nghymru, sy'n cynnwys gwahardd trydydd partiön masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Mae sicrhau'r safonau lles gorau posibl ledled Cymru yn flaenoriaeth a bwriad y Rheoliadau newydd yw hyrwyddo bridio cyfrifol a sicrhau bod cŵn a chathod bach yn cael eu bridio o dan amodau addas.

Rwyf bob amser wedi dweud na all gwaharddiad ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl broblemau sy'n gysylltiedig â masnachu cŵn bach. Mae'r gwaharddiad arfaethedig yn un rhan yn unig o'r gwaith sy'n gysylltiedig â gwella safonau lles mewn sefydliadau bridio cŵn, sy'n cynnwys mynd i'r afael â rhwystrau i gynnal camau gorfodi.

Rwyf hefyd yn falch o'ch hysbysu, gan weithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol, fod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â rhwystrau i orfodi Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Mae prosiect tair blynedd, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi cael ei sefydlu gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae'r prosiect yn cynnwys gwella hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer arolygwyr, a defnyddio adnoddau yn well o fewn Awdurdodau Lleol a ledled Cymru. Yr Awdurdodau Lleol sy'n arwain y prosiect.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a'r Gweinyddiaethau eraill i sicrhau ein bod yn cyflwyno newidiadau a fydd yn cael effaith barhaol ar safonau lles cŵn a chathod sy'n cael eu bridio yng Nghymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Ail-osod Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021 drafft
DYDDIAD	03 Chwefror 2021
GAN	Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Er mwyn mynd i'r afael â chamgymeriad bach, ond pwysig, yn y fersiwn gwreiddiol a gyflwynwyd ar 27 Ionawr, gyda gofid, mae'n rhaid i mi ddweud y byddaf yn gosod fersiwn newydd o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021 drafft cyn bo hir.

Bwriad cyffredinol y polisi y tu ôl i'r Rheoliadau hyn, a fydd yn disodli adran 1(1) o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951, yw adlewyrchu arfer gorau wrth werthu cŵn a chathod bach. Mae caniatáu i drydydd partiön masnachol werthu cŵn a chathod bach yn golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, na fydd prynwyr yn gweld y ci na'r gath fach yn rhyngweithio â'r ast/fam neu'r brodyr a'r chwiorydd.

Mae swyddogion yn gweithio'n gyflym i ddatrys y mater ac mae dyddiad dadl newydd wedi'i bennu ar gyfer 23 Mawrth 2021. Ni ragwelir y bydd yr oedi hwn yn effeithio ar y dyddiad y daw'r rheoliadau hyn i rym, sef 10 Medi 2021.

SL(5)695 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio:

- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006,
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, a
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016.

Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi mewn perthynas â:

- mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu sy'n cael ei fwydo iddynt (gweler Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 2) 2005/1971);
- mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd (gweler Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 2) 2008/1792); a
- mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd (gweler Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 5) 2010/2690).

Mae'r Rheoliadau'n caniatáu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliadau Gweithredu a Dirprwyedig yr Undeb Ewropeaidd ("deddfwriaeth drydyddol yr UE") ymhellach a wneir o dan Reoliad (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso ("y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol").

Galluogwyd gweithredu a gorfodi'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol a deddfwriaeth drydyddol yr UE a gyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd erbyn mis Tachwedd 2019 drwy Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 ("Rheoliadau 2019"). Roedd y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2019 hefyd yn cynnwys pecyn o ddeddfwriaeth drydyddol yr UE (Rheoliadau Gweithredu a Dirprwyedig), a wnaed o dan y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol. Nodwyd ar y pryd na fyddai deddfwriaeth drydyddol ychwanegol yr UE a oedd yn cael ei pharatoi gan yr UE yn cael ei chyhoeddi mewn pryd i gynnwys darpariaethau sy'n rhoi effaith i'r ddeddfwriaeth honno yn Rheoliadau 2019 pe bai'r Rheoliadau hynny yn dod i rym erbyn y



dyddiad cau, sef 14 Rhagfyr 2019 – y dyddiad y daeth y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol i rym.

Mae'r Rheoliadau yn nodi deddfwriaeth drydyddol ychwanegol yr UE sydd ar y rhestrau o ddeddfwriaeth a nodir yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, ac maent yn gwneud rhai newidiadau canlyniadol. Mae'r ddeddfwriaeth drydyddol hon yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cymhwyso'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol mewn meysydd penodol, fel pa mor aml a sut i gymhwyso gwiriadau ffisegol i lwythi bwyd neu fwyd anifeiliaid mewn porthladdoedd a rhai o'r rheolau ar gyfer gweithredu pellach sy'n ofynnol ar ôl cwblhau'r gwiriadau hyn.

Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth drydyddol, nodwyd rhai gwallau/hepgoriadau cyfyngedig yn y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2019 y mae angen eu cywiro. Mae angen y cywiriadau gofynnol hyn i sicrhau bod y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yn cael eu gweithredu'n briodol mewn perthynas â Chymru a bydd y Rheoliadau yn diwygio'r offerynnau perthnasol i ddarparu ar gyfer gorfodi'r ddeddfwriaeth drydyddol a chywiro'r gwallau a'r hepgoriadau hyn yn Rheoliadau 2019.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Mae cyfeiriadau at reoliadau penodol o dan y pwynt hwn yn cyfeirio at destun Cymraeg y rheoliadau.

Nid yw'n ymddangos bod y cyfeiriad yn rheoliad 2(2)(a)(ii) at destun sydd i'w hepgor o reoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") yn gywir. Ni allwn weld diffiniad sy'n dechrau "*ystyr "Cyfarwyddeb 2004/41"*" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2006. Credwn y dylai rheoliad 2(2)(a)(ii) gyfeirio at y diffiniad sy'n dechrau "*mae i "Cyfarwyddeb 2004/41"*" (ychwanegwyd y pwyslais).

Yn yr un modd, nid yw'n ymddangos bod y cyfeiriad yn rheoliad 3(2)(a)(i) yn gywir. Ni allwn weld diffiniad sy'n dechrau "*ystyr "Penderfyniad 2007/275"*" yn rheoliad 2 o Reoliadau



Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Credwn y dylai rheoliad 3(2)(a)(i) gyfeirio at y diffiniad sy'n dechrau *“mae i “Cyfarwyddeb 2004/41”* (ychwanegwyd y pwyslais).

2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Yn nhestun Saesneg y Rheoliadau, yn y tabl a fewnosodir gan Atodlen 5 (yn lle Atodlen 6 i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009), nid yw'r paragraff yn y golofn gynnwys ar gyfer Erthygl 6(4) o Reoliad 2019/2123 yn pennu mai'r gweithredwr yw'r gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth (“responsible for the consignments”), fel sy'n wir yn y testun Cymraeg ac mewn manau eraill yn y tabl.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Pwynt craffu technegol 1: Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt a godwyd:-

- Dylai testun Cymraeg rheoliad 2(2)(a)(ii) o Reoliadau 2020 ddweud “*hepgorer y diffiniad sy'n dechrau â “mae i “Cyfarwyddeb 2004/41”;*” (ychwanegwyd y pwyslais mewn llythrennau trwm). Mae'r testun Saesneg yn gywir.
- Dylai testun Cymraeg rheoliad 3(2)(a)(i) ddweud “*hepgorer y diffiniad sy'n dechrau â “mae i “Cyfarwyddeb 2004/41”;*” (ychwanegwyd y pwyslais mewn llythrennau trwm). Mae'r testun Saesneg yn gywir.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai goblygiadau cyfreithiol cyfyngedig sydd i'r camgymeriadau a nodwyd, a bod bwriad deddfwriaethol y darpariaethau, er gwaethaf y camgymeriadau, yn glir. Er hynny, er eglurder, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu y bydd y camgymeriadau'n cael eu cywiro drwy gyfrwng slip cywiro.

Pwynt craffu technegol 2: Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg o ran colofn 2 y cofnod ar gyfer Erthygl 6(4) o Reoliad 2019/2123 yn y tabl yn yr Atodlen 6 newydd i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 fel y'i mewnosodir gan Atodlen 5 o Reoliadau 2020.

Yn yr Atodlen 6 newydd i Reoliadau 2009 (fel y'i mewnosodir gan Reoliadau 2020), mae colofn 1 y tabl yn cynnwys rhestr o ddarpariaethau sydd bellach yn ddarpariaethau cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n “darpariaethau mewnforio penodedig” at ddibenion Rheoliadau 2009. Mae colofn 2 y tabl hwnnw'n cynnwys disgrifiadau o'r darpariaethau a restrir yng ngholofn 1 – daw'r disgrifiadau hynny o destun darpariaethau perthnasol yr UE a ddargedwir. Yn yr Atodlen 6 newydd i Reoliadau 2009, mae testun Saesneg colofn 2 y cofnod yn y tabl ar gyfer Erthygl 6(4) o Reoliad 2019/2123 a ddargedwir yn cyfeirio'n gywir at “the operator”, gan mai dyna yw testun Erthygl 6(4) ei hun. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, y tro hwn, bod i gyfeiriad at “operator” yr un ystyr ag “operator responsible for the consignments”, gan nad oes gweithredwr arall y gallai'r ddarpariaeth fod yn gymwys iddo. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg fel y'i nodir yn y pwynt a godwyd yn peri bod diffyg cyfwerthedd cyfreithiol rhwng y ddau destun.

Er cywirdeb, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ymdrin â'r gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg os/pan fydd cyfrwng deddfwriaethol priodol arall yn mynd rhagddo.

SL(5)727 - Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021

Cefndir a Diben

Paratowyd y Cod hwn gan y Comisiwn Etholiadol i roi canllawiau ar yr hyn sy'n dod o fewn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 7 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ('Gorchymyn 2007') a'r hyn nad yw'n dod o fewn iddynt.

Mae'r Rhannau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'dreuliau etholiad' ac yn enwedig felly i ba dreuliau y mae'n ofynnol i ymgeisydd roi gwybod amdanynt. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 yn rhestru'r materion y mae unrhyw dreuliau at ddibenion ethol yr ymgeisydd yn cyfrif mewn perthynas â nhw fel 'treuliau etholiad'. Mae Rhan 2 yn rhestru'r eithriadau.

Mae'r Cod hefyd yn rhoi canllawiau ar yr achosion neu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid barnu, neu lle mae'n rhaid peidio â barnu, bod treuliau wedi'u hachosi 'at ddibenion ethol ymgeisydd', fel y cyfeirir atynt yn erthygl 63 o Orchymyn 2007.

Gweithdrefn

Drafft negyddol. Oni bai bod y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'w osod, caiff y Cod Ymarfer ei ddwyn i rym drwy orchymyn diwrnod penodedig a wneir gan Weinidogion Cymru, ac a gyhoeddir gan y Comisiwn Etholiadol.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

1. Mae paragraffau 1.18 i 1.20 o'r Cod yn nodi sut y cyfrifir gwariant tybiannol at ddibenion treuliau etholiad. Ar ddiwedd paragraff 1.20 nodir, "Mae'r rheolau ar roddion yn gymwys i'r rhodd gysylltiedig hefyd." Ni chyfeirir at beth yw'r rheolau ar roddion na ble y gellir dod o hyd iddynt. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rheolau ar roddion y tu allan i gwmpas y Cod, ond er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n defnyddio'r Cod i gydymffurfio â'u holl rwymedigaethau dylid cyfeirio at ble y gellir dod o hyd i'r rheolau ar roddion.
2. Mae'r Cod yn nodi'r gofynion o ran datgan treuliau. Mae paragraff 1.23 yn nodi, o dan Erthygl 54(3) o Orchymyn 2007, y byddai ymgeisydd ar restr ranbarthol yn euog o arfer llwgr os yw'n gwneud datganiad ffug yn fwriadol. Fodd bynnag, nid yw'r Cod yn cyfeirio o gwbl at Erthygl 53(5) o Orchymyn 2007 sy'n darparu, yn yr un modd, y byddai ymgeisydd etholaethol neu ei asiant yn euog o arfer llwgr os yw'n gwneud



datganiad ffug yn fwriadol. Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn hanfodol sicrhau dull gweithredu cyson a darparu'r holl wybodaeth berthnasol yng nghyd-destun Codau sydd â grym statudol fel y Cod hwn, ac felly byddai'n croesawu esboniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam na chyfeirir at Erthygl 53(5).

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor y Cod Ymarfer yn ei gyfarfod ar 1 Chwefror 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Mae ymateb gan y Llywodraeth wedi ei wahodd mewn cysylltiad â'r ddau bwynt a godwyd yn yr adroddiad. Mae'r ymatebion wedi eu nodi isod.

1. Mae'r rheolau ar roddion y tu allan i gwmpas y Cod ac er mwyn peidio ag awgrymu i'r darllenydd fod rhoddion o'r fath yn dod o fewn ei gwmpas, teimlwyd mai doeth fyddai peidio â darparu manylion y rheolau ar roddion yn y Cod. Teimlwyd bod y cyfeiriad at y rheolau ar roddion ym mharagraff 1.20 yn ddigonol i roi gwybod i'r darllenydd fod rhoddion o'r fath yn cael eu hystyried hefyd ond y byddai darparu manylion pellach yn awgrymu eu bod yn dod o fewn cwmplas y Cod. Nid oes unrhyw fwriad i ddiwygio'r Cod.

Rydym wedi codi eich sylw gyda'r Comisiwn Etholiadol a ddrafftiodd y Cod ac wedi cael gwybod bod canllawiau ar reolau ar roddion ar gael ar wefan y Comisiwn Etholiadol a phan gyhoeddir y Cod Ymarfer, bydd nodyn ynddo i dynnu sylw at y canllawiau ar roddion.

2. Rydym wedi cysylltu â'r Comisiwn Etholiadol ynghylch y ffaith nad yw'r Cod yn cyfeirio at y drosedd o arfer llwgr sy'n ymwneud ag ymgeisydd etholaethol neu ei asiant o dan erthygl 53(5) o Orchymyn 2007. Mae'r Cod yn cyfeirio at y drosedd o arfer llwgr sy'n ymwneud ag ymgeiswyr ar restr ranbarthol o dan erthygl 54(3). Derbynnir y gellid bod wedi cyfeirio at y ddwy erthygl yn y Cod ond nid yw'r ffaith nad oes cyfeiriad at y drosedd o dan erthygl 53(5) yn tanseilio'r Cod a cheir cyfeiriad at drosedd o arfer llwgr yn y Cod.

Nid yw'r ffaith nad oes cyfeiriad at hyn yn y Cod yn tynnu oddi ar y ffaith bod y drosedd wedi ei chynnwys yn y ddeddfwriaeth, a chyfeirir ati yng Nghanllawiau'r Comisiwn. Bwriedir i'r Cod ei hun gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r Canllawiau ehangach a gyhoeddir gan y Comisiwn. Bydd y cyfeiriad deddfwriaethol at y drosedd yn cael ei wneud pan gaiff y Cod ei ddiweddarau nesaf ond ar hyn o bryd cyfeirir ati yn rhywle arall ar wefan y Comisiwn Etholiadol.



Mick Antoniwn AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

5 Chwefror 2021

Annwyl Mick ,

Y Rheoliadau (Diwygio) Organig 2021

Mae'r O.S. Rheoliadau (Diwygio) Organig 2021 yn ofynnol i barhau hawddfreintiau yn berthnasol i archwiliadau ar y safle gan Gyrrff Rheoli organig o gwmnïau organig risg isel, a gyflwynwyd yn 2020 gan y Comisiwn Ewropeaidd, mewn ymateb i'r argyfwng Covid-19.

Bydd yr hawddfreintiau yn caniatáu archwiliadau ar y safle i gael eu disodli gan wiriadau dogfennol er mwyn lleihau y risg i archwilwyr a chwmnïau o drosglwyddo Covid-19.

Bydd yr O.S yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol, ac mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn bwriadu ei osod gerbron Senedd y DU ar 28 Ionawr.

Yr wyf yn ysgrifennu i roi gwybod, gan fod y diwygiadau hyn yn hawddfreintiau brys dros dro, fy mod yn rhoi fy nghydsyniad yn unol ag Erthygl 38a(3) o'r Rheoliad a Ddargedwir (UE) 834/2007, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr offeryn statudol hwn yn berthnasol i Gymru.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Cofion,

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 296
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
llywydd@senedd.cymru

09 Chwefror 2021

Annwyl Elin,

Ysgrifennaf atoch i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y dylai busnes y Senedd fynd yn ei flaen yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad ac y byddai arfer y pwerau o dan adrannau 5 a 6 o Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) yn gweithio'n ymarferol.

Busnes y Senedd yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno na ddylid galw'r Senedd yn ôl yn ystod y cyfnod cyn iddi gael ei diddymu ond ar gyfer busnes yn ymwneud â:

- penderfyniadau brys a sylweddol sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws; neu
- gohirio etholiad y Senedd.

Byddai o gymorth i'r Pwyllgor Busnes drafod sut i ymdrin â datblygiadau brys a sylweddol eraill o'r math a welodd y Senedd yn cael ei galw yn ôl yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad cyn etholiad 2016.

Wrth ofyn am alw'r Senedd yn ôl, byddem yn ymwybodol o gydbwyso'r angen i Lywodraeth Cymru gael ei dwyn i gyfrif am benderfyniadau gan y Senedd gyda'r cyfle y byddai craffu'n ei ddarparu i Aelodau na fyddai ar gael i ymgeiswyr eraill.

Byddem yn croesawu barn y Pwyllgor Busnes am ymdrin â rheoliadau. Yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad ni fydd gofyniad ffurfiol ar gyfer craffu gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (gan fod yr amserlenni ar gyfer adrodd yn cael eu rhewi yn ystod y Toriad) nac am gytundeb y Senedd yn ystod y cyfnod hwnnw i reoliadau a wneir o dan y weithdrefn gadarnhaol "gwnaed".. Mater i'r Senedd a'r Llywodraeth nesaf fyddai ystyried, yn union ar ôl yr etholiad, y trefniadau ar gyfer cymeradwyo rheoliadau o'r fath cyn iddynt syrthio'n awtomatig. Er hynny, mae'r cydbwysedd rhwng craffu a thegwch etholiadol hefyd yn berthnasol yma. Gallai ystyried rheoliadau yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad ofyn am drefniadau hyblyg gan gynnwys atal y Rheolau Sefydlog dros dro o bosibl, er mwyn caniatáu i gynnyg gael ei drafod heb rybudd dyledus.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn cyhoeddi ein canllawiau cyn-etholiadol ar gyfer gweision sifil Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl, ond hoffwn eich sicrhau y bydd yr egwyddorion sylfaenol yn aros yr un fath ag ar gyfer etholiadau blaenorol. Bydd newidiadau'n cydnabod ac yn adlewyrchu amgylchiadau penodol y pandemig. Mae'n annhebygol y bydd manylion y canllawiau yn dylanwadu'n sylweddol ar ystyriaethau'r Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd y tu hwnt i'r manylion yr ydym eisoes wedi'u cadarnhau ynghylch ymdrin â gohebiaeth.

Mae'n bwysig bod yr Aelodau ac ymgeiswyr yn cael eu trin mor gyfartal â phosibl yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad. I'r perwyl hwnnw, rydym o'r farn na ddylid cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig yn ystod y cyfnod hwnnw.

Pŵer Adran 5 – gohirio etholiad y Senedd am hyd at chwe mis

O dan adran 5 o'r Bil, caiff y Prif Weinidog gynnig gohirio etholiad y Senedd. Ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf eithafol, rhagwelaf y bydd y Prif Weinidog a'n swyddogion yn cynnal deialog barhaus â chi a'ch swyddogion yn gyfrinachol, i atodi'r diweddariadau rheolaidd yr wyf wedi cytuno i'w darparu i'r Senedd, fel na fydd arfer y pŵer hwn yn peri syndod.

Mae'r Prif Weinidog yn bwriadu parhau i gynnig sesiynau briffio rheolaidd ar gyfer arweinwyr y prif wrthbleidiau yn y Senedd, drwy gydol y cyfnod cyn yr etholiad, a bydd yn eich gwahodd i'r rhain. Byddai hyn yn rhoi i chithau a'r Prif Weinidog ddarlun clir o ymateb tebygol pleidiau eraill i gynnig i ohirio'r etholiad (ac felly'r tebygolrwydd y byddai'n cyflawni'r uwchfwafrif) cyn i chi gyflwyno unrhyw gynnig i bennu dyddiad newydd.

Fel yr wyf wedi dweud wrth y Senedd eisoes, hoffem allu gwneud penderfyniad mewn ffordd amserol a byddem yn gobeithio y byddai unrhyw argymhelliad gan y Prif Weinidog i ohirio'r etholiad yn cael ei wneud cyn toriad y Pasg. Mae ein proses adolygu tair wythnos ar gyfer rheoliadau Coronafeirws yn cynnwys ystyried cyd-destun iechyd y cyhoedd ar gyfer yr etholiad, a byddwn hefyd yn alinio'r broses o wneud penderfyniadau i'r graddau sy'n bosibl gyda'r pwyntiau penderfynu allweddol ar amserlen yr etholiad gan gynnwys yr hysbysiad etholiad, yn ogystal â gwneud penderfyniadau mewn manau eraill yn y DU. Ond, wrth gwrs, rhaid inni baratoi hefyd ar gyfer gwneud penderfyniad yn nes at y diwrnod pleidleisio os bydd angen hynny.

Os bydd y Prif Weinidog yn penderfynu arfer y pŵer, ei fwriad yw y byddai'n ysgrifennu atoch, gan roi manylion ei ystyriaethau o ran y sefyllfa iechyd y cyhoedd, yr heriau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r etholiad, a'r effaith ar bleidleiswyr, gan amgáu cyngor ar wahân gan Brif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru, a nodi'r cyfnod a ffefrir ar gyfer cynnal y bleidlais a ohiriwyd. Byddai'r Prif Weinidog ar yr un pryd yn gosod Datganiad Ysgrifenedig yn amgáu'r un wybodaeth.

Mater i chi wedyn fyddai penderfynu a ddylid galw'r Senedd yn ôl neu beidio a rhoi cynnig i'r Aelodau yn gofyn am gytundeb i chi bennu dyddiad newydd ar gyfer y bleidlais. Pe bai cytundeb uwchfwafrif yn cael ei sicrhau, byddai dyletswydd arnoch i osod datganiad. Pe na bai cytundeb uwchfwafrif, gallech benderfynu cyflwyno cynnig newydd i'r Senedd; ni fyddai hyn yn gofyn am ymyrraeth newydd gan y Prif Weinidog er y byddem, wrth gwrs, yn hapus i'ch helpu mewn unrhyw ffordd i ystyried yr opsiwn hwn.

Mae'n bwysig bod y Pwyllgor Busnes yn trafod cynllunio wrth gefn ar gyfer sefyllfa lle y byddai rhagor o wythnosau eistedd ar gael i'r Bumed Senedd, ac i ddod i gytundeb ar y math o fusnes a allai gael ei gynnal yn ystod y cyfnod hwnnw. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai ein swyddogion gydweithio i baratoi cyngor pellach i'r Aelodau ar hyn.

Pŵer Adran 6 – amrywio dyddiad etholiad y Senedd ymhellach

O dan adran 6 o'r Bil, gallwch gynnig dyddiad newydd ar gyfer yr etholiad sydd yn fis yn gynharach neu'n hwyrach na dyddiad yr ydych wedi'i bennu o dan adran 5. Os byddwch yn cynnig hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu â Phalas Buckingham ynghylch y proclamasiwn sydd i'w wneud gan Ei Mawrhydi yn diddymu'r Senedd ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r etholiad gael ei gynnal ar y dyddiad newydd. Bydd geiriad y cynhyrchiad yn seiliedig ar yr hyn sydd i'w nodi yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021 arfaethedig.

Bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu i'r proclamasiwn y cytunir arno gan Ei Mawrhydi gael ei basio o dan y Sêl Gymreig cyn gynted â phosibl, a'i gyhoeddi yn y Gazettes; wrth gwrs, bydd angen inni gydgysylltu'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu ehangach â'r Aelodau, y rhai sy'n ymwneud â'r etholiad a phobl Cymru.

Rydym yn cynnal trafodaethau gyda Phalas Buckingham am yr agweddau ymarferol a byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth am unrhyw faterion eraill sy'n deillio o'r trafodaethau hynny fel y bo'n briodol.

Rwyf yn croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo rhwng ein swyddogion ar y materion hyn a byddwn hefyd yn fodlon eu trafod ymhellach gyda chi'n uniongyrchol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ac at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Byddaf hefyd yn gosod copi yn y Senedd.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Chwefror 2021

Annwyl David a Mick,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu i Dŷ'r Cyffredin basio diwygiad gan Lywodraeth y DU i'r Bil Masnach ar 9 Chwefror sy'n gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig. Bydd y diwygiad yn cael ei ystyried yn Nhŷ'r Arglwyddi maes o law.

Y Diwygiad Amddiffyniadau Statudol

Mae'r gwelliant, sydd wedi'i gynnig yn lle gwelliant 6B yr Arglwyddi, yn gosod cyfyngiadau ar sut y gellir arfer y pwerau cydamserol newydd a roddwyd i un o Weinidogion y Goron a'r awdurdodau datganoledig o dan gymal 2 o'r Bil i weithredu darpariaethau penodol o'r Cytundebau Masnach Rydd a ddaeth i ben rhwng y DU a gwledydd eraill mewn amgylchiadau lle'r oedd cytundeb eisoes rhwng y wlad bartner honno a'r UE o'r 31 Ionawr 2020 (y cyfeirir atynt yn aml fel 'cytundebau parhad masnach').

Mae'n bwysig nodi nad yw cymal 2 y Bil yn rhoi pŵer cyffredinol i weithredu Cytundebau Masnach Rydd newydd ac felly ni fydd y gwelliant hwn yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar bwerau Llywodraeth y DU na'r Llywodraethau Datganoledig i weithredu darpariaethau o fewn Cytundebau Masnach Rydd newydd ble nad oedd cytundeb gyda'r wlad sy'n bartner a'r UE o'r 31 Ionawr 2020.

Bydd y gwelliant yn golygu y bydd angen i unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 2 fod yn gyson â chynnal lefelau'r DU o amddiffyniadau statudol mewn nifer o feysydd penodol gan gynnwys lles anifeiliaid a diogelu'r amgylchedd. Mae'r diffiniad o "lefelau diogelu statudol y DU" yn cynnwys deddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru neu a basiwyd gan y Senedd yn y meysydd penodedig. Mae'r gwelliant hefyd yn nodi bod yn rhaid i ddarpariaethau ar wasanaethau gofal iechyd fod yn gyson â chynnal gwasanaethau gofal iechyd clinigol a ariennir yn gyhoeddus yn y DU, neu yn y rhan o'r DU y mae'r rheoliadau'n effeithiol ynddynt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 300
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ystyrir bod y gwelliant yn bodloni'r trothwy ar gyfer gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol am y rhesymau canlynol:

- Mae'r gwelliant yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig gan ei fod yn newid cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae'n cyfyngu ar gwmpas pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau drwy nodi amodau y mae angen cydymffurfio â hwy er mwyn gwneud unrhyw reoliadau o dan gymal 2(1).
- Roedd cymal 2 o fewn cwmpas y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol a osodwyd ar 2 Ebrill 2020 ar y sail ei fod yn gwneud darpariaeth a oedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd at ddibenion y prawf yn SO 29.1(i). Y rheswm am hyn oedd bod y darpariaethau y gellid eu gweithredu gan reoliadau yn cwmpasu ystod eang o feysydd polisi sy'n dod o fewn cymhwysedd y Senedd, i gynnwys materion fel amaethyddiaeth a physgodfeydd. Wrth i'r gwelliant newid cwmpas y pwerau i wneud rheoliadau, ystyrir hefyd bod y dadleuon hynny'n berthnasol i'r gwelliant. Mae'r safonau y byddai angen i Weinidogion Cymru eu hystyried cyn arfer y pŵer hwnnw hefyd yn ymwneud â nifer o faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, megis amaethyddiaeth, yr amgylchedd a iechyd a iechyd anifeiliaid.

Byddai'r gwelliant hwn fel arfer wedi galw am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ond oherwydd y cyfnod hwyr iawn y'i cyflwynwyd yn ystod y broses o Ystyried Diwygiadau, cam sy'n mynd yn ei flaen yn gyflym iawn, nid oes digon o amser i osod memorandwm atodol ac i drefnu dadl yn y Senedd mewn modd sy'n gallu cael ei ystyried yn y broses Seneddol. Mae'n rhwystredig bod newidiadau munud olaf o'r math hwn yn golygu na ellir cadw at y broses gydsynio yn y ffordd y byddem yn dymuno. Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod y gwelliant, yn yr achos hwn, yn welliant i'r Bil ar y sail ei fod yn nodi mesurau diogelu sy'n berthnasol i gwmpas y pŵer i wneud rheoliadau yng nghymal 2, drwy sicrhau na ellir ei arfer mewn ffordd a fyddai'n anghyson â'r safonau presennol sy'n gymwys mewn meysydd fel iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion a diogelu'r amgylchedd.

Byddaf yn parhau i roi gwybod i chi am unrhyw welliannau a wnaed yn ystod camau olaf y Bil yn y Senedd sydd, yn fy barn i, yn cynnwys cymhwysedd datganoledig. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at holl Aelodau'r Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir



Jeremy Miles AS

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd



Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

Chwefror 2021

Cyflwynwyd i Senedd Cymru yn unol ag Adran 3C
Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 fel y'i
mewnosodwyd gan Adran 25 Deddf Cymru 2014

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cwmpas yr adroddiad	3
Cynigion a roddwyd ar waith	4
Cynigion nad ydynt wedi'u rhoi ar waith eto	5
Cyfraith Cynllunio yng Nghymru	5
Cyfraith Etholiadol	5
Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid	6
Gwasanaethau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat.....	7
Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad	8
Terfynu Tenantiaethau oherwydd Diffyg Cydymffurfiaeth gan Denant a Gwneud i Dir Weithio: Hawddfreintiau, Cyfamodau a <i>Profits à Prendre</i>	8
Cyfraith Bywyd Gwylt.....	9
Prosiectau Presennol Comisiwn y Gyfraith a Phrosiectau yn y Dyfodol	11
Tribiwnlysoedd Datganoledig Cymru	11
Cerbydau Awtomatig	11
Diogelwch Tomenni Glo	11
Penderfyniadau i beidio â gweithredu	13

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n ymwneud â gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith gan Weinidogion Cymru. Dyma'r chweched adroddiad blynyddol i'w gyflwyno ar ôl pasio Deddf Cymru 2014. Mae'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 15 Chwefror 2020 a 14 Chwefror 2021.

Mae Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Senedd Cymru bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y maent wedi rhoi cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru ar waith.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariadau ar y cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf o ran nifer o faterion y mae Comisiwn y Gyfraith wedi gwneud argymhellion yn eu cylch. Cyhoeddwyd ein hymateb terfynol manwl i "Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Adroddiad Terfynol" Comisiwn y Gyfraith. Roedd hwn yn dilyn ac yn ategu ein hymateb interim, ac yn nodi ein barn ar bob un o'r 192 o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith i symleiddio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ar bob agwedd ar y system gynllunio. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â diwygio etholiadol, galluedd meddyliol ac amddifadu o ryddid, gwasanaethau tacsis a cherbydau hurio preifat a chyfraith bywyd gwyllt.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut rydym yn ymgysylltu â Chomisiwn y Gyfraith ar ei brosiectau presennol a phrosiectau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith pwysig ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelwch tomenni glo, tribiwnlysoedd Cymru a cherbydau awtomatig.

Mae'r diweddariad hwn a'r cynnydd a nodwyd yn dangos y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar gynigion Comisiwn y Gyfraith.

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

15 Chwefror 2021

Cwmpas yr adroddiad

1. Mae Adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 o Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Senedd Cymru bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn honno.
2. Dyma'r chweched adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 15 Chwefror 2020 a 14 Chwefror 2021.
3. Fel y'i pennwyd gan y Ddeddf, mae'r adroddiad yn cwmpasu cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud a materion datganoledig yng Nghymru sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn, a chynigion sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer rhoi cynigion ar waith a phenderfyniadau i beidio â rhoi cynigion ar waith.
4. Mae'r adroddiad yn cwmpasu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr) i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru.

Cynigion a roddwyd ar waith

5. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r gwaith o roi unrhyw gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith ar waith yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Cynigion nad ydynt wedi'u rhoi ar waith eto

Cyfraith Cynllunio yng Nghymru

6. Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb terfynol manwl i “Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Adroddiad Terfynol” Comisiwn y Gyfraith. Mae'n dilyn ac yn ategu ymateb interim y Llywodraeth a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019, drwy nodi barn Llywodraeth Cymru ar bob un o'r 192 o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith i symleiddio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ar bob agwedd ar y system gynllunio. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion.
7. Fel y nodwyd yn y ddau ymateb, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cyflwyno Bil Cydgrynhoi Cynllunio er mwyn cydgrynhoi a symleiddio'r maes cyfreithiol pwysig hwn ac mae'n ymrwymedig i wneud hynny. Rhagwelir mai Bil o'r fath fydd y prif ddull o weithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion a dderbyniwyd.
8. O ystyried y buddiannau sylweddol i'r holl randdeiliaid a'r angen brys am gydgrynhoi fel y'i dangoswyd yn yr Adroddiad, bydd y gwaith bellach yn canolbwyntio ar baratoi'r Bil, gyda Chomisiwn y Gyfraith yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru. Drwy hynny, bydd y Bil yn gallu bod yn rhan bwysig o'r rhaglen ffurfiol i wella hygyrchedd cyfraith Cymru sy'n ofynnol o dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, a fydd yn fater i'r Llywodraeth yn ystod tymor nesaf y Senedd.

Cyfraith Etholiadol

9. Fel rhan o'i 11eg Raglen o Ddiwygio'r Gyfraith, nod Comisiwn y Gyfraith oedd symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu pob etholiad a refferendwm, a symleiddio a moderneiddio'r gyfraith sy'n llywodraethu'r ffordd y cynhelir etholiadau a refferenda. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr, ynghyd â Chomisiwn y Gyfraith yr Alban, eu hadroddiad terfynol ym mis Mawrth 2020.
10. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'r gwaith o roi ar waith y newidiadau a gyflwynwyd o dan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ac etholiad Senedd 2021 fydd yr etholiad cyntaf i'w gynnal o dan yr etholfraint estynedig.
11. Mae argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ynglŷn â chydgrynhoi cyfraith etholiadol wedi parhau i gael ei ystyried fel rhan o agenda diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru ac i lywio rhaglenni gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.
12. Mae un o'r darnau o ddeddfwriaeth alluogi ar gyfer etholiadau'r Senedd, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007,

wedi cael ei ddiwygio sawl gwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud y gyfraith yng Nghymru yn hygyrch a hawdd ei defnyddio ac felly mae gwaith yn yr arfaeth i ystyried adolygu'r Gorchymyn gyda'r nod o'i ddisodli gan Orchymyn newydd wedi'i gydgrynhoi.

13. Cytunodd y Senedd ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ym mis Tachwedd 2020 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2021. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwneud newidiadau i drefniadau etholiadol llywodraeth leol ac mae wedi cydgrynhoi rhai darpariaethau anghymhwys fel y maent yn ymwneud â Chymru yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Bwriedir i etholiadau llywodraeth leol gael eu cynnal yng Nghymru ym mis Mai 2022. O ystyried y newidiadau helaeth a gyflwynir gan y ddeddfwriaeth hon, cytunwyd y caiff y rheolau sy'n llywodraethu etholiadau prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned yng Nghymru eu hail-lunio yn eu cyfanrwydd. Bydd hyn yn cydgrynhoi'r gyfraith bresennol, yn ymgorffori newidiadau diweddar a bydd yn arwain at ddau ddarn o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu etholiadau lleol yng Nghymru.

Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid

14. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn a oedd yn amlinellu cynigion i ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983. O ystyried bod y Ddeddf yn gymwys yng Nghymru a Lloegr, bydd angen i ganfyddiadau'r cynigion a nodwyd yn y Papur Gwyn hwn hefyd gael eu hystyried yn ofalus yng nghyd-destun y ffordd y mae'r Ddeddf yn gweithredu ar hyn o bryd ochr yn ochr â deddfwriaeth benodol, gwasanaethau iechyd meddwl a systemau yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn helpu i lywio penderfyniadau polisi yng Nghymru.
15. Er y bydd ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i Lywodraeth y DU, caiff yr ymatebion eu rhannu â Llywodraeth Cymru hefyd. O ran materion a gadwyd yn ôl, caiff yr holl ymatebion o Gymru a Lloegr eu hystyried yn llawn gan Lywodraeth y DU. O ran materion datganoledig, bydd y ddwy Lywodraeth yn ystyried yr holl ymatebion ond ni chaiff adborth o Gymru ei gyfrif na'i drin ar wahân fel rhan o ymateb Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad.
16. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y cynigion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn wrth iddi ystyried y camau nesaf priodol i Gymru a datblygu ei hymateb ei hun i'r Adolygiad. Byddwn yn gwneud hyn mewn cydweithrediad agos â'n partneriaid iechyd meddwl yn y trydydd sector a phartneriaid statudol yn y maes.
17. Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad a Bil drafft yn argymhell y dylid cyflwyno cynllun amgen yn lle'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil i ddiwygio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ystod haf 2018, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 16 Mai 2019. Er nad ydynt wedi'u henwi ar wyneb y Ddeddf,

cyfeirir at y trefniadau gweithdrefnol newydd ar gyfer awdurdodi gofal a thriniaeth sy'n gyfystyr ag amddifadu person o'i ryddid fel y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.

18. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gydag adrannau Llywodraeth y DU ar y mater pwnc hwn a gadwyd yn ôl er mwyn sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth a'r Cod Ymarfer ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn adlewyrchu tirwedd ddeddfwriaethol a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gywir.
19. Ym mis Gorffennaf 2020, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu rhoi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid newydd ar waith ym mis Ebrill 2022 ac ymgynghori ar y rheoliadau drafft i Loegr a'r cod ymarfer drafft ar y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid i Gymru a Lloegr yn ystod gwanwyn 2021. Er mwyn helpu i roi'r trefniadau ar waith yng Nghymru a chydymffurfio â'r dyddiad gweithredu arfaethedig, sef mis Ebrill 2022, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y rheoliadau drafft i Gymru yn ystod gwanwyn 2021. Bydd y rheoliadau drafft hyn yn canolbwyntio ar fonitro a chyflwyno adroddiadau ar y trefniadau; pwy all gynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau; Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol; a rôl Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Cymeradwy a'r broses o'u penodi. Rydym hefyd yn bwriadu ymgynghori ar Strategaeth Gweithlu a Hyfforddiant drafft ar gyfer y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid i Gymru. Cyn yr ymgynghoriad ffurfiol, mae swyddogion wedi sefydlu grwpiau rhanddeiliad traws-sector er mwyn llywio a chydgyhyrchu'r rheoliadau a'r codau ymarfer drafft.

Gwasanaethau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat

20. Cyfeiriodd adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer 2019-20 at yr ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thacsis a cherbydau hurio preifat. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Papur Gwyn 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus' yn 2018. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar bedwar cynnig:

1. Creu Safonau Cenedlaethol i fynd i'r afael ag amrywiadau rhwng y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru o ran safonau tacsis a cherbydau hurio preifat;
2. Estyn pwerau gorfodi i ganiatáu i swyddogion awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn unrhyw dacsic/cherbyd hurio preifat sy'n gweithredu yn eu hardal;
3. Pennu protocolau rhannu gwybodaeth effeithiol at ddibenion diogelu;
4. Y posibilrwydd o ailgyfeirio swyddogaethau trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat oddi wrth awdurdodau lleol tuag at Gyd-awdurdod Trafnidiaeth.

21. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ystod gwanwyn 2019, tynnwyd sylw at yr amrywiaeth eang o safbwyntiau ymhlith rhanddeiliad ynglŷn â sut y

dylid gwella'r deddfwriaeth sy'n sail i'r ffordd y mae'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat yn gweithredu ac nid oedd y safbwyntiau a fynegwyd yn gyson drwy'r diwydiant cyfan. Roedd yn amlwg bod angen gwneud cryn dipyn o waith o hyd cyn cyflwyno deddfwriaeth sy'n mynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen. Felly, cyhoeddodd y Prif Weinidog na fyddai darpariaethau ynglŷn â thacsis yn cael eu cynnwys yn y Bil trafndiaeth gyhoeddus arfaethedig¹ yn ystod y tymor Senedd hwn, er mwyn gweithio gyda'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat i ddatblygu cynigion deddfwriaethol i sicrhau bod rheoliadau ynglŷn â thacsis a cherbydau hurio preifat yn addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif.

22. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol i ddatblygu nifer o atebion anneddfwriaethol i'w hystyried cyn newidiadau deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau trwyddedu presennol. Caiff 'Canllaw ar Gysoni Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat' ei gyhoeddi cyn hir a bydd yn cynnwys nifer o argymhellion i awdurdodau lleol y gellir eu mabwysiadu ar sail wirfoddol er mwyn sicrhau dull mwy cyson o drwyddedu ledled Cymru.
23. Bydd penderfyniadau ar ddatblygu a chyflwyno Papur Gwyn a Bil yn ystod tymor nesaf y Senedd yn fater i'r Llywodraeth nesaf.

Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad

24. Croesawodd Llywodraeth Cymru yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ym mis Gorffennaf 2020 ar Ryddfrenio, yr Hawl i Reoli a Chyfunddaliad fel cam pwysig ymlaen tuag at ddiwygiadau mawr eu hangen. Unwaith y bydd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cael cyfle i ystyried yr ymchwil sydd ar fin cael ei chyhoeddi i faint a chwmpas problemau o ran lesddaliadau yng Nghymru, bydd y Gweinidog yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hynny a nodwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Terfynu Tenantiaethau oherwydd Diffyg Cydymffurfiaeth gan Denant a Gwneud i Dir Weithio: Hawddfrentiau, Cyfamodau a *Profits à Prendre*

25. Ystyriodd y cyntaf o'r prosiectau hyn gan Gomisiwn y Gyfraith sut y gall landlord derfynu tenantiaeth am nad yw'r tenant wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau. Ystyriodd y prosiect arall y gyfraith gyffredinol sy'n llywodraethu Hawddfrentiau, Cyfamodau a *Profits à Prendre*. Argymhellodd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ddiwygiadau i foderneiddio a symleiddio'r gyfraith sy'n sail i'r hawliau hyn, gan ei gwneud yn addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif a chyflwyno system gofrestru fodern. Datganodd Llywodraeth y DU yn y Papur Gwyn ar Dai a gyhoeddwyd ar 7 Chwefror 2017: "*The Government also intends to simplify the current restrictive*

¹ Yn dilyn hynny, tynnwyd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ôl o'r Senedd yn 2020 yn sgil yr angen i ailflaenoriaethu adnoddau mewn ymateb i bandemig COVID-19.

covenant regime by implementing the Law Commission's recommendations for reform and will publish a draft Bill for consultation as announced in the Queen's Speech". Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried adroddiadau wedi'u diweddarau Comisiwn y Gyfraith a Bil diwygiedig Llywodraeth y DU ar gyfraith eiddo yn ofalus a bydd hyn yn helpu i lywio camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r opsiynau deddfwriaethol.

Cyfraith Bywyd Gwyllt

26. Fel rhan o'i 11eg Raglen o Ddiwygio'r Gyfraith, aeth Comisiwn y Gyfraith ati i ystyried y gyfraith a oedd yn ymwneud â gwarchod, rheoli, diogelu ac ymelwa ar fywyd gwyllt yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad cyntaf, *Wildlife Law: Control of Invasive Non-native Species* yn 2014, gan argymhell y dylid cyflwyno cytundebau rheoli a gorchmynion i orfodi perchenogion tir neu feddianwyr i ymgymryd â gweithrediadau rheoli neu ddifa. Rhoddwyd rhai o'r argymhellion hyn ar waith yn Neddf Seilwaith 2015.
27. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar Gyfraith Bywyd Gwyllt yn 2015, gan gynnig un statud a fyddai'n dwyn ynghyd y rhan fwyaf o'r gyfraith sy'n ymwneud â bywyd gwyllt yn ogystal â gwneud cynigion penodol ar y ffordd fwyaf priodol o drosi cyfarwyddebau'r UE a deddfwriaeth gorfodi bywyd gwyllt, gan gynnwys troseddau a sancsiynau sifil ac apeliadau.
28. Ystyriodd Llywodraeth Cymru gynigion Comisiwn y Gyfraith yng nghydedstun pasio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chanlyniad referendwm yr UE ym mis Mehefin 2016. Yng ngoleuni'r naill a'r llall, penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar y pryd, gan nodi, yn lle hynny, y câi'r adroddiad a'r Bil drafft eu defnyddio fel rhan o'r dystiolaeth ategol i lywio cyfleoedd deddfwriaethol yn y dyfodol i ddiogelu bywyd gwyllt yng Nghymru.
29. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i droi'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig a chadw a chywiro cyfraith ddomestig sy'n gweithredu rhwymedigaethau'r UE. Bydd hyn yn rhoi sylfaen gadarn wrth inni ystyried y ffordd ymlaen o ran cyfleoedd deddfwriaethol newydd i ddiogelu bywyd gwyllt yng Nghymru.
30. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cymryd camau sy'n gweithredu rhai o gynigion penodol Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â Rhywogaethau Estron Goresgynnol. Daeth Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019, a wnaed gan Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Defra a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, i rym ym mis Rhagfyr 2019. Mae hyn yn rhoi trefniadau gorfodi a thrwyddedu ar waith ar gyfer y rhywogaethau hynny a restrir fel Rhywogaethau Goresgynnol Estron sy'n achos pryder i'r Undeb o dan Reoliad yr UE 1143/2014. Yn debyg i gynigion trawsbynciol Comisiwn y Gyfraith, mae'r Gorchymyn yn darparu

ar gyfer sanctiynau troseddol a sifil, yn gosod cosbau sy'n gyson â chosbau tebyg a geir yn y ddeddfwriaeth ar fywyd gwylt sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â throseddau gan gwmnïau a phartneriaethau, yn cyflwyno gofynion trwyddedu safonol ac yn gwneud newidiadau lle mae rhai darpariaethau cyfredol yn gorgyffwrdd â'r rheolaethau a nodwyd yn y Gorchymyn.

31. Yn yr adroddiad yn 2015, mynegodd Comisiwn y Gyfraith y farn y byddai rheoliadau ychwanegol sy'n rhagnodi sut y dylai maglau perthnasol gael eu gweithredu a'u harchwilio o fudd yn y dyfodol. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 yn cynnwys cynigion i gynnwys pwerau i wneud gorchymyn mewn perthynas â gwerthu a defnyddio maglau drwy gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn ystod chweched tymor y Senedd.

Prosiectau Presennol Comisiwn y Gyfraith a Phrosiectau yn y Dyfodol

Tribiwnlysoedd Datganoledig Cymru

32. Fel rhan o 13eg Raglen o Ddiwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith, cytunodd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru i ddechrau ar brosiect i Gymru yn unig ar y gyfraith sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd datganoledig Cymru. Mae'r prosiect i Gymru yn unig gan Gomisiwn y Gyfraith wedi dechrau ac yn mynd rhagddo'n dda. Cafwyd sawl cyfarfod â rhanddeiliaid ac mae'r prosiect bellach wedi cyrraedd y cam ymgynghori. Bwriedir cyhoeddi adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith yn hydref 2021.

Cerbydau Awtomatig

33. Ym mis Mawrth 2018, gofynnodd Canolfan Llywodraeth y DU ar gyfer Cerbydau Cysylltiedig ac Awtonomaidd i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad pellgyrhaeddol o fframwaith rheoleiddio'r DU ar gyfer cerbydau awtomatig ar y ffyrdd. Mae Comisiwn y Gyfraith yn anelu at baratoi ei adroddiad terfynol, gan gynnwys argymhellion ar gyfer newidiadau deddfwriaethol, erbyn diwedd 2021.

34. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu gwaith Comisiwn y Gyfraith ar y maes hollbwysig hwn ar gyfer cludo teithwyr yn y dyfodol. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer gwella'r ffordd y caiff y rhwydwaith ffyrdd ei weithredu a'i gynnal a'i gadw, gan gynnwys drwy dechnoleg newydd. Bydd datblygiadau arloesol ym maes cludo teithwyr yn chwarae rôl fawr iawn o ran rheoli'r galw cynyddol a pharhau i wella diogelwch ar y ffyrdd a hefyd leihau ôl troed carbon Cymru a gwneud defnydd mwy effeithlon o'n seilwaith ar yr un pryd. Er mwyn gwneud hyn yn ddiogel, mae'n hollbwysig cael fframwaith cyfreithiol sy'n cydnabod y rôl newidiol y bydd technoleg yn ei chwarae o ran gyrru ac yn helpu pobl i ymddiried yn y defnydd a wneir ohoni.

Diogelwch Tomenni Glo

35. Yn sgil tirlithriad ar hen domen glo yn Tylorstown ym mis Chwefror 2020, dechreuodd Llywodraeth Cymru asesu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i ddiogelwch tomenni glo. Canfu nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn ddigon cadarn nac yn addas at y diben i roi'r lefelau o reoli a goruchwylio sydd eu hangen i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

36. Ym mis Hydref 2020, gwahoddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Gomisiwn y Gyfraith i gynnal adolygiad o ddeddfwriaeth diogelwch tomenni glo drwy ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014). Cytunodd Comisiwn y Gyfraith fod hyn yn ddarn pwysig o waith a

dechreuodd ar ei adolygiad o ddeddfwriaeth diogelwch tomenni glo ar 2 Tachwedd 2020. Disgwylir i'r adolygiad bara am 13-15 mis.

37. Bydd yr adolygiad yn gwerthuso'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â diogelwch tomenni glo gyda'r bwriad o nodi bylchau, anghysondebau a dulliau gweithredu anfuddiol neu anghyfredol. Gofynnwyd i'r Comisiwn nodi opsiynau ar gyfer modelau rheoleiddio amgen sy'n briodol i'w mabwysiadu yng Nghymru, ac ystyried y nodweddion sydd eu hangen i sicrhau bod unrhyw system a gynigir yn effeithiol a chynnig argymhellion i sicrhau system reoleiddio gadarn ac integredig sydd wedi'i phrawfesur at y dyfodol ac sy'n mabwysiadu dull unffurf o archwilio, cynnal a chadw a chadw cofnodion.
38. Disgwylir i Gomisiwn y Gyfraith ymgynghori â rhanddeiliaid yn ystod gwanwyn 2021 ac yna gyhoeddi ei adroddiad ar ddechrau 2022.

Penderfyniadau i beidio â gweithredu

39. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau i beidio â gweithredu ar adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith
DYDDIAD 15 Chwefror 2021
GAN Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru

Mae'n bleser gennyf osod gerbron y Senedd heddiw y chweched [adroddiad blynyddol ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith gan Lywodraeth Cymru](#).

O dan Adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 o Ddeddf Cymru 2014, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru wedi cael eu rhoi ar waith.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 15 Chwefror 2020 a 14 Chwefror 2021, ac yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar nifer o feysydd sy'n ymwneud â chynigion Comisiwn y Gyfraith yn ogystal â gwybodaeth am brosiectau presennol Comisiwn y Gyfraith a phrosiectau yn y dyfodol.

Gwnaed cynnydd dros y 12 mis diwethaf o ran nifer o faterion y mae Comisiwn y Gyfraith wedi gwneud argymhellion yn eu cylch. Cyhoeddwyd ein hymateb terfynol manwl i "Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Adroddiad Terfynol" Comisiwn y Gyfraith. Roedd hwn yn dilyn ac yn ategu ein hymateb interim, ac yn nodi ein barn ar bob un o'r 192 o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith i symleiddio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ar bob agwedd ar y system gynllunio. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â diwygio etholiadol, galluedd meddyliol ac amddifadu o ryddid, gwasanaethau tacsis a cherbydau hurio preifat a chyfraith bywyd gwyllt.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut rydym yn ymgysylltu â Chomisiwn y Gyfraith ar ei brosiectau presennol a phrosiectau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith pwysig ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelwch tomenni glo, tribiwnlysoedd Cymru a cherbydau awtomatig.

Mae'r diweddariad hwn a'r cynnydd a nodwyd yn dangos y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar gynigion Comisiwn y Gyfraith.

Tudalen y pecyn 316

Eitem 8.5



UK Government
Llywodraeth y DU

Rt Hon Simon Hart MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Ref: 020MISC21

T: 0292 092 4216
E: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Mick Antoniw MS

Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
Email: seneddLJC@senedd.wales

16 February 2021

Dear Mick,

The Sewel Convention

Thank you for your letter of 21 January regarding the application of the Sewel Convention to the United Kingdom Internal Market Bill (the Bill).

As set out in the Minister of State for Small Business, Consumers and Labour Markets' written statement of 17 December 2020, it was the UK Government's intention from the very outset of the process to legislate for the Bill with the consent of all devolved legislatures. As with every UK Government Bill that engages the legislative consent process, we followed the associated practices and procedures for seeking consent from the devolved administrations. We therefore wrote to all three devolved administrations in advance of introduction of the Bill seeking consent.

In this respect I disagree with your assertion that the 'not normal' circumstances of the Bill meant that the Sewel Convention did not apply. The convention applies in all circumstances where Parliament seeks to legislate on devolved matters and the UK government seeks consent on this basis. The convention recognises however that there are circumstances in which it may be necessary for Parliament to legislate irrespective of whether or not consent is obtained. The inclusion of the words 'not normal' within the convention acknowledges that Parliament is sovereign and therefore it is ultimately for Parliament whether to use its power to legislate in any such circumstances.

Our work with the Welsh Government alongside the Bill's parliamentary passage sought to clarify the concerns that they had raised with us with the hope of reaching a point at which the Welsh Government could recommend that the Senedd granted consent to the Bill. I was pleased that as a result of this engagement we were able to bring forward amendments to the Bill to directly address a number of issues.

Ref: 020MISC21

T: 0292 092 4216
E: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

This included providing a mechanism that would enable divergence under Common Frameworks to be excluded from the Market Access Principles where there is agreement between all four parts of the UK, as well as ensuring that the Secretary of State is obliged to seek the consent of the devolved administrations when panel appointments are made to the Office of the Internal Market. The UK Government deeply regrets that, despite efforts to find common ground, both the Senedd and the Scottish Parliament refused consent for the Bill. However, we sought consent in good faith and are confident that the legislation is more robust and more attuned to Welsh Government concerns in particular as a result.

The Bill, now Act, is vital in ensuring that businesses in Wales and across the UK can continue to trade freely within our internal market now that the Transition Period has ended. Our consultation highlighted the real concerns that businesses, including those in Wales, had about the potential for regulatory divergence between parts of the UK to create new internal barriers to trade. It is the Government's view that legislation of this kind must be in place across the whole UK in order to provide businesses and consumers from all parts of our country with the same legal protections and advantages. Taking all of this into account, we made the difficult decision at the end of the process that it was necessary to proceed with the Bill without consent and to bring key parts of the Act into force before the end of the Transition Period on 31 December 2020. This is not a decision that was taken lightly, however as I have made clear, it was in line with the convention.

The Government remains firmly committed to the Sewel Convention and its associated practices. The convention continues to work well and it remains the case that the vast majority of UK Parliamentary Bills that intersect with devolved competence are passed with the consent of the devolved legislatures. This has enabled provisions to be made in parliamentary primary legislation which are of great benefit to Wales and ensured that the Senedd has the necessary time and capacity to deliver its distinct programme of legislation. The information provided in explanatory notes which accompany UK primary legislation provide transparency on the provisions for which consent is being sought.

It is a matter for Parliament to consider the role that it should play in respect of the Sewel Convention. I am sure that your Committee will be aware of the implementation of a new procedure in the House of Lords, proposed by the Procedure and Privileges Committee and which the UK Government adopted for the first time in the course of the UKIM Bill's passage. Under this procedure the UK Government is expected to provide peers with a statement to the House outlining the reasons why legislative consent has been refused or not yet granted by the relevant devolved legislatures prior to the commencement of Third Reading.


Ref: 020MISC21

T: 0292 092 4216
E: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Letters from the Clerks of each of the relevant devolved legislatures detailing the outcome of LCMs are also made available on the Parliament website. The UK Government will engage constructively with Parliament and its committees on any ongoing improvements to the legislative consent process.

I am copying this letter to the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy, the Minister for Small Business, Consumers and Labour Markets, the Minister of State for the Constitution and Devolution, the Chairs of the External Affairs and Additional Legislation Committee, Finance and Constitution Committee, Committee for the Executive Office, the Welsh Affairs Committee, the Public Administration and Constitutional Affairs Committee, and the Lords Constitution Committee.

Yours sincerely,



Rt Hon Simon Hart MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS,
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

21 Ionawr 2021

Annwyl Simon

Confensiwn Sewel

Fel y gwyddoch, rydym yn cynnal ymchwiliad i'r Newid yng Nghyfansoddiad Cymru. Wrth inni ddod â'n hymchwiliad i ben, hoffem ystyried cymhwyso Confensiwn Sewel i Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig ("y Bil").

Fe ysgrifennon ni atoch chi ar **18 Medi 2020** yn gofyn a fyddai Llywodraeth y DU yn ceisio pasio'r Bil heb gydsyniad y Senedd. Byddwch yn ymwybodol y gofynnwyd y cwestiwn hwn yng nghyd-destun y dystiolaeth a roesoch i'r Pwyllgor ar **9 Mawrth 2020** mewn perthynas â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael), pan ddywedasoch yn yr achos penodol hwn, fod 'ddim yn normal' wedi dod i'r amlwg fel thema wrth iddi ddod yn fwy amlwg na fyddai'r LCM yn mynd drwy'r Senedd.

Fe wnaethoch chi ymateb ar **3 Hydref 2020** gan nodi bod Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i'r confensiwn ar gydsyniad deddfwriaethol. Dywedasoch hefyd fod nodiadau esboniadol y Bil yn nodi'n glir eich bod yn ceisio cydsyniad mewn perthynas â phob rhan o'r Bil a bod gweinidogion llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y Bil wedi ysgrifennu cyn cyflwyno'r Bil i nodi'r sefyllfa yn fanwl.

Cyn i'r Bil ddod yn Ddeddf, gwnaeth Gweinidog Llundain ac Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Paul Scully AS **ddatganiad** ar 17 Rhagfyr 2020. Dywedodd y canlynol:

The Sewel Convention envisages situations where the UK Parliament may need to legislate for the whole country [...] The exceptional circumstances of our departure from the EU, and the need to provide a UK-wide legal underpinning for the internal market, is clearly one such situation.

Rydym yn rhannu barn Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd, a fynegodd yn ei adroddiad **Bil Marchnad Fewnol y DU Cydsyniad Deddfwriaethol**, fod yr amgylchiadau sy'n ymwneud â marchnad fewnol y DU yn sylfaenol wahanol i amgylchiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

0300 200 6565

Ni ddylai'r Bil, yn ein barn ni, fod wedi cynnwys agwedd "ddim yn normal" Confensiwn Sewel ac fe ddylai Llywodraeth y DU fod wedi parchu bod y Senedd wedi gwrthod rhoi cydsyniad. Mae ein safbwynt ni, sef mai Bil ledled y DU fel y'i drafftwyd oedd y cam gweithredu yr oedd Llywodraeth y DU yn ei ffafrio, ac nad oedd yn ofynnol, yn cael ei ategu gan gydnabyddiaeth Llywodraeth y DU ei hun yn Hysbysiad y Cydbwyllgor Gweinidogion ym mis Hydref 2017 y gallai marchnad fewnol y DU gael ei darparu trwy fframweithiau cyffredin deddfwriaethol ac anneddfwriaethol. Mae hyn yn rhywbeth y gwnaethom dynnu sylw ato yn ein hadroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig.

Roedd ein hadroddiad yn nodi hefyd, ar yr un pryd ag yr oedd pedair llywodraeth y DU yn cydweithredu ar fframweithiau cyffredin, fod Llywodraeth Cymru (ynghyd â llywodraethau datganoledig eraill) wedi'u heithrio rhag cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Bil cyn ei gyflwyno i Senedd y DU. Roeddem yn synnu felly o weld Llywodraeth y DU yn dweud yn y datganiad, ei bod, ar bob cam, wedi dilyn ysbryd a llythrennol setliad datganoli ac wedi gweithio'n galed i sicrhau cydsyniad deddfwriaethol. Rydym o'r farn bod cydweithredu ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno Bil cyfansoddiadol sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhan hanfodol o'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Byddai dull o'r fath yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU ei hun yn y Devolution Guidance Note: Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales.

Yng ngoleuni ein harsylwadau, byddem yn ddiolchgar am eich ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

1. Pam na wnaeth Llywodraeth y DU gynnwys Llywodraeth Cymru wrth baratoi'r Bil cyn ei gyflwyno?
2. Mae eich ymateb ar 3 Hydref 2020 yn cyfeirio at y Nodiadau Esboniadol i'r Bil (fel y'u cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin), sy'n nodi:

87 There is a convention that the UK Government will not normally legislate with regard to matters that affect or are within the legislative competence of the Scottish Parliament, the National Assembly for Wales or the Northern Ireland Assembly without the consent of the legislature concerned.

88 The Government has therefore sought legislative consent for the clauses contained in this Bill.

Os nad oedd amgylchiadau'r Bil "yn normal", gan olygu nad oedd Confensiwn Sewel yn berthnasol, pam bod Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad yn y lle cyntaf?

3. Pryd y penderfynodd Llywodraeth y DU nad oedd amgylchiadau'r Bil "yn normal" at ddibenion Confensiwn Sewel?
4. A wnaeth Llywodraeth y DU ei phenderfyniad terfynol ar ôl i'r Senedd wrthod cydsyniad?
5. Beth, os unrhyw beth, a wnaethoch yn wahanol wrth geisio cydsyniad ar gyfer y Bil o'i gymharu â'r broses a ddilynwyd gennych ar gyfer Bil yr UE (Cytundeb Ymadael), y gwrthododd y Senedd roi cydsyniad ar ei gyfer hefyd?
6. Pa rôl y mae Llywodraeth y DU yn ystyried y dylai Senedd y DU ei chwarae yng Nghonfensiwn Sewel mewn perthynas â phob Bil y DU y gofynnir am gydsyniad ar ei gyfer gan y Senedd Cymru?



7. Sut y gellid gwella'r prosesau sy'n ymwneud â Chonfensiwn Sewel fel ei fod yn gweithredu'n glir ac yn fwy effeithiol?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych erbyn 17 Chwefror 2021.

Yn gywir,



Mick Antoniw AS

Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

copi:

Y Gwir Anrhydeddus Kwasi Quarteng AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth
Ddiwydiannol

Paul Scully AS, Gweinidog Llundain ac Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol (y Gweinidog Busnesau Bach,
Defnyddwyr a Marchnadoedd Llafur)

David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Senedd Cymru

Bruce Crawford ASA, Cynullydd, Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban

Colin McGrath MLA, Cadeirydd Pwyllgor y Swyddfa Weithredol, Cynulliad Gogledd Iwerddon

Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Pwyllgor Materion Cymru, Tŷ'r Cyffredin

William Wragg AS, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, Tŷ'r Cyffredin

Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Taylor o Bolton, Cadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon